

# Ein Gwlad Ar-lein

Adroddiad 2023

Cyhoeddwyd 28 Tachwedd 2023

# Cynnwys

## Cynnwys


Ein Gwlad Ar-lein ........ 1

- Cynnwys ........ 2
- Trosolwg ........ 4
- Cyflwyniad ........ 11
- Y Dirwedd Ar-lein ........ 13
- Cyflwyniad ........ 13
- Derbyn a defnyddio ........ 14
- Defnyddio gwasanaethau rhyngrwyd ........ 18
- Sectorau ar-lein ........ 31
- Cyflwyniad ........ 31
- Chwilio ........ 33
- Deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol ........ 35
- Cyfryngau cymdeithasol ........ 40
- Gwasanaethau negeseuon a galwadau ........ 47
- Gwasanaethau cwrdd â chariad ........ 50
- Gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig ........ 53
- Gemau ........ 58
- Addysg ........ 66
- Newyddion ........ 68
- Manwerthu ........ 71
- Y Profiad Ar-lein ........ 74
- Cyflwyniad ........ 74
- Risgiau a manteision y rhyngrwyd ........ 76
- Profiadau niweidiol posibl ........ 84
- Ymwybyddiaeth o reolau a'r broses adrodd ac agweddau tuag atynt ........ 100
- Camau a gymerwyd ar ôl dod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein ........ 101
- Agweddau a dulliau defnyddwyr tuag at gadw’n ddiogel ar-lein ........ 107
- Methodoleg ........ 111

Ffynonellau ymchwil Ofcom .......... 111
Ffynonellau ymchwil trydydd parti .......... 116
Cyfeiriadau at ffynonellau trydydd parti eraill .......... 118

# Trosolwg

## Mynd ar-lein yn y DU

**Roedd oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn y DU wedi treulio 3 awr a 41 munud ar-lein ar gyfartaledd bob dydd ym mis Mai 2023**

Roedd cyfanswm o 47.9 miliwn o oedolion yn y DU wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron ym mis Mai 2023, gan dreulio cyfartaledd o 3 awr 41 munud y dydd ar-lein, wyth munud yn fwy nag ym mis Mai 2022. Oedolion ifanc sy'n dal i dreulio'r rhan fwyaf o amser ar-lein, gyda phobl ifanc 18-24 oed yn treulio 4 awr 36 munud ar-lein bob dydd ar gyfartaledd, a'r grŵp 65 oed a hŷn yn treulio'r amser lleiaf (2 awr 46 munud).[1]

**Nid oes gan saith y cant o unigolion 16 oed a hŷn yn y DU fynediad i'r rhyngrwyd gartref, gyda chwarter y rhain yn dweud bod fforddiadwyedd yn rheswm**

Er bod gan fwyafrif helaeth o bobl 16 oed a hŷn fynediad i'r rhyngrwyd gartref, nid oedd gan 7% fynediad yn 2023, gyda'r ffigur hyd yn oed yn uwch (18%) ymysg pobl 65 oed a hŷn. Ymysg y rheini nad oedd ganddynt y rhyngrwyd gartref, roedd canfyddiad o ddiffyg angen neu ddiddordeb (65%) yn parhau i fod yn brif reswm iddynt. Fodd bynnag, soniodd chwarter (26%) am resymau'n ymwneud â'r gost.

**Apiau a gwefannau sy'n eiddo i Alphabet a Meta yw'r rhai a mwyaf poblogaidd**

Mae Alphabet, sy'n berchen ar Google a YouTube, yn parhau i fod y sefydliad mwyaf poblogaidd ymysg oedolion ar-lein y DU o ran ei wefannau a'i apiau (99%), ac yna Meta (perchennog Facebook, WhatsApp ac Instagram) (97%) ac Amazon (89%) ym mis Mai 2023.


Mae ein hastudiaeth beilot Mesur Goddefol Ar-lein i Blant ymysg sampl fach o 162 o blant 8-12 oed yn dangos, fel oedolion, bod bron pob plentyn ar-lein rhwng 8 a 12 oed wedi defnyddio Alphabet yn ystod ein cyfnod gwaith maes (98%). Fel gydag oedolion, Meta oedd yr ail sefydliad a oedd yn cael ei ddefnyddio fwyaf, gyda chyrhaeddiad ar-lein o 85%. Roblox oedd yr unig sefydliad yn y pump uchaf ar gyfer y plant 8-12 oed nad oedd yn ymddangos yn y pump uchaf ar gyfer y rhai 15 oed a hŷn.

**Roedd oedolion yn y DU wedi defnyddio 36 o apiau ar gyfartaledd ar ffonau clyfar ym mis Mai 2023**

Mae 51% o bobl 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffôn clyfar yn defnyddio ffôn clyfar Apple, ac mae 46% yn defnyddio Android. Roedd pobl 25-44 oed yn defnyddio'r rhan fwyaf o apiau o'u cymharu â grwpiau oedran eraill, gan ddefnyddio 42 ap ar gyfartaledd ym mis Mai 2023, gyda phobl 55 oed a hŷn yn ei ddefnyddio lleiaf (32).

Mae chwech o'r deg ap a ddefnyddir amlaf ar ffonau Android gan oedolion y DU yn eiddo i Alphabet (sy'n berchen ar system weithredu Android), o'i gymharu â dau o bob deg ap y mae Apple yn berchen arnynt ar iPhone. Apiau sy'n eiddo i Alphabet yw'r apiau sy'n cael eu defnyddio amlaf ar ffonau clyfar Android, apiau sy'n eiddo i Meta ar iPhone. WhatsApp, Facebook, Facebook Messenger ac Instagram sy'n eiddo i Meta yw'r pedwar ap ffonau clyfar mwyaf poblogaidd ar ddiwrnod arferol ym mis Mai 2023.

[1] Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar-lein yn cynnwys defnydd personol ac mewn rhai achosion, y rheini sy'n defnyddio eu dyfais ar gyfer gwaith/addysg hefyd.




## Sbotolau: sectorau ar-lein

### Chwilio

**Roedd hanner yr oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio Google Search ar ddiwrnod arferol ym mis Mai 2023**

Google yw'r peiriant chwilio mwyaf poblogaidd o hyd, gan gyrraedd 86% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2023, gyda hanner (51%) yn defnyddio'r peiriant chwilio ar ddiwrnod arferol. Gwelodd Bing.com, yr ail beiriant chwilio mwyaf poblogaidd ar-lein, ei gyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU o 33% ym mis Ionawr 2023 i 46% ym mis Mai 2023, ar ôl cyflwyno Bing AI ym mis Chwefror 2023.

### Deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol

**Dywedodd tri o bob deg defnyddiwr rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn y DU eu bod yn defnyddio offeryn AI cynhyrchiol.**

Mae AI cynhyrchiol yn cyfeirio'n fras at algorithmau sy'n gallu creu cynnwys newydd mewn ymateb i anogwr, gan gynnwys testun, delweddau, fideo ac allbynnau cod. ChatGPT yw'r gwasanaeth a ddefnyddir fwyaf; canfu ein harolwg a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023 fod 23% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 16 oed a hŷn wedi dweud eu bod wedi'i ddefnyddio.

**Snapchat My AI yw'r offeryn AI cynhyrchiol sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf gan blant ar-lein**

Roedd pedwar o bob pump (79%) o bobl ifanc yn eu harddegau ar-lein a dau o bob pump (40%) o blant 7-12 oed ar-lein wedi defnyddio unrhyw un o'r offer AI cysylltiedig canlynol: ChatGPT, Snapchat My AI, Midjourney neu DALL-E. Dywedodd hanner y plant 7-17 oed ar-lein yn y DU ym mis Mehefin 2023 eu bod wedi defnyddio Snapchat My AI, sy'n golygu mai dyma'r offeryn AI mwyaf poblogaidd ymysg plant.

## Cyfryngau cymdeithasol

**YouTube yw'r gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymysg oedolion, ac mae'n cymryd y safle uchaf oddi wrth Facebook**

YouTube oedd y gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymysg oedolion ar-lein yn y DU sy'n defnyddio ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron, gyda mwy na naw o bob deg (91.0%) yn ei ddefnyddio ym mis Mai 2023. Facebook (gan gynnwys Messenger) oedd y gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd, gan gyrraedd 93.8% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2022, ond ym mis Mai 2023 roedd ganddo 1.4 miliwn yn llai o oedolion yn ei ddefnyddio, gan gynnal cyrhaeddiad oedolion ar-lein cyffredinol uchel yn y DU (90.7%) ond yn gostwng i'r ail safle.

**Yn ôl yr amser a dreuliwyd, Snapchat a TikTok yw'r prif wasanaethau ymysg oedolion ifanc**

Ym mis Mai 2023, treuliodd y 3.8 miliwn o ddefnyddwyr TikTok 18-24 oed yn y DU 55 munud ar TikTok bob dydd ar gyfartaledd (Mai 2022: 3.5 miliwn, 53 munud), tra bod y 3.8 miliwn o ddefnyddwyr Snapchat 18-24 oed wedi treulio 58 munud y dydd ar yr ap (Mai 2022: 3.5 miliwn, 42 munud).

**Roedd bron i chwarter yr unigolion ar-lein yn y DU sy'n 16 oed a hŷn yn defnyddio gwasanaeth microflogio Instagram, Threads**

Yn y DU erbyn dechrau mis Medi, lai na thri mis ar ôl ei lansio, dywedodd ychydig o dan chwarter (23%) o ddefnyddwyr ar-lein 16 oed a hŷn eu bod erioed wedi defnyddio Threads – sy'n is o lawer na'r rheini sy'n dweud nad ydynt erioed wedi defnyddio X (Twitter yn flaenorol) (52%). O'r rhai a oedd wedi defnyddio Threads, dywedodd traean (31%) eu bod wedi postio cynnwys ar y gwasanaeth yn ystod y mis diwethaf. O'r rheini a oedd wedi defnyddio X, dywedodd 29% eu bod wedi postio cynnwys yn ystod y mis diwethaf.

## Gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig

**Roedd 29 y cant o oedolion ar-lein y DU wedi defnyddio gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig**

Ym mis Mai 2023, roedd ychydig o dan draean (1.8 miliwn) o oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio gwasanaeth cynnwys pornograffig: Defnyddiodd 10.1 miliwn o ddynion yn y DU wasanaeth ar-lein ar gyfer cynnwys pornograffig, sy'n cynnwys 73% o'r oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, gyda menywod yn cyfrif am y 27% o'r defnyddwyr sy'n weddill (3.7 miliwn). Pornhub yw'r gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd, gan gyrraedd 18% (8.4 miliwn) o oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2023.

## Gemau

**Mae 38% o oedolion 16 oed a hŷn yn y DU yn chwarae gemau ar-lein, fel y mae 57% o blant 3-15 oed yn y DU**

Dywedodd chwaraewyr gemau yn y DU fod yr amser roedden nhw wedi'i dreulio'n chwarae gemau naill ai ar-lein neu all-lein wedi gostwng o 8 awr 16 munud yr wythnos ar gyfartaledd yn Ch2 2022 i 7 awr 11 munud yn Ch2 2023. Mae gan 39% o gartrefi yn y DU o leiaf un consol gemau, ac mae gan 23% o gartrefi gonsol gemau digidol yn unig. Y gêm a gafodd ei chwarae gan chwaraewyr consol PlayStation neu Xbox ym mis Awst 2023 oedd *Fortnite*, a chwaraewyd gan 2.88 miliwn o chwaraewyr gemau yn y DU, ac yna *FIFA 23* (2.86 miliwn), *Grand Theft Auto V* (2.22 miliwn) a *Minecraft* (1.68 miliwn).

# Profiadau oedolion a phlant ar-lein

**Mae agweddau at fod ar-lein yn gymhleth ac yn aml yn ansicr**

Mae oedolion yn cydnabod manteision bod ar-lein ar lefel bersonol, ond yn llai felly i gymdeithas yn gyffredinol. Pan ofynnwyd iddynt ystyried effaith bod ar-lein, roedd 71% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn cytuno bod manteision bod ar-lein yn drech na'r risgiau iddyn nhw'n bersonol. Dim ond 6% oedd yn anghytuno, gyda bron i chwarter yn ansicr (23%). Wrth ystyried effaith y rhyngrwyd ar gymdeithas, mae'r darlun yn newid rhywfaint; mae 40% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo ei fod yn dda i gymdeithas, mae lleiafrif (15%) yn anghytuno, ac mae 45% yn dweud eu bod yn teimlo'n niwtral yn ei gylch.

**Mae bron i hanner y plant 13-17 oed yn meddwl bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn dda i'w hiechyd meddwl**


Mae plant a'u rhieni yn tueddu i gytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn rhoi cyfleoedd a manteision i blant. Gall mynd ar-lein helpu gyda gwaith ysgol/gwaith cartref (81% o blant, 84% o rieni), meithrin neu gynnal cyfeillgarwch (68% o blant, 65% o rieni), a dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am faterion personol (60% o blant, 50% o rieni).

Mae pobl ifanc yn eu harddegau hefyd yn fwy tebygol nag oedolion o gydnabod manteision bod ar-lein ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u llesiant cyffredinol: mae 48% yn cytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl, o'i gymharu â 31% o oedolion, gyda dim ond 13% o blant 13-17 oed yn anghytuno.

## Y pum prif niwed posibl sy’n cael ei brofi gan…

### Oedolion

1. Camwybodaeth, sef straeon neu honiadau ffug neu gamarweiniol **39%**
2. Iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol, ee rhegi, bod yn anghwrtais **36%**
3. Sgamiau, twyll neu gwe-rwydo **36%**
4. Ceisiadau ymgyfeillio neu ddilyn, neu negeseuon, digroeso **30%**
5. Trolio, sef person sy’n dweud rhywbeth sy’n achosi gofid bwriadol neu’n ysgogi ymateb negyddol **23%**



### Plant

1. Iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol, ee rhegi, bod yn anghwrtais **47%**
2. Camwybodaeth, sef straeon neu honiadau ffug neu gamarweiniol **34%**
3. Cynnwys yn dangos styntiau neu heriau peryglus ar-lein **30%**
4. Ceisiadau ymgyfeillio neu ddilyn, neu negeseuon, digroeso **30%**
5. Cynnwys sy’n annog gamblo, ee betio, neu gemau tebyg i gasino **25%**



**Camwybodaeth oedd y niwed posibl mwyaf cyffredin y daeth oedolion ar ei draws**

Er bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn cynnig llawer o fanteision i oedolion a phlant, mae gan yr amgylchedd ar-lein y potensial hefyd i wneud defnyddwyr y rhyngrwyd yn agored i niwed.

Camwybodaeth yw’r niwed posibl y mae oedolion yn ei wynebu amlaf, gyda bron i ddau o bob pump (39%) yn ei weld neu’n ei brofi yn ystod y pedair wythnos diwethaf. O ran y math o gamwybodaeth a welwyd, dywedodd chwarter fod hyn yn ymwneud â chynnwys gwleidyddol neu etholiadol, wedi’i ddilyn gan gynnwys a oedd yn gwahaniaethu ar sail nodwedd warchodedig (16%), a chamwybodaeth ariannol (11%).

Niwed posibl arall gyda lefelau uchel o brofiad honedig oedd iaith casineb. Dywedodd 23 y cant o oedolion yn ystod y pedair wythnos diwethaf eu bod wedi dod ar draws ‘cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol a oedd yn targedu grŵp neu berson ar sail nodweddion penodol fel hil, crefydd, anabledd, rhywioldeb neu hunaniaeth o ran rhywedd, e.e. iaith casineb’.

**Mae gan dros un o bob pump o blant 8-17 oed broffil oedolyn ar-lein**

Mae ymchwil oedran defnyddwyr Ofcom yn awgrymu bod gan 22% o blant 8–17 oed (ac 20% o blant 8-15 oed) sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol ar o leiaf un o’r llwyfannau a restrir yn ein hastudiaeth, oedran defnyddiwr/proffil o 18 oed o leiaf, sy'n golygu eu bod mewn mwy o berygl o weld cynnwys oedolion. Mae’r ymchwil hefyd yn amcangyfrif bod gan draean (33%) o blant 8-15

oed, sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol ar o leiaf un o'r llwyfannau a restrir, oedran defnyddiwr/proffil o 16 oed o leiaf.

**Mae effaith dod ar draws niwed posibl ar-lein yn amrywio yn ôl y math o gynnwys sy'n cael ei weld**

Er y gall dod i gysylltiad ag unrhyw fath o gynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl gael effaith negyddol ar brofiad defnyddwyr ar-lein, mae ein hymchwil yn dangos nad yw pob cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein yn cael yr un effaith negyddol. Roedd '*cynnwys sy'n portreadu creulondeb i anifeiliaid*' wedi ysgogi lefel uchel o effaith negyddol ymysg defnyddwyr 13 oed a hŷn a oedd wedi dod ar ei draws yn fwyaf diweddar (83%). Fodd bynnag, mae defnyddwyr rhyngrwyd y DU yn dod ar draws y cynnwys hwn yn gymharol anaml (roedd 3% wedi dod ar ei draws yn ddiweddar). Mae '*cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol*' (61%) hefyd yn ysgogi lefelau uchel o effaith negyddol ymysg y rheini a oedd wedi dod ar ei draws yn fwyaf diweddar, ac mae o fewn y deg niwed posibl mwyaf a geir, ar gyfer oedolion a phlant.

**Daeth dros draean o ddefnyddwyr y rhyngrwyd ar draws eu niwed mwyaf diweddar wrth sgrolio drwy eu ffrwd neu eu tudalen 'for you'.**

Gellir dod ar draws niwed posibl ar-lein mewn gwahanol ffyrdd. Y cysylltiad mwyaf cyffredin yw pan fydd defnyddwyr y rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn sgrolio drwy eu tudalen 'for you', gyda 34% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn dod ar draws eu niwed posibl mwyaf fel hyn. Defnyddwyr y rhyngrwyd sydd leiaf tebygol o ddweud eu bod wedi dod i gysylltiad â niwed posibl wrth wylio cynnwys sy'n cael ei ffrydio'n fyw (2%) neu drwy ddefnyddio'r swyddogaeth chwilio (3%).

**Mae ymwybyddiaeth o offer adrodd yn anghyson ar draws defnyddwyr y rhyngrwyd**

Mae Traciwr Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) Ofcom yn awgrymu bod llai na hanner y defnyddwyr VSP (42%) yn ymwybodol o'r rheolau a'r mesurau diogelwch a roddwyd ar waith gan VSPs, gan godi i 88% pan fydd amrywiaeth o fesurau diogelwch yn cael eu hannog yn yr holiadur, gyda chanran uwch i blant (94%). Dyma'r mesurau diogelwch y mae'r ymatebwyr yn fwyaf ymwybodol ohonynt: 'botwm adrodd' (62%), 'hysbysiad sy'n nodi bod cynnwys yn amhriodol neu'n niweidiol' (61%), 'rheolaethau rhieni' (60%) ac 'offeryn i guddio cynnwys nad ydych am ei weld eto' (60%).

**Pobl ifanc sy'n lleiaf tebygol o weithredu ar gynnwys niweidiol posibl**

Dywedodd 60% o oedolion eu bod wedi cymryd rhyw fath o gamau gweithredu ar ôl dod ar draws eu profiad niweidiol posibl mwyaf diweddar ar-lein, o'i gymharu ag ychydig dros hanner y plant 13-17 oed (51%). Roedd y camau a gymerwyd yn amrywio o ymddieithrio â llwyfan i ymddygiad adrodd mwy rhagweithiol fel clicio'r botwm fflag, adrodd neu sothach. Roedd defnyddwyr a ddywedodd fod eu profiad mwyaf diweddar wedi 'eu poeni neu wedi'u tramgwyddo'n ofnadwy' yn fwy tebygol o weithredu na'r rhai a oedd wedi 'poeni neu wedi'u tramgwyddo rhywfaint', (77% o'i gymharu â 63%).

Roedd y grŵp oedran 13-17 yn fwy tebygol nag oedolion o ddweud wrth 'ffrind neu aelod o'r teulu' am brofiad ar-lein sy'n peri gofid neu'n codi ofn (18% o'i gymharu â 6%).

**Mae dros draean o'r rheini sy'n rhoi gwybod am gynnwys neu ymddygiad niweidiol yn anfodlon â'r ymateb**

Dywedodd dros hanner y rheini a oedd wedi adrodd neu gwyno am gynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein nad oedd unrhyw beth wedi digwydd o ganlyniad i'r cam gweithredu hwn (53%). Dywedodd bron i un o bob pump fod y cynnwys wedi cael ei ddileu (18%), dywedodd 7% eu bod wedi cael ymateb ysgrifenedig, a gofynnwyd i 3% ddarparu rhagor o wybodaeth. Roedd lefelau

bodlonrwydd â’r broses adrodd neu gwyno yn amrywio ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU, gyda 32% yn teimlo’n fodlon ar eu profiad a 36% yn teimlo’n anfodlon.

**Mae gan y rhan fwyaf o rieni reolaethau ar waith i reoli’r cynnwys mae eu plant yn ei weld ar-lein**

Mae plant a’u rhieni yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i helpu i sicrhau profiad diogel ar-lein. Canfu ymchwil Ofcom fod saith o bob deg o rieni plant 3-17 oed wedi dweud bod ganddynt rhyw fath o reolaeth dechnegol ar waith i reoli mynediad eu plentyn at gynnwys ar-lein; y rheolaethau technegol sy’n cael eu defnyddio amlaf oedd y rhai sy’n cael eu hychwanegu i’r ddyfais ymlaen llaw gan y gwneuthurwr (34%) fel Windows, Apple neu Xbox. Roedd dros naw o bob deg plentyn 8-17 oed wedi siarad â rhywun am sut i ddefnyddio’r rhyngrwyd yn ddiogel (91%); roedd 88% wedi gwneud hynny gydag aelod o’r teulu ac roedd 76% wedi gwneud hynny gydag athro.

# Cyflwyniad

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o dirwedd ar-lein y DU yn 2023, gan edrych ar ddefnydd plant ac oedolion o wasanaethau ar-lein a’u profiadau ohonynt.

Yn y penodau Tirwedd Ar-lein a Sectorau Ar-lein, rydym yn cynnwys data mesur sy’n gynrychioliadol o oedolion ar-lein 18 oed a hŷn y DU, a ddarperir gan Ipsos Iris, y dull mesur cynulleidfaoedd ar-lein sydd wedi’i achredu gan UKOM. Rydym yn defnyddio’r data hwn i roi cipolwg ar ddefnydd ar-lein ym mis Mai 2023, i gymharu tueddiadau o un flwyddyn i’r llall ers mis Mai 2022, ac i archwilio tueddiadau misol lle mae gwasanaethau newydd wedi ymuno â’r farchnad. Y grŵp oedran ieuengaf a fesurir gan Ipsos Iris yw plant 15-17 oed; mae’r garfan hon o blant hefyd yn cael ei harchwilio.

## Peilot Mesur Goddefol Ar-lein Newydd i Blant

Yn ogystal â hyn, eleni fe wnaethom gomisiynu Ipsos i gynnal astudiaeth beilot a oedd yn mesur yn oddefol y defnydd o'r rhyngrwyd gan blant 8-12 oed ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron. Mae mesur goddefol yn golygu bod dyfeisiau’n cael eu mesur lle rhoddodd rhiant/gwarcheidwad y plentyn wybod i ni yn ystod y broses recriwtio bod y plentyn yn defnyddio’r ddyfais o leiaf unwaith yr wythnos. Felly, ni fydd dyfeisiau a ddefnyddir yn yr ysgol ac nad ydynt ar gael i’w defnyddio gartref hefyd yn cael eu mesur. Gosodwyd ap monitro goddefol / traciwr VPN ar y dyfeisiau a ddefnyddir gan y plentyn, a oedd yn casglu defnydd o wefannau neu apiau a'r amser a dreuliwyd arnynt.

Diben yr astudiaeth oedd profi a all methodoleg oddefol, yn y dyfodol, ddarparu metrigau cadarn o ddefnydd plant ar-lein. Felly, cynhaliwyd yr astudiaeth ymysg sampl fach o 162 o blant rhwng 8 a 12 oed; mae’n adlewyrchu defnydd ar-lein y plant yn yr astudiaeth yn unig ac efallai nad yw’n cynrychioli holl blant y DU sy’n 8-12 oed.

Cynhaliodd yr astudiaeth beilot ddull gweithredu dau gam gyda lansiad graddol ymysg 17 o blant y mesurwyd eu defnydd ar-lein dros gyfnod o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023; yn dilyn llwyddiant cam 1 roeddem wedi cynyddu’r sampl, gan fesur 145 o blant am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Roedd yr union ddyddiadau’n amrywio yn ôl cyfranogwr, ond roedd yr holl waith maes yn disgyn o fewn y dyddiadau 12 Ionawr – 26 Chwefror (cam 1) ac 11 Ebrill – 18 Gorffennaf (cam 2).

Cyfunwyd canlyniadau o’r ddau gam i ddarparu'r data heb ei bwysoli a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, felly ni ddylid ystyried y data’n gynrychioliadol [gweler y fethodoleg am fanylion pellach ar yr ymchwil].

O’r astudiaeth beilot hon, daethom i’r casgliad y gellir mesur defnydd plant ar-lein yn oddefol. Ein bwriad wrth symud ymlaen yw datblygu mesur goddefol ar-lein Plant yn y dyfodol, gan gynnwys cynyddu maint y sampl, ystyried tonnau ar gyfer tracio ac addasu’r sampl a’r pwysoliad i fod yn gynrychioliadol yn genedlaethol.

Mae’r penodau hyn hefyd yn cynnwys data Traciwr Technoleg Ofcom, ar bobl 16 oed a hŷn.

Yn y bennod ar Brofiadau Ar-lein rydym yn adrodd ar ddata o sawl ffynhonnell, ond yn bennaf o Adnodd Tracio Profiadau Ar-lein (OET) Ofcom a'n Traciwr Llwyfannau Rhannu Fideo (VSP). Mae'r ddwy yn astudiaethau tracio ar-lein ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 13 oed a hŷn, ac mae'r bennod hon yn defnyddio pedwerydd ton pob astudiaeth; y diweddaraf. Oni nodir yn wahanol, bydd y ffigurau a nodir drwy gydol y bennod hon yn dod o ddata OET ton 4.

Cyfeirir at ymchwil arall gan Ofcom yn y bennod hon hefyd, gan gynnwys adroddiad Ofcom ar ddefnydd oedolion o'r cyfryngau a'u hagweddau atynt, ein hadroddiad Plant a Rhieni: adroddiad o'r defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt, ymchwil i gyfathrebu ar-lein ymysg plant, ymchwil achlysurol a gynhaliwyd drwy banel ymchwil ar-lein Ofcom, a'n hap-dreial rheoli cyntaf.

Mae'r bennod hefyd yn defnyddio data o adroddiadau tryloywder llwyfannau eu hunain.

Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin yn benodol â gwasanaethau a allai fod o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein neu sy'n ymwneud â materion sy'n berthnasol i ddyletswyddau Ofcom o dan y Ddeddf.

# Y Dirwedd Ar-lein

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cyflwyno trosolwg o dirwedd ar-lein y DU yn 2023. Mae'n archwilio ymddygiad plant ac oedolion a'r defnydd o'r gwasanaethau ar-lein mwyaf poblogaidd, a'r gwasanaethau rydym yn treulio'r mwyaf o amser arnynt.


### Metrigau allweddol

**Ffigur 1: Canran yr unigolion 16 oed a hŷn yn y DU sydd â mynediad i'r rhyngrwyd gartref, yn ôl blwyddyn: 2020-2023**

| Blwyddyn | Cartrefi yn y DU sydd â mynediad i'r rhyngrwyd | Mynediad i'r rhyngrwyd gartref ac yn ei ddefnyddio | Mynediad i'r rhyngrwyd gartref ond ddim yn ei ddefnyddio |
|---|---|---|---|
| 2023 | **92%** | **90%** | **2%** |
| 2022 | **93%** | **92%** | **1%** |
| 2020 | **89%** | **87%** | **2%** |

*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, 2020, 2022 a 2023. CE1: A oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref fynediad i'r rhyngrwyd GARTREF (drwy unrhyw ddyfais, e.e. cyfrifiadur personol, ffôn symudol, ac ati) ac os felly, a ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref? Sail: yr holl ymatebwyr 16 oed a hŷn. Oherwydd newid ym methodoleg 2021, nid oes modd cymharu data ac felly nid yw wedi cael ei gynnwys.*


**Ffigur 2: Yr amser sy'n cael ei dreulio ar-lein ar gyfartaledd ar gyfrifiaduron, dyfeisiau tabled a ffonau clyfar, fesul oedolyn yn y DU bob dydd: oriau:munudau**




*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. *Yr amser a dreuliwyd yn seiliedig ar 17 o blant wedi'i fesur dros gyfnod o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o*

*blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol. / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 15 oed a hŷn, y DU. Nodyn: data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos. Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar-lein yn cynnwys defnydd personol ac mewn rhai achosion, y rheini sy'n defnyddio eu dyfais ar gyfer gwaith hefyd.*

**Ffigur 3: Yr amser sy'n cael ei dreulio ar-lein ar gyfartaledd ar gyfrifiaduron, dyfeisiau tabled a ffonau clyfar, fesul oedolyn yn y DU bob dydd, fesul gwlad: Mai 2023**




*Ffynhonnell: / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar-lein yn cynnwys defnydd personol ac mewn rhai achosion, y rheini sy'n defnyddio eu dyfais ar gyfer gwaith/addysg hefyd.*

# Derbyn a defnyddio

## Derbyn a defnyddio'r rhyngrwyd

### Treuliodd oedolion 3 awr a 41 munud y diwrnod ar-lein ar gyfartaledd ym mis Mai 2023, cynnydd cymedrol ers mis Mai 2022


Mae data o Ipsos Iris yn dangos bod 47.9 miliwn o oedolion y DU wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron ym mis Mai 2023 (ein mis sampl), gan dreulio 3 awr 41 munud y dydd ar-lein ar gyfartaledd, cynnydd cymedrol o 8 munud o un flwyddyn i'r llall (Mai 2022: 3 awr 33 munud). Oedolion ifanc sy'n dal i dreulio'r rhan fwyaf o amser ar-lein, gyda phobl ifanc 18-24 oed yn treulio 4 awr 36 munud ar-lein bob dydd ar gyfartaledd, a'r grŵp 65 oed a hŷn yn treulio'r amser lleiaf (2 awr 46 munud). Mae menywod yn parhau i dreulio mwy o amser ar-lein (3 awr 58 munud, hyd at 12 munud o fis Mai 2022) na dynion (3 awr 23 munud, hyd at 3 munud).

Oedolion ar-lein yng Nghymru oedd yn treulio'r rhan fwyaf o amser o'i gymharu â gwledydd eraill y DU (3 awr 47 munud), a'r rheini yn yr Alban oedd yn treulio'r lleiaf (3 awr 38 munud) (gweler ffigur 3 uchod).[2]

Canfu ymchwil mesur goddefol ar-lein ein plant, a oedd yn mesur defnydd ar-lein ymysg 162 o blant 8-12 oed yn y DU, eu bod, ar gyfartaledd, wedi treulio 3 awr 5 munud y dydd yn defnyddio'r rhyngrwyd ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron. Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar-lein ymysg plant yn cynyddu gydag oedran, gyda phlant 8–10 oed yn treulio 2 awr 23 munud y dydd ar gyfartaledd a phlant 11-12 yn treulio 4 awr 10 munud y dydd.[3] Ymysg plant hŷn, canfu Ipsos Iris fod plant 15-17 oed yn treulio 4 awr 35 munud ar-lein ar gyfartaledd bob dydd ym mis Mai 2023.[4]

## Roedd tri chwarter yr amser a dreuliwyd ar-lein bob dydd ym mis Mai 2023 gan oedolion ar ffonau clyfar

**Ffigur 4: Amser dyddiol cyfartalog a dreulir ar-lein gan oedolion, yn ôl dyfais (oriau:munudau): Mai 2023**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos. Gweler Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2023. Data rhyngweithiol ar-lein i'w gymharu â data mis Mai 2022.*

Ym mis Mai 2023, roedd 76% (2 awr 47 munud) o'r amser a dreuliwyd ar-lein bob dydd gan oedolion ar-lein yn y DU ar ffôn clyfar, 20 munud yn fwy nag ym mis Mai 2022 (pan oedd 69% o'r amser ar ffonau clyfar). Roedd yr amser a dreuliwyd ar gyfrifiaduron a thabledi wedi gostwng, gydag oedolion yn y DU yn treulio 30 munud ar gyfrifiaduron (i lawr o 38 munud) a 23 munud (i lawr o 28 munud) ar ddyfeisiau tabled bob dydd ym mis Mai 2023. Y pobl 25-34 oed a dreuliodd y gyfran fwyaf o'u

---

[2] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.


[3] Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Yr amser a dreuliwyd yn seiliedig ar ddefnydd ar-lein 17 o blant dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Roedd yr union ddyddiadau'n amrywio yn ôl cyfranogwr, ond roedd yr holl waith maes yn disgyn o fewn y dyddiadau 12 Ionawr – 26 Chwefror (cam 1) ac 11 Ebrill – 18 Gorffennaf (cam 2).

[4] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

hamser ar-lein ar ffonau clyfar (87%). Treuliodd y rhai 55 oed a hŷn y gyfran leiaf ar ffonau clyfar, er bod hyn yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o'u hamser ar-lein (60% ar ffonau clyfar, 20% ar gyfrifiaduron ac 20% ar ddyfeisiau).

Roedd yr amser a dreuliwyd ar-lein ar apiau, o'i gymharu a defnyddio gwefannau, wedi cynyddu o 71% ym mis Mai 2022 i 77% ym mis Mai 2023, ac roedd 89% o'r amser a dreuliwyd ar ffonau clyfar gan oedolion drwy apiau.[5]

**Ffigur 5: Amser yr oedd oedolion yn ei dreulio ar-lein bob dydd ar gyfartaledd, yn ôl dyfais a gwlad yn y DU (oriau:munudau): Mai 2023**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos. Gweler adroddiad rhyngweithiol ar-lein i'w gymharu â data mis Mai 2022.*

## Nid oes gan un o bob 14 o bobl fynediad i'r rhyngrwyd gartref

Nid oes gan 7% o unigolion 16 oed a hŷn yn y DU fynediad i'r rhyngrwyd gartref yn 2023[6] (2022 hefyd yn 7%[7]). Nid oes gan 18% y cant o bobl 65 oed a hŷn fynediad i'r rhyngrwyd gartref, a phobl 25-34 oed yw'r lleiaf tebygol o beidio â chael mynediad i'r rhyngrwyd gartref, sef 2%. Dywedodd 2% o gartrefi â phlant nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref.[8] Mae 94% o aelwydydd ar-lein yn cael eu rhyngrwyd drwy fand eang sefydlog, mae gan 4% o aelwydydd ar-lein fynediad i'r rhyngrwyd gartref yn unig drwy eu rhwydwaith symudol, a dywedodd 2% nad oeddent yn gwybod.[9] Dywedodd 15% o'r unigolion 16 oed a hŷn yn y DU nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref eu bod yn debygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn ystod y 12 mis nesaf, a dywedodd 71% bod hynny yn annhebygol.[10]

---

[5] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.
[6] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom. Nododd 1% o unigolion nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref.
[7] Traciwr Technoleg 2022 Ofcom.
[8] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom. Yn yr achos hwn, mae'r plant rhwng 0 a 18 oed. Mae gan 96% o gartrefi â phlant fynediad i'r rhyngrwyd gartref.
[9] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom.
[10] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom. QE15. Pa mor debygol ydych chi o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y 12 mis nesaf? Sail: Y rheini sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd gartref.

**Ffigur 6: Unigolion 16 oed a hŷn yn y DU, lleoliad eu mynediad i'r rhyngrwyd**

| Blwyddyn | Cyfanswm gartref neu yn rhywle arall | Gartref ac mewn mannau eraill | Gartref yn unig | Mannau eraill yn unig |
|---|---|---|---|---|
| 2023 | **95%** | **69%** | **23%** | **2%** |

*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2023. Sail: yr holl ymatebwyr 16 oed a hŷn.*

## Cyfeiriwyd at fforddiadwyedd gan chwarter y rheini nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd gartref

Ymysg pobl heb y rhyngrwyd gartref, y prif reswm o hyd dros beidio â'i gael oedd diffyg angen neu ddiddordeb ymddangosiadol (65%). Fodd bynnag, dywedodd chwarter (26%) fod rhesymau'n ymwneud â'r gost – roedd 23% yn cyfeirio at gostau sy'n ymwneud yn benodol â band eang, ac roedd y rheini yn y grŵp economaidd-gymdeithasol DE yn fwy tebygol o ddweud bod hyn yn rheswm (31%). Costau uchel i osod band eang (18%) oedd y prif reswm dros y gost, ac yna cost fisol gwasanaeth band eang sefydlog (13%). Roedd y prif resymau eraill nad oeddent yn gysylltiedig â'r gost yn cynnwys 'mae defnyddio'r rhyngrwyd yn rhy gymhleth' (16%) a 'gall rhywun arall fynd ar y rhyngrwyd i mi os oes angen' (16%).[11] Ym mis Hydref 2023, mae Ofcom yn amcangyfrif bod tua 2.4 miliwn (+/- 500,000) o gartrefi yn y DU sydd â band eang sefydlog yn ei chael hi'n anodd fforddio eu gwasanaeth band eang sefydlog a bod 2.4 miliwn o aelwydydd yn y DU sydd â ffôn symudol yn cael trafferth fforddio eu gwasanaeth ffôn symudol.[12] Mae hyn yn awgrymu bod gan nifer o gartrefi yn y DU sydd â mynediad i'r rhyngrwyd ar hyn o bryd mewn perygl o orfod addasu neu hyd yn oed ganslo eu gwasanaeth, neu leihau gwariant yn y cartref mewn mannau eraill er mwyn gallu ei fforddio.

**Ffigur 7: Rhesymau'n ymwneud â chostau peidio â chael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn ystod y 12 mis nesaf**

| | Oedran | | | Grŵp economaidd-gymdeithasol |
|---|---|---|---|---|
| **Rheswm** | **16+** | **16-74** | **75+** | **DE** |
| **Unrhyw reswm sy'n gysylltiedig â'r gost** | 26% | 35% | 16% | 34% |
| **Costau gosod band eang** | 18% | 24% | 11% | 26% |
| **Cost misol band eang sefydlog** | 13% | 15% | 10% | 18% |
| **Cost gliniadur/cyfrifiadur neu ddyfais tabled** | 11% | 13% | 10% | 17% |
| **Cost ffôn symudol** | 10% | 10% | 10% | 13% |
| **Cost gwasanaeth ffôn symudol bob mis** | 7% | 6% | 7% | 10% |

*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2023. QE16. Pa rai o'r rhesymau hyn sy'n berthnasol i pam yr ydych chi'n annhebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref yn y 12 mis nesaf? Sail: Lle nad yw'n debygol o gael y rhyngrwyd yn ystod y 12 mis nesaf. Ni ellir dangos grwpiau economaidd-gymdeithasol eraill a grwpiau oedran ystod llai oherwydd bod y sail yn fach.*

[11] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom.
[12] Traciwr Ofcom ar Fforddiadwyedd Gwasanaethau Cyfathrebu, Tachwedd 2023

### Mae chwarter defnyddwyr rhyngrwyd y DU wedi defnyddio VPN

Gellir defnyddio rhwydwaith rhithwir preifat (VPN) i ddiogelu defnyddwyr drwy amgryptio eu data a chuddio eu cyfeiriadau IP. Gall hyn guddio eu gweithgarwch pori, eu hunaniaeth a'u lleoliad, gan ganiatáu mwy o breifatrwydd. Gall defnyddio VPN gynnig profiad mwy diogel ar-lein. Fel arfer, gall busnesau ddefnyddio VPN i roi mynediad i weithwyr o bell at raglenni a data mewnol, neu i greu un rhwydwaith a rennir pan fydd mwy nag un lleoliad ar gyfer swyddfeydd. Mae 26% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 16 oed a hŷn wedi defnyddio VPN am unrhyw reswm. Y rheswm mwyaf cyffredin oedd am waith (19%), soniodd rhai am addysg (5%), a chyfeiriodd 10% at resymau eraill dros ddefnyddio VPN.[13]

# Defnyddio gwasanaethau rhyngrwyd

## Y prif gwmnïau ar-lein

### Apiau a gwefannau sy'n eiddo i Alphabet a Meta yw'r rhai a ddefnyddir amlaf yn y DU

Mae Alphabet, sy'n berchen ar Google a YouTube, yn parhau i fod y sefydliad[14] mwyaf poblogaidd ymysg oedolion y DU o ran ei wefannau a'i apiau, ac yna Meta (perchennog Facebook, WhatsApp ac Instagram) ac Amazon. Mae apiau a gwefannau sy'n eiddo i Alphabet a Meta wedi cael eu defnyddio yn gyffredinol bron ymysg oedolion ar-lein yn y DU. Roedd o leiaf 88% o oedolion ar-lein ym mhob un o bedair gwlad y DU yn defnyddio'r apiau neu'r gwefannau sy'n eiddo i Amazon ym mis Mai 2023.[15]

Y BBC yw'r sefydliad mwyaf poblogaidd yn y DU, sef 77% o gyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU, ac yn Lloegr (77%), yr Alban (77%), a Gogledd Iwerddon (84%) ym mis Mai 2023. Yng Nghymru, y grŵp papur newydd Reach PLC – cyhoeddwr y Mirror, Daily Express a Daily Star, yn ogystal â theitlau cenedlaethol Cymru, Wales Online a North Wales Live – a'r BBC oedd y sefydliadau yn y DU gyda'r cyrhaeddiad uchaf, sef 80% a 79% yn y drefn honno. Mae nifer yr ymweliadau â gwefannau ac apiau llywodraeth y DU wedi gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf: Roedd 59% o oedolion y DU wedi defnyddio un o wefannau neu apiau'r llywodraeth ar-lein ym mis Mai 2023 (11eg safle), o'i gymharu â 62% ym mis Mai 2022 (10fed safle) a 67% ym mis Mai 2021 (8fed safle). Maent yn ymddangos yn y deg uchaf yng Nghymru (10fed safle, cyrhaeddiad o 59%) a Gogledd Iwerddon (8fed safle, cyrhaeddiad o 66%) yn unig. Yn ychwanegol, roedd oedolion ar-lein yn y DU yn fwy tebygol o ddefnyddio'r GIG ar-lein ym mis Mai 2022 (60%) nag ym mis Mai 2023 (51%).[16] Gallai hyn fod oherwydd y gostyngiad mewn achosion Covid-19.

Alphabet a Meta yw'r ddau sefydliad ar-lein mwyaf poblogaidd ar gyfer pob oed; roedd 99% o bob grŵp oedran wedi defnyddio gwasanaethau sy'n eiddo i Alphabet ac o leiaf 96% ar draws yr holl grwpiau oedran wedi defnyddio gwasanaethau sy'n eiddo i Meta ym mis Mai 2023. Ymysg oedolion, mae sefydliadau cyfryngau cymdeithasol, Bytedance (sy'n berchen ar TikTok) gyda chyrhaeddiad o

---

[13] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom. QE11. Ydych chi'n cysylltu â'r rhyngrwyd drwy ddefnyddio VPN (rhwydwaith rhithwir preifat)? Sail: Lle defnyddir y rhyngrwyd gartref neu yn rhywle arall. Nodyn: Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un rheswm dros ddefnyddio VPN.
[14] 'Sefydliadau' yw rhiant-gwmnïau'r grwpiau o wefannau ac apiau; er enghraifft, mae sefydliadau Alphabet yn cynnwys Google Search, Gmail a YouTube; Mae Meta'n cynnwys Facebook a Messenger, Instagram a WhatsApp.
[15] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[16] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.


72%, Snapchat, gyda 71%, a X (Twitter yn flaenorol), [17]gyda 61%, ond yn ymddangos yn y deg uchaf ar gyfer oedolion 18-24 oed. Mae’r gwasanaeth ffrydio cerddoriaeth Spotify yn ymddangos yn y deg uchaf ar gyfer oedolion o dan 35 oed, (yn yr 8fed safle ar gyfer pobl 18-24 oed, cyrhaeddiad o 69%, ac yn y 10fed safle ar gyfer pobl 25-34 oed, gyda chyrhaeddiad o 61%).

Mae’r tebygolrwydd o ddefnyddio gwefannau neu apiau sefydliadau sy’n cynnwys gwasanaethau newyddion yn cynyddu gydag oedran: dim ond y BBC (cyrhaeddiad o 67%) sydd yn y deg uchaf ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed; mae'r BBC (70%) a Reach Plc (68%) yn y deg uchaf ar gyfer pobl 25-34 oed; mae’r tri gwasanaeth newyddion, sef y BBC (77%), Reach Plc (75%), a safleoedd News UK (64%), yn y deg uchaf ar gyfer pobl 35-44 oed; tra bod pedwar gwasanaeth newyddion yn ymddangos yn y deg uchaf ar gyfer pobl 45 oed a hŷn. Mae gwefannau Llywodraeth y DU yn ymddangos ymhlith y deg gwasanaeth uchaf ar gyfer pobl 25-44 oed (cyrhaeddiad o 62% ar gyfer pobl 25-34 oed a 63% ar gyfer pobl 35-44 oed). [18]

## Roblox oedd yr unig sefydliad yn y pump uchaf ar gyfer plant 8-12 oed nad oedd yn ymddangos yn y pump uchaf ar gyfer plant 15-17 oed nac oedolion ifanc

Mae ein hastudiaeth beilot mesur goddefol ar-lein i blant yn dangos, fel oedolion, bod bron pob un o’r 162 o blant ar-lein 8-12 oed wedi defnyddio Alphabet yn ystod ein cyfnod gwaith maes (98%). Fel gydag oedolion, Meta oedd yr ail sefydliad a oedd n cael ei ddefnyddio fwyaf, gyda chyrhaeddiad ar-lein o 85%. Bytedance inc. (sy’n berchen ar TikTok) oedd y trydydd gwefan ac ap mwyaf poblogaidd gyda 68% o gyrhaeddiad, ac yna Roblox (64%) ac Amazon (60%). Y safleoedd a’r apiau mwyaf poblogaidd oedd Apple (57%) a gwefannau ac apiau Microsoft (51%). Netflix (42%),[19] Snapchat (36%) a Spotify (34%) oedd y gweddill o’r deg sefydliad mwyaf poblogaidd ymysg plant 8-12 oed.[20]

**Ffigur 8: Y deg sefydliad mwyaf poblogaidd y mae plant 8-12 oed ar-lein yn y DU eu defnyddio ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron**




*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio ap o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023*

[17] Mae Twitter wedi cael ei ailfrandio i X ar 24 Gorffennaf 2023.
[18] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[19] Mae Netflix yn debygol o fod wedi’i nodi’n rhy isel, gan nad yw’n cynnwys yr amser sy’n cael ei dreulio’n gwylio ar setiau teledu.
[20] Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio ap o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.

*ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol. Ewch i'r adran Fethodoleg i gael rhagor o fanylion. Mae Netflix wedi'i nodi'n rhy isel, gan nad yw'n cynnwys yr amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio ar setiau teledu. Mae Spotify wedi'i nodi'n rhy isel, gan ei fod yn cynnwys defnydd o'r blaendir yn unig ac nid yw dyfeisiau clyfar yn cael eu cynnwys.*

**Ffigur 9: Y deg prif sefydliad yr ymwelodd oedolion ar-lein yn y DU â nhw ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron, yn ôl gwlad: Mai 2023**

| | Y DU | | Lloegr | | Yr Alban | | Cymru | | Gogledd Iwerddon | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** | **Sefydliad** | **Cyrhaeddiad** |
| **1** | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 100% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% |
| **2** | Meta | 97% | Meta | 96% | Meta | 97% | Meta | 98% | Meta | 99% |
| **3** | Amazon, Inc | 89% | Amazon, Inc | 89% | Amazon, Inc | 88% | Amazon, Inc | 90% | Amazon, Inc | 94% |
| **4** | Microsoft Corporation | 87% | Microsoft Corporation | 87% | Microsoft Corporation | 84% | Microsoft Corporation | 84% | Microsoft Corporation | 88% |
| **5** | Corfforaeth y BBC | 77% | Corfforaeth y BBC | 77% | Corfforaeth y BBC | 77% | Reach Plc | 80% | Corfforaeth y BBC | 84% |
| **6** | Reach Plc | 72% | Reach Plc | 72% | Reach Plc | 72% | Corfforaeth y BBC | 79% | Reach Plc | 78% |
| **7** | eBay Inc | 64% | eBay Inc | 64% | Apple Inc | 65% | eBay Inc | 64% | PayPal Inc | 67% |
| **8** | Apple Inc | 63% | Apple Inc | 63% | PayPal Inc | 62% | Mail Metro Media | 62% | Llywodraeth y DU | 66% |
| **9** | PayPal Inc | 62% | PayPal Inc | 62% | Gwefannau News UK | 61% | PayPal Inc | 60% | Mail Metro Media | 63% |
| **10** | Mail Metro Media | 60% | Mail Metro Media | 60% | eBay Inc | 60% | Llywodraeth y DU | 59% | Gwefannau News UK | 62% |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, Adroddiad safleoedd, oedran: 18+, Digwyddiadau Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r DU. Nodyn: Mae pob sefydliad wedi cael lliw.*

**Ffigur 10: Y deg prif sefydliad sy'n cael eu defnyddio ar-lein gan unigolion yn y DU ar eu ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron, yn ôl gwlad: Mai 2023**

| Oedran | 15-17 | | 18-24 | | 25-34 | | 35-44 | | 45-54 | | 55-64 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sefydliad | Cyrhaeddiad | Sefydliad | Cyrhaeddiad | Sefydliad | Cyrhaeddiad | Sefydliad | Cyrhaeddiad | Sefydliad | Cyrhaeddiad | Sefydliad | Cyrha |
| 1 | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 99% | Alphabet | 9 |
| 2 | Meta | 95% | Meta | 96% | Meta | 96% | Meta | 97% | Meta | 97% | Meta | 9 |
| 3 | Microsoft Corporation | 90% | Microsoft Corporation | 90% | Microsoft Corporation | 88% | Amazon, Inc | 91% | Amazon, Inc | 92% | Amazon, Inc | 9 |
| 4 | Amazon, Inc | 87% | Amazon, Inc | 88% | Amazon, Inc | 87% | Microsoft Corporation | 90% | Microsoft Corporation | 86% | Microsoft Corporation | 8 |
| 5 | Bytedance Inc. | 72% | Bytedance Inc. | 72% | Corfforaeth y BBC | 70% | Corfforaeth y BBC | 77% | Corfforaeth y BBC | 81% | Corfforaeth y BBC | 8 |
| 6 | Snap Inc | 71% | Snap Inc | 71% | Reach Plc | 68% | Reach Plc | 75% | Reach Plc | 77% | Reach Plc | 7 |
| 7 | Apple Inc | 70% | Apple Inc | 70% | PayPal Inc | 64% | eBay Inc | 70% | eBay Inc | 70% | eBay Inc | 6 |
| 8 | Spotify Music | 69% | Spotify Music | 69% | Apple Inc | 62% | PayPal Inc | 70% | PayPal Inc | 68% | Mail Metro Media | 6 |
| 9 | Corfforaeth y BBC | 66% | Corfforaeth y BBC | 67% | Llywodraeth y DU | 62% | Gwefannau News UK | 64% | Mail Metro Media | 67% | Gwefannau News UK | 6 |
| 10 | X (Twitter yn flaenorol) | 60% | X (Twitter yn flaenorol) | 61% | Spotify Music | 61% | Llywodraeth y DU | 63% | Gwefannau News UK | 65% | Apple Inc | 6 |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Adroddiad Safleoedd a Mai 2023, oedran: 15 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Mae pob sefydliad wedi cael lliw.*

## YouTube yw'r gwasanaeth mwyaf poblogaidd sy'n eiddo i Alphabet ymysg plant ac oedolion


YouTube – sydd, ar gyfer oedolion, yn cynnwys y prif ap a gwefan YouTube yn ogystal â YouTube Music, YouTube Kids a YouTube Studio – yw'r gwasanaeth mwyaf poblogaidd (91%) sy'n eiddo i Alphabet ymysg oedolion ar-lein yn y DU.[21] Mae ein hastudiaeth beilot mesur goddefol ar-lein i blant yn dangos mai YouTube, sy'n cynnwys y prif ap a gwefan YouTube ar gyfer plant rhwng 8 a 12 oed, yn ogystal ag ap YouTube Music ac ap YouTube Kids, yw'r gwasanaeth mwyaf poblogaidd (96%) sy'n eiddo i Alphabet ymysg plant 8-12 oed ar-lein yn y DU. Yn y DU, mae YouTube yn caniatáu defnyddio ei wasanaeth os yw defnyddwyr yn 13 oed o leiaf; fodd bynnag, mae'n mynnu y gall plant o bob oed ddefnyddio ei brif wasanaeth a YouTube Kids os yw'n cael ei alluogi gan riant neu warcheidwad cyfreithiol. Roedd 85% o'r plant 8-12 oed yn ein hastudiaeth beilot yn defnyddio ein prif wasanaeth YouTube ond nid YouTube Kids; roedd 12% yn defnyddio'r prif wasanaeth YouTube a YouTube Kids; ac roedd 1% yn defnyddio YouTube Kids yn unig.[22]

Google Search[23] yw'r ail wasanaeth Alphabet mwyaf poblogaidd, gan gyrraedd 86% o oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2023[24] ac 87% o blant ar-lein rhwng 8 a 12 oed[25]. Gmail yw'r gwasanaeth e-bost mwyaf poblogaidd ymysg oedolion yn gyffredinol, gan gyrraedd 51% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2023, cyn Microsoft Outlook ar 48% (23 miliwn). Mae gwasanaethau eraill sy'n eiddo i Alphabet yn cynnwys Fitbit a Snapseed (ap golygu lluniau) sy'n cael eu defnyddio gan 4.5 miliwn (9.5%) a 345k (0.7%) o oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2023 yn y drefn honno.[26]

Fe wnaeth naw o'r deg prif wasanaeth sy'n eiddo i Alphabet ymddangos yn y safle plant ac oedolion (gweler Ffigur 11). Fodd bynnag, mae ap Google Classroom, nad yw'n ymddangos yn y deg uchaf ar gyfer oedolion, yn cael y degfed safle, gan gyrraedd 5% o blant ar-lein rhwng 8 a 12 oed. Mae Google Calendar yn ymddangos yn yr wythfed safle ar gyfer oedolion ar-lein ond nid yw ymhlith y deg uchaf ar gyfer plant.[27]

[21] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, YouTube, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[22] Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.
[23] Nid yw'n cynnwys gwasanaethau chwilio Google - Maps, Shopping, Play na News.
[24] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Google Search, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[25] Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.
[26] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[27] Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol. / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

**Ffigur 11: Y deg uchaf, yn ôl cyrhaeddiad ar-lein y DU, o wasanaethau sy'n eiddo i Alphabet: plant (8-12 oed) o'i gymharu ag oedolion: 2023**




*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. *Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol. / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Dadansoddiad Alphabet, Mai 2023, oedran:18+, DU. Sylwer: rhestr sydd wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom, nid yw ap gwasanaethau Google Play wedi cael ei chynnwys gan fod hwn yn wasanaeth cefndirol a llyfrgell i'w defnyddio gan apiau symudol sy'n rhedeg ar y ddyfais. Nid yw Google Search yn cynnwys gwasanaethau Mapiau, Siopa, Chwarae na Newyddion.*

## Mae oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn y DU yn treulio 45 munud y dydd ar gyfartaledd ar wefannau neu apiau sy'n eiddo i Meta a 35 munud ar apiau neu gwefannau sy'n eiddo i Alphabet


Yn ôl yr amser a dreulir, Alphabet a Meta yw'r ddau brif sefydliad y mae pobl yn cael gafael arnynt ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron. Fel ym mis Mai 2022, roedd 21% o'r amser dyddiol cyfartalog yn cael ei dreulio ar-lein gan oedolion yn y DU ym mis Mai 2023 ar apiau neu wefannau sy'n eiddo i Meta (Mai 2022: 21%, 44 munud), ac 16% ar apiau neu wefannau sy'n eiddo i Alphabet (Mai 2022: 16%, 35 munud). O'r 45 munud a dreuliwyd ar wasanaethau Meta, treuliwyd 26 munud ar Facebook a Messenger, 11 munud ar WhatsApp ac ychydig o dan 9 munud ar Instagram. Mae gan y ddau sefydliad arweiniad sylweddol dros y gweddill; mae Bytedance Inc., yn drydydd, yn cyfrif am 5% yn unig o'r amser sy'n cael ei dreulio ar-lein gan oedolion yn y DU, i fyny o 4% ym mis Mai 2022 (2022: 9 munud o gyfartaledd dyddiol y pen; 2023: 11 munud o gyfartaledd y pen bob dydd).[28]

Er bod oedolion ar-lein y DU yn treulio'r amser mwyaf ar gyfartaledd ar wasanaethau gan y tri sefydliad hyn, maent hefyd yn treulio cyfran fawr o'u hamser (cyfanswm o 1 awr 27 munud) ar grŵp amrywiol o wasanaethau llai sy'n bodloni eu diddordebau a'u hanghenion, megis safleoedd llety (e.e., Airbnb; cyfartaledd dyddiol o 6 eiliad ym mis Mai 2023 fesul oedolyn ar-lein), gwasanaethau rhwydweithio cymdeithasol cymdogaeth (e.e., Nextdoor; 20 eiliad), a gwasanaethau bancio ar-lein (e.e., Santander; 16 eiliad).[29]

[28] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, amser ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron personol yn unig, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[29] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, amser ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron personol yn unig, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

Mae'r amser sy'n cael ei dreulio ar Netflix (2 funud ar gyfartaledd bob dydd fesul oedolyn ar-lein ym mis Mai 2023 a mis Mai 2022) wedi'i nodi'n rhy isel, gan mai dim ond yr amser sy'n cael ei dreulio ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron y mae'r data'n ei gofnodi ac nid yw'n cynnwys yr amser sy'n cael ei dreulio'n gwylio Netflix ar setiau teledu sydd wedi'u cysylltu nac ar ddangosyddion clyfar. Mae'r un peth yn berthnasol i YouTube (19 munud ar gyfartaledd bob dydd fesul oedolyn ar-lein yn 2022 a 18 munud yn 2023), sy'n cael ei gofnodi o dan amser Alphabet. Nid yw'r ffigur ar gyfer yr amser sy'n cael ei dreulio ar Spotify (tri munud ar gyfartaledd bob dydd fesul oedolyn ar-lein ym mis Mai 2023, a dau funud ar gyfartaledd bob dydd fesul oedolyn ar-lein ym mis Mai 2022) yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio'n gwrando ar ddyfeisiau clyfar neu pan nad yw'r ap ar flaen y sgrin, ond mae sain yn chwarae.[30]

**Ffigur 12: Yr amser y mae poblogaeth ddigidol oedolion y DU yn ei dreulio ar-lein bob dydd ar gyfartaledd, wedi'i rannu yn ôl sefydliad (oriau:munudau): Mai 2023**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, sefydliadau, amser ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron yn unig, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, DU.*

## Prif raglenni

### Roedd oedolion wedi defnyddio 36 o apiau ar gyfartaledd ar ffonau clyfar ym mis Mai 2023

Mae nifer cyfartalog yr apiau sy'n cael eu defnyddio yn seiliedig yn bennaf ar eu defnydd ar ffonau clyfar; roedd oedolion ar gyfartaledd yn defnyddio 36 o apiau ar eu ffonau clyfar ym mis Mai 2023, i fyny o bedwar ers mis Mai 2022 (32). Mae nifer cyfartalog yr apiau sy'n cael eu defnyddio ar ffonau clyfar a dyfeisiau tabled, ymysg oedolion, wedi codi o 33 ap ym mis Mai 2022 i 38 ym mis Mai 2023. Defnyddiodd pobl 25-44 oed fwy o apiau na grwpiau oedran eraill, sef 42 ap ar gyfartaledd ym mis

[30] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, amser ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron personol yn unig, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

Mai 2023, gyda phobl 55 oed a hŷn yn eu defnyddio lleiaf (32). Mae nifer cyfartalog yr apiau sy'n cael eu defnyddio gan oedolion wedi codi o un flwyddyn i'r llall ar draws pob grŵp oedran.[31]

Mae astudiaeth beilot mesur goddefol ar-lein ein plant yn dangos mai 17 yw nifer cyfartalog yr apiau sy'n cael eu defnyddio gan blant 8-12 oed ar ffonau clyfar, y mesurwyd eu defnydd ar-lein am gyfnod hyd at 4 wythnos.[32]

**Ffigur 13: Nifer cyfartalog yr apiau y mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn y DU yn eu defnyddio ar ffonau clyfar, yn ôl oedran: Mai 2022 a Mai 2023**

| | Oedran | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 15-17 | 18-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55+ |
| Mai 2023 | 38 | 38 | 41 | 41 | 38 | 30 |
| Mai 2022 | 33 | 33 | 36 | 36 | 33 | 26 |

*Ffynhonnell: / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 15 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.*

WhatsApp, Facebook a Facebook Messenger sy'n eiddo i Meta oedd y tri ap ffonau clyfar mwyaf poblogaidd yn ôl cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2023

Defnyddiodd 89% o oedolion sy'n defnyddio ffonau clyfar ar-lein yn y DU ap WhatsApp ym mis Mai 2023, gan gynnal ei statws fel y prif ap ar gyfer cyfathrebu. Cyrhaeddodd yr ap Facebook 81% o oedolion ar-lein y DU a oedd yn defnyddio ffonau clyfar, a chyrhaeddodd ap Facebook Messenger 72%. Google Maps oedd y pedwerydd ap ffonau clyfar mwyaf poblogaidd, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan 70% o oedolion, gyda YouTube ar 67%. Amazon oedd yr ap siopa ar-lein mwyaf poblogaidd ar gyfer y tri ystod oedran oedolion (Ffigur 14). Ymddangosodd TikTok ymhlith y deg uchaf ar gyfer pobl 18-34 oed ac roedd yn 16eg a 36ain safle ar gyfer pobl 35-54 oed a 55 oed a hŷn yn y drefn honno. Spotify oedd yr ap cerddoriaeth mwyaf poblogaidd i oedolion ifanc, ond Apple Music oedd y mwyaf poblogaidd i bobl 35 oed a hŷn.[33]

Mae Google Play Store yn ymddangos yn y deg uchaf ar gyfer y rheini sy'n 55 oed a hŷn ond nid ar gyfer grwpiau oedran oedolion eraill, mae'n debyg bod hyn oherwydd bod y rheini sy'n 55 oed a hŷn yn fwy tebygol na grwpiau oedran oedolion eraill o fod yn berchen ar ffôn Android sydd wedi llwytho ap Google Play Store i lawr ymlaen llaw (gweler y paragraff nesaf), ac oherwydd eu bod, ar gyfartaledd, yn defnyddio llai o apiau nag oedolion eraill (30 o apiau ffonau clyfar ar gyfartaledd, gweler ffigur 13).[34]

**Ffigur 14: Y deg prif ap ffonau clyfar, cyrhaeddiad oedolion yn y DU, yn ôl oedran: Mai 2023**

---

[31] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap, Mai 2022 a Mai 2023, oedran:15 oed a hŷn, DU. Nodyn: Data wedi'i deilwra, wedi'i ddarparu gan Ipsos.

[32] Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 90. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythno rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.

[33] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, prif apiau ar ffonau clyfar, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

[34] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, prif apiau ar ffonau clyfar, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

| Oedran | 18-34 | | 35-54 | | 55 oed a hŷn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) | Ap | Cyrhaeddiad ar-lein (%) |
| 1 | WhatsApp | 90% | WhatsApp | 90% | WhatsApp | 89% |
| 2 | Facebook | 80% | Facebook | 84% | Facebook | 78% |
| 3 | YouTube | 80% | Facebook Messenger | 76% | Google Maps | 66% |
| 4 | Instagram | 79% | Google Maps | 73% | Facebook Messenger | 65% |
| 5 | Facebook Messenger | 74% | YouTube | 71% | YouTube | 53% |
| 6 | Google Maps | 71% | Instagram | 68% | Apple Music | 51% |
| 7 | Spotify | 63% | Amazon | 66% | Amazon | 49% |
| 8 | Gmail | 60% | eBay | 52% | Instagram | 47% |
| 9 | Amazon | 60% | Gmail | 52% | Gmail | 46% |
| 10 | TikTok | 54% | Apple Music | 51% | Google Play Store | 43% |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap ffôn clyfar, Mai 2023, oedran:18+, DU.*

## Apiau sy'n eiddo i Alphabet yw'r apiau sy'n cael eu defnyddio fwyaf gan oedolion y DU ar ffonau clyfar Android. Apiau sy'n eiddo i Meta yw'r apiau sy'n cael eu defnyddio fwyaf ar iPhone


Mae 51% o ddefnyddwyr ffonau clyfar 16 oed a hŷn yn y DU yn defnyddio ffôn clyfar Apple, tra bod 46% yn defnyddio ffôn clyfar Android.[35] Mae pobl rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o ddefnyddio ffôn clyfar Apple (68%) nag Android (30%) ac mae'r rheini sydd dros 54 oed yn fwy tebygol o ddefnyddio Android (56%) na ffôn clyfar Apple (40%). Mae pobl yn y grŵp economaidd-gymdeithasol AB yn fwy tebygol o fod â ffôn clyfar Apple (61%) na'r rheini yn y grŵp DE (39%). Dywedodd dros hanner y rheini yn yr Alban (53%) a Lloegr (52%) eu bod yn defnyddio ffonau clyfar Apple (Android: Yr Alban 44%, Lloegr 46%), ond yng Nghymru mae ffonau clyfar Android yn fwy amlwg (52% Android, 47% Apple). Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r rhaniad yn fwy cyfartal, gyda 43% yn defnyddio Apple, 42% Android, 8% 'dim un o'r rhain' ac 8% yn dweud 'ddim yn gwybod'.[36]

Mae chwech o'r deg ap a ddefnyddir amlaf ar ffonau Android gan oedolion y DU yn eiddo i Alphabet - mae Alphabet yn berchen ar system weithredu Android. Mae hyn yn cymharu â dau o bob deg ap sy'n eiddo i Apple ar iPhone. Mae llawer o'r apiau hyn yn cael eu gosod ymlaen llaw, gan gynnwys Google Play, Google Maps a Gmail ar gyfer Android, ac Apple Music ac Apple Weather ar iPhone.

[35] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom. Dywedodd 1% 'dim un o'r rhain' ac 1% 'ddim yn gwybod'.
[36] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom.

Mae gan Google Maps, er nad yw'n cael ei osod ymlaen llaw ar iPhone, gyrhaeddiad uwch nag Apple Maps ar iPhone. Roedd Apple Maps ychydig y tu allan i'r deg uchaf (11), gan gyrraedd 44% o ddefnyddwyr iPhone, sy'n awgrymu mai amlygrwydd Google Maps yw'r prif wasanaeth llywio.[37]

**Ffigur 15: Y 10 prif ap ffonau clyfar ym mis Mai 2023, ffonau Android o'u cymharu ag iPhone yn seiliedig ar gyrhaeddiad fel % o gyfanswm yr holl apiau ffonau clyfar**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap yn unig Android o'i gymharu ag iOS, ffôn clyfar yn unig, Mai 2023, oedolion: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw Apple App Store yn cael ei fesur gan Ipsos iris, nid yw ap gwasanaethau Google Play wedi'i gynnwys gan fod hwn yn wasanaeth cefndirol a llyfrgell i'w ddefnyddio gan apiau symudol sy'n rhedeg ar y ddyfais. Yn dilyn gwelliant, bu cynnydd mewn data ar gyfer rhai apiau 'cefndirol' fel Apple Music o'i gymharu â data blynyddoedd blaenorol.*

## WhatsApp, Facebook, Facebook Messenger ac Instagram sy'n eiddo i Meta yw'r pedwar ap ffonau clyfar mwyaf poblogaidd ar ddiwrnod arferol

Mae gan apiau Meta gyrhaeddiad uchel bob dydd hefyd: fel mae'r tabl isod yn ei ddangos, mae pedwar o'r pum ap sydd â'r cyrhaeddiad dyddiol uchaf ar ffonau clyfar yn eiddo i Meta. Mae modd defnyddio'r prif apiau (yn seiliedig ar oedolion sy'n eu defnyddio ar ddiwrnod arferol ym mis Mai 2023) ar gyfer negeseuon neu alwadau. Mae gwahaniaethau demograffig; WhatsApp (57%), Instagram (56%), YouTube (42%), TikTok (40%) a Facebook Messenger (39%) oedd y pum ap gorau ymysg pobl ifanc 18-24 oed.[38]

[37] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, apiau Android yn unig o'i gymharu ag iOS, ffôn clyfar yn unig, Mai 2023, oedolion: 18 oed a hŷn, y DU.
[38] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, prif apiau ar ffonau clyfar yn ôl cyrhaeddiad ar ddiwrnod arferol, Mai 2023, oedran: 18-24 oed, y DU.

**Ffigur 16: Y pum prif ap ffonau clyfar sy'n cael eu defnyddio ar ddiwrnod arferol gan oedolion ar-lein yn y DU: Mai 2023**

| Safle | Ap ar ffôn clyfar | Rhiant-gwmni | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ar gyfartaledd ym mis Mai 2023 | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2023 |
|---|---|---|---|---|
| **1** | WhatsApp | Meta | 61% | 27.3 miliwn |
| **2** | Facebook | Meta | 50% | 22.5 miliwn |
| **3** | Facebook Messenger | Meta | 39% | 17.7 miliwn |
| **4** | Instagram | Meta | 34% | 15.4 miliwn |
| **5** | Gmail | Alphabet | 28% | 12.6 miliwn |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, prif apiau ar ffonau clyfar yn ôl cyrhaeddiad ar ddiwrnod arferol, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.*

## YouTube a WhatsApp oedd yr apiau ffôn clyfar mwyaf poblogaidd ar gyfer plant 8-12 oed ar-lein

WhatsApp ac YouTube oedd yr apiau â'r cyrhaeddiad uchaf ymysg plant 8-12 oed sy'n defnyddio ffonau clyfar. Cafodd eu defnydd ar-lein ei fesur am gyfnod o hyd at 4 wythnos yn ein hastudiaeth beilot, gyda phedwar o bob pump yn eu defnyddio o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod hwn. Dilynwyd y rhain gan TikTok (57%), Roblox (55%), Facebook (43%), Google Play Store (41%), Snapchat (40%), ap golygu lluniau Bytedance, sef Capcut (36%), Gmail (35%) a Spotify (34%).[39] Roedd gan WhatsApp gyrhaeddiad dyddiol o 68% o'i gymharu â 57% ar gyfer YouTube.[40]

[39] Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 127. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.
[40] Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 127. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.

# Sectorau ar-lein

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn edrych ar ymddygiad plant ac oedolion a'u defnydd o wasanaethau ar-lein, ar sectorau penodol ar-lein: peiriannau chwilio, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon a galwadau, gwasanaethau cynnwys pornograffig, newyddion, addysg, manwerthu a gemau, ac mae'n edrych ar ddefnyddio AI cynhyrchiol.

Fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf, mae llawer o'r gwasanaethau ar-lein mwyaf poblogaidd yn rhai y mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth wedi bod yn gyfarwydd â nhw ers blynyddoedd. YouTube yw'r gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd i oedolion o hyd, ac i'r plant 8-12 oed sy'n cael eu mesur yn ein hastudiaeth. Mae gwasanaethau ar-lein newydd hefyd yn cael effaith yn y DU. Mae Threads, ap microflogio Instagram, yn ennyn diddordeb ymysg rhai o oedolion y DU, ond mae X (Twitter yn flaenorol) yn cynnal ei safle fel y gwasanaeth microflogio mwyaf poblogaidd. O ran gemau, *Candy Crush* yw'r ap gemau mwyaf poblogaidd o hyd, ond *Royal Match* (gêm bos a lansiwyd ddwy flynedd yn ôl) yw'r ail ap gemau mwyaf poblogaidd ymysg oedolion. *Roblox* oedd y gêm fwyaf poblogaidd a ddefnyddiwyd gan y plant 8-12 oed yn ein hastudiaeth, a oedd hefyd yn canfod amrywiaeth eang o apiau gemau eraill gyda chyrhaeddiad o 15% neu lai ymysg plant 8-12 oed ar-lein. Ym maes manwerthu, roedd Temu, marchnad manwerthu'r heriwr, wedi cynyddu ei gyrhaeddiad o fewn pum mis i'w lansio i fod y trydydd manwerthwr uchaf ymysg oedolion erbyn mis Awst 2023.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae AI cynhyrchiol wedi bod yn denu diddordeb ymysg oedolion a phlant. Mae lansiad ChatGPT wedi arwain at wasanaethau ar-lein eraill naill ai'n rhyddhau eu hofferyn AI cynhyrchiol eu hunain neu'n ymgorffori ChatGPT yn eu gwasanaethau, fel y gwnaed gan Snapchat; Snapchat My AI yw'r gwasanaeth AI cynhyrchiol â'r cyrhaeddiad uchaf ymhlith plant.

## Metrigau allweddol

**Ffigur 17: Gwasanaeth ar-lein mwyaf poblogaidd yn ôl sector ymysg oedolion ar-lein y DU, yn ôl gwlad: Mai 2023**

| Gwasanaeth | Y DU | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwilio | Google Search **86%** | Google Search **86%** | Google Search **85%** | Google Search **87%** | Google Search **87%** |
| AI Cynhyrchiol | ChatGPT **23%** | ChatGPT **24%** | ChatGPT **19%** | ChatGPT **12%** | ChatGPT **29%*** |
| Cyfryngau Cymdeithasol | YouTube **91%** | YouTube **91%** | Facebook a Messenger **93%** | Facebook a Messenger **93%** | Facebook a Messenger **95%** |
| Negeseuon a galwadau | WhatsApp **85%** | WhatsApp **86%** | WhatsApp **82%** | WhatsApp **87%** | WhatsApp **88%** |
| Gwasanaethau cwrdd â chariad | Tinder **5%** | Tinder **5%** | Tinder **4%** | Tinder **5%** | Tinder **7%** |
| Gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig | PornHub **18%** | PornHub **17%** | PornHub **18%** | PornHub **17%** | PornHub **20%** |
| Apiau chwarae gemau | Candy Crush Saga **5%** | Candy Crush Saga **6%** | Candy Crush Saga **5%** | Pokémon GO **6%** | Roblox **8%** |
| Newyddion | BBC **70%** | BBC **70%** | BBC **70%** | BBC **73%** | BBC **79%** |
| Manwerthu | Amazon **88%** | Amazon **86%** | Amazon **85%** | Amazon **88%** | Amazon **92%** |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw'r BBC yn cynnwys cyrhaeddiad drwy Apple News. / ChatGPT: Pôl panel ymchwil ar-lein Ofcom: AI cynhyrchiol, Mehefin 2023. *Rhybudd: maint sail isel (<100) ar gyfer ChatGPT Gogledd Iwerddon. Gweler Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2023: Data rhyngweithiol ar-lein ar gyfer mwy o ddata gwledydd y DU.*

# Chwilio

Mae'r adran hon yn edrych ar wasanaethau chwilio cyffredinol sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio cynnwys y we. Maent yn gweithio drwy ddefnyddio prosesau awtomatig a luniwyd i ganfod a threfnu cynnwys (a elwir yn ymlusgo a mynegeio). Yna defnyddir algorithmau i roi'r cynnwys mewn trefn ar sail perthnasedd i'r ymholiad chwilio a ffactorau eraill (safleoedd). Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau chwilio yn rhad ac am ddim.

Ym mhob achos bron, mae gwasanaethau chwilio yn gwneud eu holl refeniw o hysbysebu. Fel arfer, gwneir hyn drwy hysbysebion talu fesul clic, lle mae hysbysebwyr yn talu pan fydd defnyddiwr yn clicio ar un o'u hysbysebion. Mae'r prisiau ar gyfer termau chwilio allweddol fel arfer yn cael eu pennu gan eu perthnasedd i'r termau a'r ymholiadau sy'n cael eu chwilio, ac arwerthiant ymysg hysbysebwyr ar gyfer yr allweddeiriau perthnasol.

Roedd refeniw hysbysebu chwilio yn £13.1 biliwn yn 2022 yn y DU, yn ôl IAB UK. Cynhyrchwyd y rhan fwyaf o hyn gan Google (sy'n eiddo i Alphabet), gyda Bing gan Microsoft yn ail.

## Ar ddiwrnod arferol, ymwelodd hanner yr oedolion ar-lein yn y DU â Google Search ym mis Mai 2023

Google[41] yw'r peiriant chwilio mwyaf poblogaidd o hyd, gan gyrraedd 86% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2023, gyda hanner (51%) yn defnyddio'r peiriant chwilio bob dydd. Gyda cyrhaeddiad o 46%, Bing (sy'n eiddo i Microsoft) yw'r unig beiriant chwilio arall sy'n cyrraedd dros 4% o oedolion ar-lein yn y DU. Fe wnaeth nifer y peiriannau chwilio ostwng sydd â dros filiwn o oedolion yn y DU yn eu defnyddio ostwng o saith ym mis Mai 2022 i bump ym mis Mai 2023.[42]

Mae gan wahanol beiriannau chwilio genhadaeth gymdeithasol fel nodwedd graidd o'u model busnes. Lansiwyd Ecosia ym mis Rhagfyr 2009 ac mae'n y chweched safle o ran cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU. Mae'n defnyddio ei elw i gefnogi plannu coed a dyma'r peiriant chwilio mwyaf poblogaidd yn y farchnad gyda model busnes 'cymdeithasol da' (ffigur 18). Roedd ychydig o dan hanner (48%) o oedolion sy'n defnyddio Ecosia ym mis Mai 2023 yn 18-34 oed; mae'r grŵp oedran hwn yn cynrychioli 28% o boblogaeth rhyngrwyd oedolion yn gyffredinol.[43] Mae'r ceisiadau mwy diweddar i'r farchnad gyda model busnes 'cymdeithasol da' yn cynnwys Ekoru o Faleisia[44], a lansiwyd yn 2019, ac Ocean Hero o'r Almaen,[45] sy'n rhoi refeniw i'w partneriaid elusennol i leihau llygredd plastig yn y môr, ac unrhyw lygredd arall sy'n gysylltiedig â dŵr. Yn ychwanegol, mae gweinyddion Ekoru yn cael eu pweru gan drydan dŵr heb allyriadau.[46][47]

[41]Nid yw'n cynnwys gwasanaethau chwilio Google - Maps, Shopping, Play na News.
[42] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[43] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Ecosia, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[44]Forbes, How the search engine Ekoru is cleaning up our oceans, 19 Ionawr 2020.
[45] OceanHero, OceanHero, cyrchwyd 7 Awst 2023.
[46] Ekoru, About, cyrchwyd 3 Awst 2023.
[47] Nid yw data cynulleidfa oedolion y DU ar gael ar Ekoru neu Ocean Hero sy'n awgrymu cyrhaeddiad isel neu ddim cynulleidfa oedolion yn y DU.

**Ffigur 18: Cyrhaeddiad y deg prif beiriant chwilio ymhlith oedolion ar-lein yn y DU: Mai 2023**

| Safle | Peiriant chwilio | Pencadlys | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2022 | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2023 | Amser cyfartalog a dreuliwyd ym mis Mai 2023 fesul ymwelydd (oriau:munudau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Google Search | UDA | 41.1m | 41.3m | +252k | 86% | 01:15 |
| 2 | Bing | UDA | 13.9m | 21.9m | +8.0m | 46% | 00:36 |
| 3 | Yahoo! | UDA | 1.5m | 1.6m | +111k | 3% | 00:13 |
| 4 | AOL | UDA | 1.5m | 1.4m | -154k | 3% | 02:26 |
| 5 | DuckDuckGo | UDA | 1.8m | 1.3m | -541k | 3% | 00:40 |
| 6 | Ecosia | Yr Almaen | 814k | 724k | -90k | 2% | 03:58 |
| 7 | ask.com | UDA | 498k | 574k | +76k | 1% | 00:10 |
| 8 | Info.co.uk | UDA | 1.9m | 539k | -1,335k | 1% | 00:01 |
| 9 | Yandex | Rwsia | 1.3m | 379k | -879k | 1% | 00:06 |
| 10 | Generalsearch.net | UDA | - | 263k | - | 1% | > 00:01 |

*Ffynhonnell: / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw Google Search yn cynnwys gwasanaethau Google Search - Mapiau, Siopa, Chwarae na Newyddion.*


## Gwelodd Bing.com ei gyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU yn cynyddu o 33% ym mis Ionawr 2023 i 46% ym mis Mai 2023, ar ôl cyflwyno Bing AI.

Ym mis Chwefror 2023, lansiodd Microsoft fersiwn newydd o'i wasanaeth chwilio Bing a phorwr gwe Edge sy'n cael ei bweru gan dechnoleg Chat GPT-4 OpenAI, o'r enw Bing Chat.[48] Ym mis Chwefror 2023, defnyddiodd 18.5 miliwn o oedolion bing.com, cynnydd o bron i 3 miliwn o oedolion o'i gymharu â mis Ionawr 2023 (15.6 miliwn); parhaodd y duedd gynyddol hon tan fis Ebrill 2023, cyn i'r cyrhaeddiad gyrraedd lefel gwastad, gyda 21.2 miliwn o oedolion yn defnyddio'r safle ym mis Awst 2023.[49] Yn wahanol i wefan OpenAI, (gweler ffigur 21 yn adran AI Cynhyrchiol) sydd â chyrhaeddiad uwch ymysg defnyddwyr rhyngrwyd iau, mae'r gwrthwyneb yn wir am bing.com: Defnyddiodd 4.8 miliwn o'r rheini sy'n 65 oed a hŷn bing.com ym mis Awst 2023, a dim ond 98k o'r rheini sy'n 65 oed a hŷn wnaeth ddefnyddio gwefan OpenAI.[50] Mae Google hefyd yn integreiddio technoleg AI fel rhan o'i wasanaethau, yn gyntaf gyda lansiad Google Bard, er nad yw hyn yn rhan o'i beiriant chwilio craidd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae Google yn cynnig Bard fel sgyrsfot AI 'arbrofol' ar wahân. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Google hefyd yn gweithio ar ymgorffori galluoedd AI cynhyrchiol yn ei beiriant chwilio ac yn UDA mae'n profi ei 'Brofiad Chwilio Cynhyrchiol' gydag aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb.[51]

---

[48] Microsoft, Reinventing search with a new AI-powered Microsoft Bing and Edge, 7 Chwefror 2023.
[49] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, bing.com, data misol 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[50] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, bing.com a gwe Open AI, Awst 2023, oedran: 65 oed a hŷn, y DU.
[51] Google Blog, Supercharging Search with generative AI, 10 Mai 2023.

**Ffigur 19: Cyrhaeddiad misol gwefan Bing.com, yn ôl oedran: Hydref 22 – Awst 23**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Hydref 2022 - Awst 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.*

# Deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol

Mae AI cynhyrchiol yn cyfeirio'n fras at algorithmau sy'n gallu creu cynnwys newydd mewn ymateb i anogwr. Mae algorithmau AI amrywiol yn dychwelyd cynnwys newydd mewn ymateb i'r anogwr. Gall y cynnwys newydd gynnwys testun, delweddau, sain, fideo neu god. Mae'r cynnwys sy'n cael ei greu yn debyg iawn i'r cynnwys y hyfforddwyd y model arno.

Mae'r broses o gylchredeg arian AI cynhyrchiol yn gynnar iawn, ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o fodelau busnes (a ariennir gan ddefnyddiau, tanysgrifiadau, taliadau a thrwyddedu) ac mae'n debygol o aros yn amrywiol yn y tymor canolig.

## Dywedodd tri o bob deg defnyddiwr rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn y DU eu bod yn defnyddio offeryn AI cynhyrchiol.


Mae dynion ar-lein 16 oed a hŷn yn y DU yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi defnyddio offeryn AI cynhyrchiol (39% o'i gymharu â 24%). Dywedodd 74% o bobl ifanc 16-24 oed ar-lein eu bod yn defnyddio offeryn AI cynhyrchiol, a dywedodd 14% o'r rheini sy'n 45 oed a hŷn yr un fath (pobl 25-34 oed: 50%; pobl 35-44 oed: 35%). Y rheswm mwyaf poblogaidd a roddwyd dros ddefnyddio offer AI cynhyrchiol oedd sgwrsio neu archwilio'r dechnoleg, a nodwyd gan 48% o ddefnyddwyr rhyngrwyd 16 oed a hŷn a oedd wedi defnyddio offer AI cynhyrchiol o'r blaen. Dywedodd 58% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn eu bod yn defnyddio offeryn AI cynhyrchiol ar gyfer hwyl, dywedodd traean eu bod yn ei ddefnyddio at ddibenion gwaith a dywedodd chwarter eu bod yn ei ddefnyddio i helpu gyda'u hastudiaethau.

Dywedodd 69% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd nad oeddent erioed wedi defnyddio offeryn AI cynhyrchiol neu roeddent yn dweud nad oeddent yn gwybod. Y rheswm mwyaf poblogaidd dros

beidio â gwneud hynny oedd oherwydd bod ganddynt '*ddim diddordeb yn y dechnoleg*' (36%), ac yna '*ddim angen defnyddio AI cynhyrchiol*' (31%) neu '*ddim yn gwybod beth ydyw*' (24%).[52]

Ond mae defnyddwyr y rhyngrwyd hefyd yn ymwybodol o risgiau posibl AI cynhyrchiol, gyda dros hanner (58%) yn poeni am ei effaith ar gymdeithas yn y dyfodol. Dywedodd dwy ran o dair o bobl ifanc 16-24 oed ar-lein eu bod yn poeni am ei effaith gymdeithasol yn y dyfodol, a dywedodd 53% o bobl 25-34 oed yr un fath.[53]

**Ffigur 20: Defnydd y DU o AI cynhyrchiol ar-lein, 16 oed a hŷn**




*Ffynhonnell: Pôl panel ymchwil ar-lein Ofcom: AI cynyrchiol, Mehefin 2023 Cwestiwn amlddewis: At ba ddiben wnaethoch chi ddefnyddio offeryn AI cynhyrchiol? Sail: Y rhai a ddywedodd eu bod wedi defnyddio AI cynhyrchiol o'r blaen.*

## Ar ei anterth ym mis Mai 2023, roedd 3.4 miliwn o oedolion yn y DU wedi defnyddio gwefan OpenAI[54]


Mae OpenAI yn darparu dau fath o offer AI cynhyrchiol; Dall-E, ei offeryn cynhyrchu delweddau, a ChatGPPT, ei sgyrsfot. Ar 30 Tachwedd 2022, lansiodd OpenAI ChatGPT, ei sgyrsfot mawr sy'n seiliedig ar fodel iaith, ar ei wefan. Amcangyfrifodd astudiaeth fod ChatGPT wedi cyrraedd 100 miliwn o ddefnyddwyr gweithredol bob mis yn fyd-eang ym mis Ionawr 2023.[55] Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd tair fersiwn o ChatGPT ar gael: 1) ChatGPT-3.5, sgwrsfot AI cynhyrchiol rhad ac am ddiml; 2) GPT-4, ar gael yn gyhoeddus ym mis Mawrth 2023 drwy danysgrifiad £16 y mis i ChatGPT Plus, sy'n rhoi mynediad i danysgrifwyr at fodel mwy datblygedig sy'n ymateb yn gyflymach na'r fersiwn am ddim; a 3) ChatGPT Enterprise, sydd wedi'i anelu at fusnesau a chynnig nodweddion diogelwch a phreifatrwydd a fersiwn gyflymach o ChatGPT-4 a lansiwyd ym mis Awst 2023. Ym mis

[52] Pôl panel ymchwil ar-lein Ofcom: AI cynhyrchiol, Mehefin 2023
[53] Pôl panel ymchwil ar-lein Ofcom: AI cynhyrchiol, Mehefin 2023
[54] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[55] Similarweb insights, ChatGPT Tops 25 Million Daily Visits, 3 Chwefror 2023

Medi 2023, cyhoeddodd OpenAI y byddai DALL-E 3 yn cael ei integreiddio i ChatGPT Plus a Enterprise, gan drosi ceisiadau am destun yn ddelweddau manwl.[56] Mae OpenAI hefyd wedi cyhoeddi cyflwyno swyddogaethau sy’n galluogi defnyddio llais a delweddau i ymgysylltu â ChatGPT.[57]

Yn y DU, mae cynulleidfa gwefan OpenAI wedi bod yn tyfu ers mis Tachwedd 2022 ymysg pob grŵp oedran oedolion, ac yn gogwyddo’n drwm tuag at oedolion iau. Roedd gostyngiad nodedig mewn cyrhaeddiad i wefan OpenAI ymysg pobl ifanc 15-24 oed ym mis Mehefin-Awst 2023 (gweler ffigur 21 isod);[58] efallai oherwydd bod y cyfnod hwn ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, ac mae’n bosibl bod llai o angen i’r grŵp oedran hwn ddod o hyd i wybodaeth neu gynnwys sy’n ymwneud â’u haddysg. Ym mis Mai 2023, fe wnaeth OpenAI ryddhau ap ChatGPT ar gyfer iOS,[59] ac ym mis Gorffennaf 2023, adroddodd Ipsos iris ddata cychwynnol ar gyfer yr ap hwn, gan ganfod bod 286k (0.6%) o oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio’r ap y mis hwnnw. Cynyddodd cyrhaeddiad oedolion i 565k (1.2%) ym mis Awst 2023 ar ôl rhyddhau fersiwn Android yr ap ym mis Gorffennaf 2023. Nid oedd y rhan fwyaf (57%) o bobl a oedd yn defnyddio'r apiau i oedolion wedi defnyddio gwefan OpenAI (323k). Dynion oedd mwyafrif y defnyddwyr ap ChatGPT (71% yn ddynion o’i gymharu â 29% yn fenywod) ac roedd 36% o ddefnyddwyr yr ap yn 25-34 oed.[60]

**Ffigur 21: Cyrhaeddiad misol gwefan OpenAI, yn ôl oedran: Tachwedd 22 – Awst 23**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, gwefan OpenAI yn unig, Tachwedd 2022-Awst 2023, oedran: 15 oed a hŷn, y DU. O ganlyniad i wella’r fethodoleg, efallai y bydd toriad yn y duedd o fis Ebrill 2023 ymlaen.*

## Ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy’n 16 oed a hŷn, ChatGPT yw’r offeryn AI sy’n cael ei ddefnyddio amlaf

Mae data Ipsos iris yn rhoi cipolwg ar y bobl sy’n defnyddio OpenAI a Snapchat; fodd bynnag, gan fod gwefan OpenAI yn gartref i ChatGPT a DALL-E, ac mae gan Snapchat lawer o nodweddion gan gynnwys Snapchat My AI, a chomisiynodd Ofcom arolwg i ddeall pa offer AI generig roedd pobl yn eu

---

[56] OpenAI, DALL-E 3, 20 Medi 2023
[57] OpenAI, ChatGPT can now see, hear, and speak, 25 Medi 2023
[58] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, gwefan OpenAI, Mai-Awst 2023, oedran: 15 oed a hŷn, y DU.
[59] OpenAI, Product announcements, 18 Mai 2023
[60] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap ChatGPT, Gorffennaf-Awst 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

defnyddio. Cynhaliwyd yr ymchwil hon ym mis Mehefin 2023 a chanfu fod 23% o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 16 oed a hŷn wedi defnyddio ChatGPT, ac wedyn 15% wedi defnyddio Snapchat My AI (gweler ffigur 22).[61] Un enghraifft o wasanaeth mwy arbenigol yw Midjourney, sy'n cynhyrchu delweddau digidol o ddisgrifiadau iaith naturiol ac mae ar gael i'w ddefnyddio drwy danysgrifiad gyda'r cynllun sylfaenol yn dechrau ar $10 y mis.[62] Canfu data Ipsos iris fod 261k (0.6%) o oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio gwefan Midjourney ym mis Mai 2023.[63]

Ym mis Chwefror 2023, lansiodd Google ei offeryn AI cynhyrchiol, Bard. Ym mis Mawrth 2023, roedd 948k (2%) o oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio Bard, ond yn wahanol i OpenAI, sydd wedi cynyddu o ran cyrhaeddiad dros amser, gostyngodd cyrhaeddiad Bardd i 1% (576k) ym mis Mai 2023.[64]

**Ffigur 22: Defnyddwyr rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn y DU sydd wedi defnyddio offeryn AI cynhyrchiol**

| AI Cynhyrchiol | Defnyddwyr rhyngrwyd 16 oed â hyn | | |
|---|---|---|---|
| | Y cyfan | Gwryw | Benyw |
| **ChatGPT** | 23% | 30% | 17% |
| **Snapchat My AI** | 15% | 18% | 12% |
| **Bing Chat** | 11% | 15% | 6% |
| **DALL-E** | 9% | 14% | 5% |
| **Google Bard** | 9% | 14% | 5% |
| **Midjourney** | 8% | 13% | 4% |

*Ffynhonnell: Pôl panel ymchwil ar-lein Ofcom: AI cynhyrchiol, Mehefin 2023. Cwestiwn: Pa mor aml ydych chi'n defnyddio'r offer AI cynhyrchiol canlynol? Yr ymatebwyr a ddewisodd yr amlder defnyddio canlynol ar gyfer pob offeryn AI cynhyrchiol: 'bob amser', 'yn aml', 'weithiau', neu 'yn anaml'.*

## Mae pedwar o bob pump o bobl ifanc yn eu harddegau ar-lein a dau o bob pump o blant 7-12 oed ar-lein wedi defnyddio offeryn AI cynhyrchiol – mae'r rhan fwyaf yn defnyddio Snapchat My AI


Ym mis Mehefin 2023, dywedodd tri o bob pump (59%) o blant 7-17 oed ar-lein eu bod wedi defnyddio unrhyw un o'r offer AI canlynol: ChatGPT, Snapchat My AI, Midjourney neu DALL-E[65]. Er nad oedd gwahaniaeth yn ôl rhywedd ar lefel gyfan, neu rhwng bechgyn a merched iau neu hŷn, roedd gwahaniaethau yn ôl oedran. Er bod pedwar o bob pump o blant 13-17 oed wedi dweud eu bod wedi defnyddio o leiaf un o'r offer AI (79%), roedd dau o bob pump o blant rhwng 7 a 12 oed wedi defnyddio un (40%). Roedd 3% o blant 7-17 oed wedi defnyddio'r holl offer AI a restrwyd, gyda 5% o fechgyn yn dweud hyn, o'i gymharu â dim ond 2% o ferched.

[61] Pôl panel ymchwil ar-lein Ofcom: AI cynhyrchiol, Mehefin 2023.
[62] Midjourney, Cynlluniau tanysgrifio, cyrchwyd ar 9 Hydref 2023
[63] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Midjourney, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[64] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Bard, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[65] Roedd offer AI cynhyrchiol eraill ar gael yn y farchnad yn ystod cyfnod ein harolwg, ond yn ystod dechrau'r ymchwil, nodwyd bod y gwasanaethau hyn mewn trafodaeth gyhoeddus ar hyn o bryd.

Ym mis Mehefin 2023, dywedodd hanner y plant 7-17 oed ar-lein yn y DU eu bod wedi defnyddio Snapchat My AI, sy'n golygu mai dyma'r offeryn AI sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf o'r rheini sydd wedi'u rhestru, a hynny oherwydd mai dyma'r adnodd mwyaf hygyrch, gan ei fod ar gael drwy gyfrifon presennol Snapchat. Dywedodd traean o blant 7-17 oed eu bod wedi'i ddefnyddio yn ystod y mis diwethaf (gwaith maes a gynhaliwyd ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023). Lansiwyd sgwrsfot Snapchat My AI ym mis Chwefror 2023 i ddechrau, gan alluogi tanysgrifwyr Snapchat sy'n talu am y gwasanaeth i sgwrsio'n uniongyrchol yn ap Snapchat gyda sgyrsfot AI sy'n cael ei bweru gan dechnoleg GPT OpenAI.[66] Ym mis Ebrill 2023, daeth y sgwrsfot AI ar gael i holl ddefnyddwyr Snapchat am ddim.[67] Mae merched ychydig yn fwy tebygol na bechgyn o fod wedi defnyddio Snapchat My AI (54% o'i gymharu â 48%), ac mae'r defnydd yn llawer uwch ymysg plant 13-17 oed; mae 72% erioed wedi'i ddefnyddio, o'i gymharu â 30% o blant rhwng 7 a 12 oed. Merched yn eu harddegau yw'r defnyddwyr mwyaf tebygol, gyda 75% yn dweud eu bod erioed wedi defnyddio Snapchat My AI. Mae gan Snapchat drothwy oedran isaf o 13; bydd hyn yn ffactor o ran cyrhaeddiad uwch ymysg plant hŷn o'i gymharu â phlant iau.

Mae un o bob pedwar (24%) o blant 7-17 oed wedi defnyddio ChatGPT, gyda bechgyn yn fwy tebygol na merched o fod wedi gwneud hynny (34% o'i gymharu â 14%). Mae'r offeryn AI hwn hefyd yn fwy poblogaidd ymysg pobl ifanc (29%) na phlant 7-12 oed (19%), gan gyrraedd uchafbwynt ymysg bechgyn hŷn, sef 41%. Dywedodd un o bob chwech (16%) eu bod wedi defnyddio ChatGPT yn ystod y mis diwethaf, gyda bechgyn yn llawer mwy tebygol na merched o fod wedi gwneud hynny (23% o'i gymharu â 9%).[68]

### Ffigur 23: Plant ar-lein sydd wedi defnyddio offer AI




*Ffynhonnell: Omnibws Haf CHILDWISE 2023. Gwasanaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y chwe mis diwethaf: Cafodd y gwaith maes ei gynnal rhwng Mehefin-Gorffennaf 2023.*

[66] Snapchat Newsroom, Say Hi to My AI, 27 Chwefror 2023
[67] Snapchat Newsroom, SPS 2023: What's next for My AI, 19 Ebrill 2023
[68] CHILDWISE, omnibws haf 2023.

# Cyfryngau cymdeithasol

Mae gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn cysylltu defnyddwyr ac yn eu galluogi i adeiladu cymunedau o amgylch diddordebau neu gysylltiadau cyffredin, gan ganiatáu iddynt greu a rhannu amrywiaeth eang o gynnwys. Fel arfer, gall defnyddwyr ganfod, dilyn a chyfathrebu â'i gilydd drwy negeseuon uniongyrchol, postio neu rannu cynnwys, yn ogystal â gwneud sylwadau ac ymateb i gynnwys. Mae rhai gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol hefyd yn wasanaethau rhannu fideos lle gall defnyddwyr lwytho fideos i fyny a'u rhannu â'r cyhoedd. Maent yn aml yn caniatáu i ddefnyddwyr gyfathrebu drwy negeseuon preifat, postio cynnwys, a mynegi eu barn am fideos. Yn ogystal â hyn, gall defnyddwyr yn aml ddilyn neu danysgrifio i grewyr cynnwys. Mae rhai gwasanaethau rhannu fideos hefyd yn cefnogi ffrydio byw.

Mae gan gyfryngau cymdeithasol werth ariannol yn bennaf drwy hysbysebu, sy'n aml yn cael ei dargedu ar sail gwybodaeth ddemograffig ac ymddygiad defnyddwyr ar-lein. Yn 2022, roedd hysbysebion arddangos cymdeithasol yn £6.7 biliwn, sydd wedi mwy na dyblu mewn pum mlynedd. Fodd bynnag, wrth i'r farchnad hysbysebu ar-lein aeddfedu a'i thwf sefydlogi, mae cwmnïau cyfryngau cymdeithasol yn arallgyfeirio ac yn arbrofi gyda ffrydiau refeniw y telir amdanynt. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o gwmnïau cyfryngau cymdeithasol wedi cyflwyno opsiwn model tanysgrifio premiwm sy'n cynnig gwasanaethau gwell.

## Cyfryngau cymdeithasol

### YouTube yw'r gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymysg oedolion

YouTube yw'r gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol sydd â'r cyrhaeddiad uchaf ymhlith oedolion ar-lein y DU sy'n defnyddio ffonau clyfar, dyfeisiau tabled neu gyfrifiaduron, gan gymryd y safle uchaf ym mis Mai 2023 oddi wrth Facebook (gan gynnwys Messenger), gyda mwy na naw o bob deg (91.0%) yn ei ddefnyddio y mis hwnnw. Ym mis Mai 2022, Facebook oedd y gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol â'r cyrhaeddiad uchaf, gan gyrraedd 93.8% o oedolion ar-lein y DU, ond ym mis Mai 2023 roedd ganddo 1.4 miliwn yn llai o ddefnyddwyr sy'n oedolion, gan gynnal cyrhaeddiad cyffredinol uchel o oedolion ar-lein yn y DU (90.7%) ond bellach ar yr un lefel â YouTube. Mae TikTok, yn y pumed safle, bellach yn fwy poblogaidd na LinkedIn, sydd nawr yn y chweched safle, gan gyrraedd 44.3% o oedolion ar-lein y DU ym mis Mai 2023, cynnydd o 9% ers mis Mai 2022 (34.7%). Mae pobl ifanc 18-24 oed ar-lein yn y DU yn defnyddio llawer ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae dros eu hanner yn defnyddio chwe llwyfan cyfryngau cymdeithasol: Roedd 96% wedi defnyddio YouTube ym mis Mai 2023, roedd 87% wedi defnyddio naill ai Facebook neu Facebook Messenger, roedd 86% wedi defnyddio Instagram, roedd 72% wedi defnyddio TikTok, roedd 71% wedi defnyddio Snapchat ac roedd 61% wedi defnyddio X ( Twitter yn flaenorol).[69]

Roedd yr ap rhannu lluniau BeReal ymysg y deg prif wasanaeth cyfryngau cymdeithasol yr oedd pobl ifanc 18-24 oed yn ei ddefnyddio (1.4 miliwn ym mis Mai 2023, yn y degfed safle). Roedd 2.0 miliwn o oedolion ar-lein yn y DU wedi'i ddefnyddio ym mis Mai 2023, sy'n golygu mai dyma'r 16eg gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymysg oedolion yn gyffredinol. Cynyddodd defnyddwyr oedolion BeReal yn y DU o 282,000 ym mis Gorffennaf i 1.4 miliwn erbyn mis Awst 2022, cynnydd o bum gwaith. Parhaodd twf sylweddol mewn cyrhaeddiad tan ddiwedd 2022, ond ers

[69] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

hynny mae wedi sefydlogi. Mae cynulleidfa oedolion BeReal yn cynnwys ‘Gen Z’ yn bennaf, gyda 70% o’i defnyddwyr yn oedolion yn y DU rhwng 18-24 oed.[70]

## Mae defnyddwyr Facebook sy'n 45 oed a hŷn yn treulio hanner awr ar y llwyfan bob dydd, ac mae pobl 18-24 oed ond yn treulio 12 munud y dydd

Mae gwahaniaethau demograffig clir o ran faint o amser sy’n cael ei dreulio ar rai gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol. Ym mis Mai 2023, treuliodd defnyddwyr Facebook a Messenger 45 oed a hŷn fwy o amser na phobl ifanc 18-24 oed (cyfartaledd o 29 munud o’i gymharu â 12 munud y dydd) ar y llwyfannau hyn. (Ffigurau Mai 2022: Pobl 45 oed: 36 munud; pobl 18-24: 17 munud). Ond ar YouTube, TikTok, Instagram a Snapchat, roedd defnyddwyr 18-24 oed yn treulio mwy o amser na defnyddwyr hŷn. Ym mis Mai 2023, treuliodd y 3.8 miliwn o ddefnyddwyr TikTok 18-24 oed yn y DU 55 munud ar TikTok bob dydd ar gyfartaledd (Mai 2022: 3.5 miliwn, 53 munud), tra bod y 3.8 miliwn o ddefnyddwyr Snapchat 18-24 oed wedi treulio 58 munud y dydd ar yr ap (Mai 2022: 3.5 miliwn, 42 munud). O’i gymharu, roedd pobl 45 oed a hŷn a oedd yn defnyddio TikTok (8.2 miliwn) a Snapchat (1.8 miliwn) wedi treulio 9 munud bob dydd ar gyfartaledd ar bob gwasanaeth ym mis Mai 2023 (Mai 2022: 11 munud ar TikTok a 5 munud ar Snapchat).[71]

[70] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, BeReal, Gorffennaf 2022, Awst 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

[71] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Sylwer: mae’r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr mewn mis wedi’i rannu â nifer y diwrnodau mewn mis.

**Ffigur 24: Cyrhaeddiad y deg ap/gwefan cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymhlith oedolion ar-lein yn y DU: Mai 2022 a Mai 2023**

| Safle ym mis Mai 2023 | | Cyfanswm cynulleidfa oedolion y DU mewn mis | | | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU | Cynulleidfa oedolion bob dydd ar gyfartaledd mewn mis | | | Yr amser sy'n cael ei dreulio ar gyfartaledd bob dydd gan oedolyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfryngau cymdeithasol | Mai 2022 | Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | Mai 2023 | Mai 2022 | Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | Mai 2022 | Mai 2023 |
| **1** | YouTube | 43.9m | 43.5m | - 0.3m | 91% | 20.1m | 20.4m | +0.3m | 20 munud | 20 munud |
| **2** | Facebook a Messenger | 44.8m | 43.4m | - 1.4m | 91% | 32.1m | 29.5m | -2.6m | 32 munud | 23 munud |
| **3** | Instagram | 34.2m | 34.7m | + 0.5m | 73% | 15.6m | 16.6m | +1.0m | 10 munud | 12 munud |
| **4** | X (Twitter) | 26.8m | 24.0m | - 2.9m | 50% | 10.3m | 9.5m | -0.8m | 6 munud | 10 munud |
| **5** | TikTok | 16.6m | 21.2m | + 4.6m | 44% | 5.4m | 6.7m | +1.3m | 27 munud | 26 munud |
| **6** | LinkedIn | 18.6m | 18.9m | + 0.3m | 39% | 4.7m | 5.3m | + 0.6m | 2 munud | 2 munud |
| **7** | Reddit | 14.9m | 15.6m | + 0.7m | 33% | 3.3m | 3.6m | + 0.3m | 5 munud | 5 munud |
| **8** | Pinterest | 14.0m | 12.5m | - 1.5m | 26% | 2.1m | 1.9m | -0.2m | 1 munud | 1 munud |
| **9** | Snapchat | 9.8m | 10.3m | + 0.4m | 21% | 5.2m | 5.8m | +0.6m | 22 munud | 29 munud |
| **10** | Nextdoor | 9.3m | 8.2m | - 1.1m | 17% | 2.7m | 2.5m | -0.2m | 2 munud | 2 munud |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, cyfryngau cymdeithasol, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw setiau teledu na dangosyddion clyfar wedi'u cynnwys. Mae'r amser a dreulir yn seiliedig ar amser cyfartalog misol fesul defnyddiwr yn ystod y mis wedi'i rannu â nifer y diwrnodau yn ystod y mis. Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom*

## Canfu ymchwil i blant 8-12 oed ar-lein fod cyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu gydag oedran, gyda phlant hŷn yn fwy tebygol o'i ddefnyddio

Roedd bron pob un o'r plant yn ein hastudiaeth beilot wedi defnyddio gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol (97%). YouTube, Facebook (gan gynnwys Messenger) a TikTok oedd y gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd ymysg plant rhwng 8 a 12 oed ar-lein, y mesurwyd eu defnydd ar-lein am gyfnod o hyd at 4 wythnos yn ein hastudiaeth beilot, gan gyrraedd 96%, 72% a 66% yn y drefn honno. Fodd bynnag, wrth edrych ar ymweliadau bob dydd ar gyfartaledd, ar ôl YouTube yn 61%, TikTok oedd y cyrhaeddiad uchaf nesaf (35%) ac yna Snapchat (25%) a Facebook (19%). Roedd cyrhaeddiad X (Twitter yn flaenorol) yn 16% dros gyfnod y gwaith maes[72], ac roedd cyrhaeddiad BeReal yn 8%. Er bod cyrhaeddiad mis BeReal yn llai nag un o bob deg, roedd ei gyrhaeddiad *dyddiol* yn 5%, sy'n awgrymu bod ganddo sail fach ond arbenigol o ddefnyddwyr ymysg ein sampl.

Mae ein hastudiaeth beilot yn dangos bod plant hŷn (11 a 12 oed) yn fwy tebygol o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol: Mae 72% o blant 11-12 oed yn defnyddio TikTok bob wythnos o'i gymharu â 37% o blant 8-10 oed. Roedd un o bob pum plentyn 8-10 oed yn defnyddio TikTok bob dydd, o'i gymharu â 58% o blant rhwng 11 a 12 oed. Roedd modd cymharu Snapchat yma, gyda 13% o blant 8-10 oed yn defnyddio'r gwasanaeth hwn o'i gymharu â 42% o blant 11 a 12 oed.


Roedd 32% o blant 8-12 oed yn defnyddio Capcut, sef ap golygu fideos sy'n eiddo i Bytedance (sy'n berchen ar TikTok hefyd), a dyma'r 14eg gwasanaeth mwyaf poblogaidd ymysg y plant a gafodd eu hastudio. Mae ein hastudiaeth beilot yn dangos bod merched (43%) ddwywaith yn fwy tebygol na bechgyn (21%) o ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.[73] Ymysg oedolion, ymwelodd 874k (2%) o oedolion ar-lein yn y DU â Capcut ym mis Mai 2023. Mae Capcut yn arbennig o boblogaidd ymysg defnyddwyr ar-lein iau; mae 68% o'i chynulleidfa oedolion yn 18-34 oed (598k). Roedd 94% o oedolion a oedd wedi defnyddio Capcut (822k) hefyd wedi defnyddio TikTok, sy'n awgrymu mai un o brif ddibenion CapCut yw cynhyrchu fideos i'w llwytho i fyny i TikTok.[74]

[72] Yr amser a dreuliwyd yn seiliedig ar ddefnydd ar-lein 17 o blant dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023.

[73] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith neu'n wythnosol neu'n ddyddiol dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.

[74] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Capcut a TikTok, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

**Ffigur 25: Y chwe phrif wasanaeth cyfryngau cymdeithasol ar sail cyfanswm cyrhaeddiad cyfnod yr astudiaeth beilot ymysg plant 8-12 oed ar-lein**




*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad cyfnod: yn cynnwys yr amser a dreuliwyd yn seiliedig ar ddefnydd ar-lein 17 o blant dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol. Ewch i'r adran Fethodoleg i gael rhagor o fanylion. Nid yw setiau teledu na dangosyddion clyfar wedi'u cynnwys.*

**Ffigur 26: Y chwe phrif gwefan cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd yn ôl cyrhaeddiad ymysg plant 15-17 oed ar-lein yn y DU: Mis Mai 2023**

| Safle | Cyfryngau cymdeithasol | Cyrhaeddiad plant 15-17 oed ym mis Mai 2023 | Cyrhaeddiad pobl 15-17 oed ar-lein ym mis Mai 2023 |
|---|---|---|---|
| **1** | **YouTube** | 2.2m | 96% |
| **2** | **Facebook a Messenger** | 2.0m | 87% |
| **3** | **Instagram** | 1.9m | 86% |
| **4** | **TikTok** | 1.6m | 72% |
| **5** | **Snapchat** | 1.6m | 71% |
| **6** | **X (Twitter yn flaenorol)** | 1.4m | 60% |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, Adroddiad safleoedd, Categori: Cyfryngau cymdeithasol, oedran: 15-17 oed, y DU. Nodyn: Nid yw setiau teledu na dangosyddion clyfar wedi'u cynnwys.*

## Roedd defnyddwyr Snapchat 8-12 oed yn ein hymchwil wedi treulio 1 awr 18 munud y dydd ar Snapchat ar gyfartaledd

Yn ein hymchwil astudiaeth beilot, roedd y 36% o blant 8–12 oed ar-lein a oedd yn defnyddio Snapchat yn treulio cyfartaledd o 1 awr 18 munud y dydd arno, ac roedd hyn yn cael ei yrru'n bennaf gan ddefnyddwyr 11-12 oed. Roedd merched 8-12 oed wedi treulio 33 munud yn fwy na bechgyn ar gyfartaledd (merched: 93 munud o'i gymharu â bechgyn: 60 munud). Treuliodd y 96% o blant 8-12 oed ar-lein a oedd yn defnyddio YouTube tua awr y dydd yn defnyddio YouTube ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiadur (63 munud), ac roedd bechgyn yn treulio mwy o amser na merched ar

YouTube – 1 awr 19 munud o'i gymharu â 48 munud. Yr amser uchaf nesaf a dreuliwyd bob dydd ymysg y 66% o blant 8–12 oed oedd defnyddwyr TikTok, gyda chyfartaledd o 46 munud y dydd. Mae merched yn treulio mwy o amser na bechgyn ar TikTok (52 munud o'i gymharu â 37 munud). Roedd y 72% a 28% o'r plant 8–12 oed ar-lein a oedd yn defnyddio Facebook a Messenger, ac Instagram yn y drefn honno wedi treulio llawer llai o amser ar y gwasanaethau hyn, gan dreulio 3 munud y dydd ar bob un ohonynt.[75]

**Ffigur 27: Amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio bob dydd gan ddefnyddwyr 8-12 oed i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol sy'n cyrraedd y pump uchaf: oriau:munudau**

| | Snapchat | YouTube | TikTok | Facebook a Messenger | Instagram |
|---|---|---|---|---|---|
| **Oed yr ymwelydd** | | | | | |
| **8-12** | 01:18 | 01:03 | 00:46 | 00:03 | 00:03 |
| **8-10** | 00:26 | 01:14 | 00:32 | 00:02 | 00:02 |
| **11-12** | 01:49 | 00:47 | 00:57 | 00:04 | 00:03 |

*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Y pump uchaf yn seiliedig ar gyrhaeddiad cyfnod o ddau ar bymtheg o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a fesurwyd am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.*

## Microflogio

### Erbyn dechrau mis Medi 2023, roedd 23% o unigolion ar-lein y DU 16 oed a hŷn wedi defnyddio gwasanaeth microflogio Instagram, sef Threads

Lansiwyd Threads, gwasanaeth microflogio Instagram, ar 5 Gorffennaf 2023 a dyma'r ap i gael ei lwytho i lawr gyflymaf mewn hanes, gyda dros 100 miliwn o ddefnyddwyr byd-eang yn cofrestru yn y pum diwrnod ar ôl y lansiad.[76] Comisiynodd Ofcom ymchwil i archwilio'r amrywiaeth o lwyfannau microflogio y mae pobl yn eu defnyddio[77] ac a yw defnyddwyr yn postio cynnwys ar wasanaethau microflogio. Yn y DU erbyn dechrau mis Medi, lai na thri mis ar ôl ei lansio, dywedodd ychydig o dan chwarter (23%) o ddefnyddwyr ar-lein 16 oed a hŷn eu bod erioed wedi defnyddio Threads – sy'n is o lawer na'r rheini sy'n dweud nad ydynt erioed wedi defnyddio X (Twitter yn flaenorol) (52%). O'r rhai a oedd wedi defnyddio Threads, dywedodd traean (31%) eu bod wedi postio cynnwys ar y

---

[75] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Data yn seiliedig ar 17 o blant wedi'i fesur dros gyfnod o dair wythnos ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.

[76] Quiver Quantitative, Traciwr Threads, cyrchwyd 4 Hydref 2023. Mae'r cyfrif yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio rhifau cyfrif Threads a ddangosir ar dudalennau Instagram. Wedi'i adrodd yn Forbes, Threads Now Fastest-Growing App In History—With 100 Million Users In Just Five Days, 10 Gorffennaf 2023

[77] Roedd gan Ipsos ddata adroddadwy ar X, Tumblr a Mastodon. Roedd gan Ipsos iris ddata rhannol ar yr ap Threads ar adeg ei ddrafftio felly nid oedd modd adrodd ar gyfanswm nifer y defnyddwyr. Nid oedd gan yr holl wasanaethau eraill yn arolwg Ofcom unrhyw ddata adroddadwy yn Ipsos iris, naill ai oherwydd nad oedd yr un o'r panelwyr yn defnyddio'r safleoedd/apiau, neu oherwydd nad oedd digon o banelwyr wedi defnyddio'r safleoedd/apiau i roi gwybod am y data.


gwasanaeth yn ystod y mis diwethaf. O'r rheini a oedd wedi defnyddio X, dywedodd 29% eu bod wedi postio cynnwys yn ystod y mis diwethaf.[78]

Yn ôl data Ipsos iris, mae cyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU wedi bod yn gostwng yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda nifer defnyddwyr y gwasanaeth wedi gostwng 11 pwynt canran rhwng mis Mai 2021 (cyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU yn 61%) a mis Mai 2023 (cyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU yn 50%). Tumblr oedd yr ail wasanaeth microflogio uchaf ym mis Mai 2023, gyda 2.2 miliwn (5%) o oedolion ar-lein yn y DU yn ei ddefnyddio.[79]

Ar ei anterth ym mis Tachwedd 2022, pan gyflwynodd Ipsos iris ddata am Mastodon am y tro cyntaf, roedd 773k (1.6%) o oedolion ar-lein yn y DU yn defnyddio'r llwyfan hwn, ond mae ei gyrhaeddiad wedi bod yn gostwng, gan ostwng i 267k (0.6%) ym mis Rhagfyr 2022, 60k (0.1%) ym mis Mai 2023 ac yna i 58k (0.1%) ym mis Awst 2023.[80] Dylid nodi bod modd cael mynediad at wasanaeth Mastodon drwy lwyfannau eraill fel Tusky, Toot! a Tooot, sy'n cael ei archwilio yn ein hymchwil microflogio, gweler ffigur 28 isod.

Mae Bluesky yn wasanaeth microflogio a ddatblygwyd gan gyn-Brif Weithredwr Twitter, Jack Dorsey, ac a ddatblygwyd ochr yn ochr â Twitter. Roedd Twitter yn ariannu Bluesky i ddechrau, ond ers i Elon Musk brynu Twitter, mae Bluesky wedi bod yn annibynnol ar Twitter/X.[81] Mae Bluesky, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mewn modd beta (gwahoddiad yn unig) ac mae ganddo 1.8 miliwn o gyfrifon cofrestredig yn fyd-eang.[82] Canfu ein hymchwil microflogio fod 3% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 16 oed a hŷn wedi dweud eu bod wedi defnyddio Bluesky, a dywedodd 35% o'r rheini a oedd wedi defnyddio Bluesky eu bod wedi postio cynnwys yn ystod y mis diwethaf.[83]

**Ffigur 28: Pa mor ddiweddar mae defnyddwyr llwyfannau microflogio penodol y bobl 16 oed a hŷn yn y DU wedi postio cynnwys ddiwethaf, gyda % o'r rheini sydd erioed wedi defnyddio'r llwyfannau**




*Ffynhonnell: Ofcom, Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Microflogio Medi 2023. Cwestiwn tabl: Pryd wnaethoch chi ddefnyddio'r gwasanaethau microflogio canlynol ddiwethaf? Y rhai sydd wedi'u defnyddio o leiaf unwaith. Mae cwestiynau'r siart yn sail i'r rheini a ddywedodd eu bod yn defnyddio llwyfan: Ydych chi wedi postio unrhyw gynnwys (h.y. testun, delweddau, fideos*

[78] Ofcom, Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Microflogio Medi 2023.
[79] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2021 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[80] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mastodon, Tachwedd, Rhagfyr 2022 ac Awst 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[81] Techcrunch, What is Bluesky? Everything to know about the app trying to replace Twitter, 24 Gorffennaf 2023
[82] Twexit, Blue Sky Statistics, cyrchwyd 2 Tachwedd 2023
[83] Ofcom, Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Microflogio Medi 2023.

*ac ati) ar [enw'r llwyfan], a pha mor ddiweddar oedd hynny? Nid yw'r bobl a ddewisodd fwy na blwyddyn yn ôl, byth neu ddim yn gwybod/ddim yn cofio yn cael eu dangos ar y siart.*

# Gwasanaethau negeseuon a galwadau

Mae gwasanaethau negeseuon yn galluogi defnyddwyr i anfon a derbyn negeseuon sydd ond yn gallu cael eu gweld neu eu darllen gan dderbynnydd neu grŵp penodol o bobl. Mae rhai gwasanaethau'n amgryptio negeseuon. Yn ogystal â thestun, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr rannu nodiadau llais, delweddau a fideos, a gwneud a derbyn galwadau fideo. Mae rhai gwasanaethau negeseuon lefel uchel hefyd yn wasanaethau cyfryngau cymdeithasol; mae'r gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol hyn yn cael eu harchwilio yn yr adran cyfryngau cymdeithasol.

## WhatsApp yw'r gwasanaeth negeseuon mwyaf poblogaidd o hyd, ac mae 28 miliwn o oedolion yn y DU yn cael mynediad ato bob dydd ym mis Mai 2023

Ymysg oedolion, WhatsApp a Facebook Messenger, sy'n eiddo i Meta, oedd y gwasanaethau negeseuon mwyaf poblogaidd. Roedd 58% o oedolion ar-lein y DU yn defnyddio WhatsApp (gwefan neu ap) bob dydd, ac roedd 39% wedi defnyddio Facebook Messenger[84] (heb gynnwys defnyddio Messenger drwy brif wefan neu ap Facebook) bob dydd ym mis Mai 2023. Roedd y ddau wedi cynyddu ers y flwyddyn flaenorol (Mai 2022: 48% a 32% yn y drefn honno).[85] Er na allwn adrodd ar y defnydd o Instagram Direct drwy ymchwil Ipsos iris (oherwydd gweithgareddau amrywiol y gellir eu gwneud ar Instagram, nid negeseuon yn unig), canfu Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau Ofcom fod 40% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd 16 oed a hŷn yn defnyddio Instagram Direct (llai na WhatsApp (79%) a Facebook Messenger (61%) ym mis Tachwedd 2022.[86]

Roedd chwarter (26%) yr oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio o leiaf un gwasanaeth negeseuon preifat sy'n eiddo i Alphabet ym mis Mai 2023: Ap Google Messages (22%), Phone by Google (10%), Google Meet (7%) a Google Chat[87] (0.5%). Mae cronfa defnyddwyr Telegram yn gogwyddo'n drwm tuag at ddynion (67% yn ddynion a 33% yn ferched).[88]

Er bod y defnydd o wasanaethau negeseuon yn uchel ar draws holl wledydd y DU, roedd rhai gwasanaethau ar eu huchaf mewn gwledydd penodol. Roedd cyrhaeddiad Google Messages yn gymharol uchel ymysg oedolion ar-lein yng Ngogledd Iwerddon (31%) a Chymru (29%) o'i gymharu â chyrhaeddiad y DU gyfan o 22%. Roedd gan Phone by Google gyrhaeddiad uwch hefyd yn y ddwy wlad hyn, sef 15% o oedolion ar-lein o'i gymharu â 10% ar draws y DU yn gyffredinol, fel yr archwiliwyd yn gynharach yn yr adran Prif Gymwysiadau. Yng Nghymru, gallai hyn fod yn rhannol oherwydd bod nifer y bobl sy'n defnyddio Android ychydig yn uwch o'i gymharu â ffonau clyfar Apple yng Nghymru, ac efallai mai dyma'r rheswm yng Ngogledd Iwerddon hefyd,[89] ond mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer Lloegr a'r Alban.[90]

---

[84] Mae'n cynnwys defnyddwyr ap Facebook Messenger, Messenger Lite neu messenger.com.
[85] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedolion: 18 oed a hŷn, y DU.
[86] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2022 Ofcom: Arolwg Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein
[87] Noder: Gellir cael mynediad at Google Chat yn uniongyrchol drwy Gmail, nad yw'n cael ei gofnodi yn y data hwn.
[88] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedolion, 18 oed a hŷn, y DU.
[89] Er bod rhaniad Apple vs Android yn gymharol gytbwys yng Ngogledd Iwerddon, dywedodd 8% nad oeddent yn gwybod beth oedd system gweithredu eu dyfais, ac felly gallent fod yn ddefnyddwyr Android i raddau helaeth gan fod y rhan fwyaf o ffonau clyfar brand yn defnyddio system weithredu Android tra mai dim ond ffonau Apple sy'n defnyddio system weithredu Apple.
[90] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, 1 Mai – 31 Mai 2021, oedolion, 18 oed a hŷn, y DU.

Canfu Traciwr Technoleg Ofcom 2023 fod bron i chwech o bob deg oedolyn yn y DU yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu ar-lein i wneud galwadau llais (60%) neu fideo (56%) ar-lein; ymysg pobl ifanc 16-34 oed mae hyn yn codi i 68% a 64% yn y drefn honno. Ymysg oedolion ar-lein sy'n 55 oed a hŷn, mae 46% yn gwneud galwadau llais a 43% yn gwneud galwadau fideo.[91]

**Ffigur 29: Cyrhaeddiad ar-lein oedolion y DU o'r deg prif wasanaeth negeseuon neu alwadau ar-lein: Mai 2023**

| Safle | Gwasanaeth | Cyfanswm cynulleidfa oedolion mewn mis | | | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2023 | Cynulleidfa oedolion bob dydd ar gyfartaledd mewn mis | | Amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio gan ddefnyddiwr ym mis Mai 2023 (oriau:munudau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mai 2022 | Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | | Mai 2022 | Mai 2023 | |
| 1 | WhatsApp | 40.0m | 40.9m | +0.9m | 85% | 22.7m | 27.5m | 06:46 |
| 2 | Facebook Messenger* | 32.8m | 33.7m | +0.9m | 70% | 15.2m | 18.5m | 03:12 |
| 3 | Google Messages | 9.7m | 10.7m | +0.9m | 22% | 4.8m | 5.5m | 01:10 |
| 4 | Zoom | 8.6m | 7.1m | -1.5m | 15% | 0.9m | 0.7m | 00:38 |
| 5 | Discord | 4.4m | 5.9m | +1.5m | 12% | 1.5m | 1.7m | 02:36 |
| 6 | Ap Phone by Google | 4.7m | 5.0m | +0.3m | 10% | 2.2m | 2.5m | 02:19 |
| 7 | Google Meet | 118k | 3.2m | +2.5m | 7% | 0.1m | 0.2m | 00:16 |
| 8 | Telegram | 2.6m | 3.2m | +0.5m | 7% | 0.8m | 0.8m | 01:09 |
| 9 | Skype | 1.7m | 1.9m | +0.3m | 4% | 0.2m | 0.4m | 01:00 |
| 10 | Slack | 1.2m | 1.2m | -0.04m | 2% | 0.4m | 0.4m | 02:18 |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Gellir cael mynediad at wasanaeth negeseuon Facebook drwy prif lwyfan Facebook ac nid yw'n cael ei gyfrif yma. Mae'n cynnwys defnyddwyr ap Facebook Messenger, Messenger Lite neu messenger.com. Nid yw Microsoft Teams wedi'i gynnwys gan nad yw'r defnydd o ap bwrdd gwaith yn cael ei fesur.*

## Erbyn cyrraedd 10 oed, mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio WhatsApp

Dangosodd astudiaeth beilot Mesur Goddefol Ar-lein Plant Ofcom fod pedwar o bob pump o blant 8-12 oed ar-lein wedi defnyddio gwasanaeth negeseuon neu wasanaeth galw yn ystod cyfnod y gwaith maes.[92] Fel gydag oedolion, WhatsApp oedd y gwasanaeth mwyaf poblogaidd ymysg y plant 8-12

[91] Traciwr Technoleg 2023 Ofcom.

[92] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, Categori: Negeseuon gwib a fideo-gynadledda, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.

oed ar-lein (64%)[93] a phlant 15-17 oed (86%)[94]. Defnyddiodd 71% o blant 8-12 oed WhatsApp ar ddyfais nad ydynt yn ei rhannu â phobl eraill yn eu cartref. Roedd 39% o blant 8-9 oed ar-lein wedi defnyddio WhatsApp, gan ddyblu i 80% ar gyfer plant 10-12 oed ar-lein. Roedd 41% o blant 8-12 oed ar-lein yn defnyddio WhatsApp ar ddiwrnod arferol, gyda'r plant hŷn yn fwy tebygol o wneud hyn: Plant 8-10 oed: 24%, Plant 11-12 oed: 67%.[95]

Gwasanaeth negeseuon Tsieineaidd o'r enw WeChat oedd yr ail wasanaeth negeseuon mwyaf poblogaidd ymysg plant 8-12 oed ar-lein (17%, yn gysylltiedig â Google Messages).[96] Mae WeChat yn cael ei ddefnyddio llawer llai gan blant hŷn – (llai na 2% (35k) o blant 15-17 oed ar-lein ym mis Mai 2023) a chan oedolion – (llai nag 1% o oedolion ar-lein yn y DU (268k)).[97]

**Ffigur 30: Y pum prif wasanaeth negeseuon a galwadau, ymysg plant, yn ôl oedran**

| Safle | Gwasanaeth | Plant 8-12 oed ar-lein | Plant 8-10 oed ar-lein | Plant 11-12 oed ar-lein |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **WhatsApp** | 64% | 51% | 83% |
| **2** | **Google Messages** | 17% | 18% | 15% |
| **-** | **WeChat** | 17% | 11% | 25% |
| **4** | **Discord** | 15% | 13% | 18% |
| **5** | **Ap Facebook Messenger** | 10% | 7% | 15% |

| Safle | Gwasanaeth | Plant 15-17 oed Mai 2023 | Cyrhaeddiad pobl 15-17 oed ar-lein ym mis Mai 2023 |
|---|---|---|---|
| **1** | **WhatsApp** | 1,956k | 86% |
| **2** | **Facebook Messenger*** | 1,623k | 72% |
| **3** | **Discord** | 733k | 32% |
| **4** | **Google Messages** | 392k | 17% |
| **5** | **Zoom** | 353k | 16% |

*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Plant Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng Ionawr a Chwefror 2023 ynghyd â*

[93] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, Whatsapp, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant wedi'i fesur dros gyfnod o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.
[94] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Whatsapp, Mai 2023, 15-17 oed, y DU:
[95] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, Whatsapp, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant wedi'i fesur dros gyfnod o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos yn ystod rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.
[96] ibid.
[97] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, WeChat, Mai 2023, oedran: 15 oed a hŷn, y DU.

*chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, 15-17 oed, y DU: Nodyn: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Gellir cael mynediad at wasanaeth negeseuon Facebook drwy prif lwyfan Facebook ac nid yw'n cael ei gyfrif yma. Mae'n cynnwys defnyddwyr ap Facebook Messenger, Messenger Lite neu messenger.com. Nid yw Microsoft Teams wedi'i gynnwys gan nad yw'r defnydd o ap bwrdd gwaith yn cael ei fesur. Oherwydd bod y sail yn fach ar gyfer plant 8-12 a 15-17 oed, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.*

# Gwasanaethau cwrdd â chariad

Mae gwasanaethau cwrdd â chariad ar-lein yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr greu cysylltiadau rhamantus neu wneud ffrindiau newydd drwy negeseuon a galwadau. Mae defnyddwyr yn aml yn cael eu paru gan ddefnyddio algorithmau sy'n defnyddio'r wybodaeth maen nhw'n ei rhoi wrth greu eu proffiliau defnyddwyr. Mae defnyddwyr yn aml yn gallu hidlo yn ôl nodweddion demograffig a lleoliad.

Mae llawer o wasanaethau cwrdd â chariad yn gweithredu model busnes rhad ac am ddim, lle mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnig am ddim gyda nodweddion cyfyngedig, ond gall defnyddwyr uwchraddio i wasanaethau am dâl. Gall ffrydiau refeniw gynnwys tanysgrifiadau a/neu bryniannau mewn apiau.

## Roedd dros un o bob deg oedolyn ar-lein yn y DU wedi defnyddio gwasanaeth cwrdd â chariad ym mis Mai 2023

Ym mis Mai 2023, roedd mwy nag un o bob deg (11%) o oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio gwasanaeth cwrdd â chariad ar-lein. Mae gwasanaethau cariad Match Group, sy'n cynnwys Tinder, Hinge, Plenty of Fish, OKCupid, Match.com ac OurTime, gyda'i gilydd wedi cyrraedd 7% o oedolion ar-lein y DU (3.2 miliwn) ym mis Mai 2023. Tinder oedd y gwasanaeth mwyaf poblogaidd o'i bortffolio o wasanaethau cwrdd â chariad, gan gyrraedd 2.5 miliwn (5%) o oedolion ar-lein yn y DU. Roedd Bumble Inc., sy'n berchen ar Bumble a Badoo, wedi cyrraedd 4% o oedolion ar-lein y DU (1.7 miliwn) ym mis Mai 2023; roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi defnyddio Bumble (4%), ac roedd 1% wedi defnyddio Badoo.

Mae llawer o ddefnyddwyr yn defnyddio mwy nag un gwasanaeth cwrdd â chariad. Ar draws gwasanaethau Match, roedd 80% o ddefnyddwyr Hinge a 55% o ddefnyddwyr Plenty of Fish hefyd wedi defnyddio Tinder yn ystod y mis. Roedd hanner yr oedolion a oedd wedi defnyddio Badoo hefyd wedi defnyddio Bumble (49%) ym mis Mai 2023. Roedd llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau Bumble Inc. yn defnyddio Tinder hefyd, gyda'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr Bmble (68%) a Badoo (50%) hefyd yn defnyddio Tinder ym mis Mai.

Er mai Tinder oedd y gwasanaeth â'r cyrhaeddiad uchaf, roedd yr amser a dreuliwyd yn gymharol isel; treuliodd ddefnyddwyr ychydig dros awr (1 awr 12 munud) ar y llwyfan ym mis Mai 2023, o'i gymharu â thua dwy awr a dreuliwyd ar Hinge (2 awr 12 munud), Bumble (2 awr 22 munud) a Plenty of Fish (1 awr 55 munud). Roedd Grindr â'r amser treulio hiraf o bell ffordd fesul defnyddiwr; roedd y defnyddiwr ar gyfartaledd wedi treulio bron i saith awr ar y llwyfan ym mis Mai.[98]

[98] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 a hŷn, y DU

**Tabl 31: Cyrhaeddiad y prif lwyfannau ar gyfer cwrdd â chariad ymhlith oedolion ar-lein yn y DU: Mai 2023**

| Safle | Gwasanaeth | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2022 | Cyfanswm cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2023 | Cynulleidfa oedolion bob dydd ar gyfartaledd ym mis Mai 2023 | Amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio ym mis Mai 2023 (oriau:munudau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Tinder | 2,155k | 2,487k | +332k | 5.2% | 899k | 01:13 |
| 2 | Hinge | 1,042k | 1,509k | +467k | 3.2% | 671k | 02:12 |
| 3 | Bumble | 1,220k | 1,440k | +220k | 3.0% | 587k | 02:22 |
| 4 | Grindr | 790k | 924k | +134k | 1.9% | 374k | 06:49 |
| 5 | Plenty of Fish | 537k | 625k | +88k | 1.3% | 182k | 01:55 |
| 6 | Squirt | 460k | 530k | +70k | 1.1% | 79k | 00:26 |
| 7 | Badoo | 490k | 482k | -8k | 1.0% | 186k | 03:42 |
| 8 | PURE Hookup | - | 299k | - | 0.6% | 24k | 00:15 |
| 9 | Happn | - | 275k | - | 0.6% | 85k | 01:01 |
| 10 | Match | 287k | 209k | -78k | 0.4% | 54k | 01:34 |


*Ffynhonnell: / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Mae llinell doriad yn cynrychioli data nad yw ar gael ar gyfer y cyfnod.*

## Roedd un o bob pump o bobl 25-34 oed ar-lein yn defnyddio gwasanaethau cwrdd â chariad ym mis Mai 2023

Roedd gwasanaethau cwrdd â chariad ar-lein wedi cyrraedd 20% o bobl 25-34 oed, sef y cyrhaeddiad uchaf ymysg unrhyw grŵp oedran oedolion. Pobl ifanc 18-24 oed oedd yr ail ddefnyddwyr mwyaf amlwg, gyda 17% yn defnyddio o leiaf un gwasanaeth cwrdd â chariad ym mis Mai 2023. Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ar fwyafrif y llwyfannau cwrdd â chariad yn bobl ifanc 18-34 oed; roedd Hinge yn gogwyddo'n drwm tuag at y grŵp oedran iau gyda 73% o ddefnyddwyr 18-34 oed. Mae Plenty of Fish, Badoo, a Happn i gyd yn gogwyddo'n drwm tuag at ddefnyddwyr hŷn, gyda mwy na hanner ohonyt yn 35-54 oed. Roedd 126k (0.3%) o oedolion ar-lein yn y DU yn defnyddio OurTime, gwasanaeth cwrdd â chariad ar gyfer pobl dros 50 oed, ac roedd 63% o'i gynulleidfa'n oedolion 55 oed a hŷn. OurTime oedd y pumed gwasanaeth ar-lein mwyaf poblogaidd ymysg pobl dros 54 oed, gyda Grindr, y gwasanaeth rhwydweithio a chwrdd â chariad cymdeithasol LHDTC mwyaf poblogaidd, yn cyrraedd 136k o bobl (0.8%). [99]

[99] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.


**Ffigur 32: Y deg gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd yn ôl cyrhaeddiad oedolion, cyfansoddiad y gynulleidfa oedolion yn ôl oedran: Mis Mai 2023**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedolion: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Mae'r rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom yn cynnwys llwyfannau sy'n cyrraedd 1% a mwy o bobl dros 18 oed ar-lein yn y DU.*

Cafodd defnyddwyr cyffredinol y llwyfannau cwrdd â chariad ar-lein eu rhannu gyda 61% yn ddynion a 39% yn fenywod ym mis Mai 2023. Mae mwy o ddynion na merched ar lawer o wasanaethau cwrdd â chariad ar-lein; ap PURE Hookup a Match oedd yr unig wasanaethau cwrdd â chariad yn y deg uchaf lle roedd mwy o fenywod na dynion yn eu defnyddio.[100]

**Ffigur 33: Y deg gwasanaeth cwrdd â chariad mwyaf poblogaidd yn ôl cyrhaeddiad oedolion, cyfansoddiad y gynulleidfa oedolion yn ôl rhywedd: Mis Mai 2023**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.*

[100] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

# Gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig

Mae gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig yn darparu neu'n galluogi rhannu cynnwys pornograffig yn bennaf (sydd weithiau'n cael ei ddisgrifio fel 'cynnwys i oedolion'). Gall y cynnwys hwn gael ei gyhoeddi neu ei arddangos ar ffurf testun, fideos a delweddau neu sain, neu ei ddarparu mewn fformat byw neu ryngweithiol. Gall defnyddwyr hefyd chwilio weithiau am gynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr a chysylltu â'i gilydd. Mae rhai gwasanaethau'n cael eu galw'n 'safleoedd tiwb' ac yn canolbwyntio ar lwytho delweddau neu fideos sydd wedi'u recordio ymlaen llaw i fyny. Mae eraill yn cael eu galw'n 'wefannau camerâu byw' sy'n arbenigo mewn darparu cynnwys sy'n cael ei ffrydio'n fyw i ddefnyddwyr ac a allai alluogi rhyngweithio rhwng perfformwyr a gwylwyr. Efallai y bydd swyddogaethau negeseuon uniongyrchol a ffrydio byw ar gael hefyd.

Mae cynnwys â thâl yn gyffredin ar wasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig, ond mae llawer o wasanaethau am ddim yn dibynnu ar hysbysebu i gynhyrchu cyfran fawr o'u refeniw. Mae rhai gwasanaethau'n caniatáu i ddefnyddwyr brynu tanysgrifiadau misol i wneuthurwyr cynnwys, lle mae canran benodol yn cael ei thynnu gan ddarparwr y gwasanaeth. Dywedodd Pornhub – y gwasanaeth ar-lein mwyaf ar gyfer cynnwys pornograffig – fod 80% o'i refeniw hysbysebu yn cael ei ddosbarthu i ddarparwyr cynnwys yn ei Raglen Model a bod 20% yn cael ei gadw gan y cwmni. Y refeniw cyfartalog fesul 1000 o olygon ar gyfer y rhai sy'n creu'r Rhaglen Fodel oedd $0.66 yn 2021.[101]


## Roedd 29 y cant o oedolion ar-lein y DU wedi defnyddio gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig ym mis Mai 2023

Roedd 29 y cant (1.8 miliwn) o oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio gwasanaeth cynnwys pornograffig ym mis Mai 2023, ac mae'r cyrhaeddiad wedi aros yn gymharol sefydlog o un flwyddyn i'r llall (Mai 2022: 31%, 14.6 miliwn). Dynion oedd y rhan fwyaf o'r rhain; defnyddiodd 10.1 miliwn o ddynion yn y DU wasanaeth ar-lein ar gyfer cynnwys pornograffig, sy'n cynrychioli 73% o oedolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, roedd 29% o oedolion ar-lein wedi defnyddio gwasanaeth ar-lein ar gyfer cynnwys pornograffig, ac roedd 33% o oedolion ar-lein yng Nghymru wedi gwneud hynny. Yn ystod mis Mai 2023, roedd mwy o oedolion yn y DU yn defnyddio gwasanaethau â chynnwys pornograffig yn ystod cyfnodau yn y bore a'r prynhawn (9am i 5:29pm) nag ar adegau eraill o'r dydd (cyrhaeddiad o 21% ymysg oedolion ar-lein yn y DU), er bod oedolion yn y DU yn treulio'r mwyaf o amser ar y gwasanaethau hyn rhwng hanner nos ac 8:59am (59 munud ar gyfartaledd fesul defnyddiwr ym mis Mai 2023, o'i gymharu â 55 munud ar gyfartaledd fesul defnyddiwr yn y bore a'r prynhawn).[102]

[101] Pornhub, Model Program | How to make money on Pornhub, cyrchwyd 19 Hydref 2023.

[102] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

**Ffigur 34: Defnyddwyr oedolion â gwasanaethau cynnwys pornograffig, yn ôl rhywedd a chyfansoddiad y gynulleidfa**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfa Ar-lein Ipsos iris, categori: cynnwys anweddus (x-rated) i oedolion, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.*

**Ffigur 35: Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU i wasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig, fesul diwrnod: Mai 2023**

| | Yng nghanol y nos ac amser brecwast | Bore a phrynhawn | Yn gynnar gyda'r nos | Gyda'r nos ac yn hwyr yn y nos |
|---|---|---|---|---|
| Rhan o'r diwrnod: | 00:00-08:59 | 09:00-17:29 | 17:30-19:59 | 20:00-23:59 |
| **Cyrhaeddiad oedolion ar-lein:** | **18%** | **21%** | **13%** | **17%** |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfa Ar-lein Ipsos iris, categori: cynnwys anweddus (x-rated) i oedolion, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.*

## Pornhub yw'r gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd ar draws pob grŵp oedran oedolion ac ar gyfer dynion a menywod

Yn ôl Pornhub, y DU oedd yr ail wlad uchaf o ran traffig dyddiol i'r wefan (y tu ôl i UDA) yn 2022.[103] Mae oedolion iau yn fwy tebygol na phobl hŷn o ddefnyddio Pornhub – roedd 30% o bobl 18-34 oed ar-lein yn y DU wedi defnyddio'r gwasanaeth ym mis Mai 2023, o'i gymharu â 10% o bobl dros 44 oed. Ymysg pobl 18-34 oed, roedd 40% o ddynion ar-lein (2.9 miliwn) wedi defnyddio Pornhub, o'i gymharu ag 20% o fenywod ar-lein (1.4 miliwn). Mae Pornhub yn arweinydd sylweddol ymysg y gwasanaethau cynnwys pornograffig ar-lein eraill; cyrhaeddodd 18% o oedolion ar-lein ym mis Mai 2023, o'i gymharu â Chaturbate sy'n cyrraedd yr ail uchaf (9%), a XVideos (8%) yn drydydd (gweler

[103] Pornhub Insights, Year in Review 2022, 8 Rhagfyr 2022.

ffigur 36 isod).[104] Mae rhiant-gwmni Pornhub, Aylo[105] (MindGeek gynt), hefyd yn berchen ar YouPorn, Redube, a Brazzersnetwork, ac roedd 19% o oedolion ar-lein y DU wedi defnyddio un o'r pedwar gwasanaeth hyn ym mis Mai 2023.[106]

Roedd mwy o oedolion yn y DU wedi cael gafael ar y gwasanaethau cynnwys pornograffig mwyaf cynhwysfawr ym mis Mai 2023 nag ym mis Mai 2022, gyda chyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU yn cynyddu o leiaf 10% ar gyfer pump o'r deg gwasanaeth uchaf: Xnxx gyda 23.4%, Livejasmin gyda 24.3%, OnlyFans gyda 19.3%, Adultwork gyda 24.9%, ac YouPorn gyda 13.9%.

Nid yw'r deg prif wasanaeth cynnwys pornograffig yn amrywio fawr ddim yn ôl oedran y defnyddiwr, er bod y safle gifs oedolion, Redgifs, (cyrhaeddiad o 4% ar-lei ymysg pobl 18-24 oed, 224k) ond yn ymddangos yn y deg uchaf ar gyfer oedolion dan 25 oed. Y safle ffuglen erotig Literotica a gwefan rhannu fideos Redtube yw'r unig wasanaethau yn y deg gwasanaeth cynnwys pornograffig mwyaf poblogaidd ymhlith menywod, ond nid ydynt yn ymddangos yn y deg uchaf ymhlith dynion, tra bod Adultwork a'r wefan camerâu byw Livejasmin yn ymddangos yn y deg uchaf i ddynion yn unig. Mae gan Bellesa (0.3% o gyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU ym mis Mai 2023) – gwasanaeth fideo, ffuglen a manwerthu pornograffig sydd wedi'i anelu'n benodol at fenywod – y gyfran uchaf o ddefnyddwyr benywaidd, sef 65%. Mae safleoedd ffuglen erotig Lush Stories and Literotica yn dod yn ail (44%) ac yn drydydd (41%) gan gyfansoddiad y gynulleidfa fenywaidd, ac maent yn fwy poblogaidd gydag oedolion 25-44 oed (y ddau yn 44% o gyfansoddiad cyffredinol oedolion).[107]

Hentai, is-genre o anime neu manga gyda chynnwys anime a manga rhywiol amlwg, oedd y trydydd term chwilio mwyaf poblogaidd ar Pornhub yn fyd-eang yn 2022, ar ôl bod yn y safle uchaf yn 2021.[108] Mae safleoedd gemau pornograffig Hentai Heroes (cyrhaeddiad o 0.6% ymysg oedolion ar-lein yn y DU) yn gogwyddo'n drwm tuag at ddynion; mae dynion yn cynrychioli 89% o'i gynulleidfa oedolion ac mae'n fwyaf poblogaidd ymysg pobl ifanc 18-24 oed (38% o'r cyfansoddiad cyffredinol). Mae Hentai Heroes yn neidio o'r 40fed i'r nawfed safle yn y DU ar gyfer cyrhaeddiad cyffredinol oedolion ar-lein pan fyddwn ond yn ystyried y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau cynnwys pornograffig drwy gyfrifiaduron.[109]

## Roedd oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig wedi treulio bron i 2 awr ar gyfartaledd ar y gwasanaethau hyn ym mis Mai 2023

Roedd oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau ar gyfer cynnwys pornograffig wedi treulio 1 awr 56 munud ar gyfartaledd ar y gwasanaethau hyn ym mis Mai 2023. Pornhub, y gwasanaeth ar-lein mwyaf poblogaidd ar gyfer cynnwys pornograffig ymysg oedolion yn y DU, yw'r seithfed yn ôl yr amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio fesul defnyddiwr ar wasanaethau cynnwys pornograffig, gyda defnyddwyr yn treulio 52 munud ar gyfartaledd ar Pornhub ym mis Mai 2023. Mae'n ymddangos bod oedolion yn y DU yn treulio mwy o amser ar wasanaethau cynnwys pornograffig sy'n cynnwys elfen lenyddol; mae'r gwasanaethau hyn yn cyrraedd cyfran fach ond ymroddedig iawn o'r boblogaeth. Mae'r safleoedd llenyddol erotig Nhentai a Literotica yn cael eu rhestru yn gyntaf ac yn chweched yn ôl yr amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio fesul defnyddiwr, sef 3 awr 42 munud ac 1

---

[104] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Pornhub, Chaturbate, X-videos, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[105] Ailfrandio Mindgeek i Aylo ym mis Awst 2023
[106] Sylwch fod endidau eraill sy'n eiddo i Aylo nad ydynt yn cael eu mesur yn Ipsos iris, gan nad ydynt yn cyrraedd y trothwy mesur isaf.
[107] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[108] Pornhub Insights, Year in Review 2022, 8 Rhagfyr 2022.
[109] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

awr 9 munud ym mis Mai 2023, er iddynt ond gyrraedd 0.2% (109k) ac 1% (522k) o boblogaeth oedolion ar-lein y DU yn y drefn honno.[110]

[110] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

**Ffigur 36: Y deg prif wasanaeth ar-lein ar gyfer cynnwys pornograffig yn ôl cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU, Mai 2022 a Mai 2023**

| Safle | Oedolion 18 oed a hŷn ar-lein yn y DU | | | | | | | Gwryw 18 oed a hŷn | | | Benyw 18 oed a hŷn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaeth | Cyrhaeddiad ar-lein mis Mai 23 | Cynulleidfa Mai 2022 | Cynulleidfa Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | Cyfansoddiad rhywedd oedolion 18 oed a hŷn y DU Mai 2023 | | Gwasanaeth | Cyrhaeddiad ar-lein mis Mai 23 | Cynulleidfa Mai 23 | Gwasanaeth | Cyrhaeddiad ar-lein mis Mai 23 | Cynulleidfa Mai 23 |
| | | | | | | Gwryw | Benyw | | | | | | |
| **1** | PornHub | 18% | 8.2m | 8.4m | + 0.2m | 73% | 27% | PornHub | 26% | 6.1m | PornHub | 9% | 2.3m |
| **2** | Chaturbate | 9% | 3.9m | 4.2m | + 0.3m | 80% | 20% | Xvideos | 15% | 3.5m | Chaturbate | 4% | 851k |
| **3** | Xvideos | 8% | 4.0m | 4.0m | + 0.02m | 86% | 14% | Chaturbate | 14% | 3.4m | Xnxx | 3% | 615k |
| **4** | Xnxx | 7% | 2.6m | 3.2m | + 0.6m | 81% | 19% | Xnxx | 11% | 2.6m | Xvideos | 2% | 565k |
| **5** | Xhamster | 6% | 2.9m | 2.7m | - 0.2m | 89% | 11% | Xhamster | 10% | 2.4m | Xhamster | 1% | 302k |
| **6** | Stripchat | 4% | 2.3m | 2.0m | - 0.3m | 88% | 12% | Stripchat | 8% | 1.8m | Stripchat | 1% | 249k |
| **7** | Livejasmin | 4% | 1.5m | 1.9m | + 0.4m | 93% | 7% | Livejasmin | 7% | 1.8m | YouPorn | 1% | 246k |
| **8** | OnlyFans | 3% | 1.4m | 1.6m | + 0.3m | 89% | 11% | OnlyFans | 6% | 1.4m | Redtube | 1% | 222k |
| **9** | Adultwork | 3% | 1.0m | 1.3m | + 0.3m | 91% | 9% | Adultwork | 5% | 1.2m | Literotica | 1% | 214k |
| **10** | YouPorn | 3% | 1.1m | 1.3m | + 0.2m | 80% | 20% | YouPorn | 4% | 1.0m | OnlyFans | 1% | 186k |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Adroddiad safleoedd, Categori: Cynnwys anweddus i oedolion, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.*

# Gemau

Mae gwasanaethau gemau ar-lein yn galluogi rhyngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mewn amgylcheddau rhithwir sy'n cael eu hefelychu'n rhannol neu'n llawn. Er bod swyddogaethau'n amrywio yn ôl gwasanaeth, gall defnyddwyr ryngweithio drwy greu neu drin avatars, gwrthrychau, a'r amgylcheddau eu hunain, a/neu drwy ddefnyddio sgwrsio llais a thestun. Mae rhai gwasanaethau'n defnyddio systemau paru i gyfateb defnyddwyr â'i gilydd ar sail paramedrau fel nodweddion rhwydwaith, caledwedd, dewisiadau defnyddwyr, argaeledd a sgiliau. Bydd yr adran hon yn edrych ar y nifer sy'n defnyddio dyfeisiau y gellir eu defnyddio ar gyfer gemau ar-lein, tanysgrifiadau gemau, a'r gemau symudol sy'n boblogaidd yn 2023.


## Mae 38% o oedolion 16 oed a hŷn yn y DU yn chwarae gemau ar-lein, fel y mae 57% o blant 3-15 oed yn y DU[111]

Canfu ymchwil Ofcom ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau fod chwarae gemau yn dal yn boblogaidd, gyda 56% o oedolion yn y DU sy'n 16 oed a 91% o blant 3-15 oed yn dweud eu bod yn chwarae gemau ar ddyfeisiau,[112] naill ai ar-lein neu all-lein.[113] Canfu ymchwil Ampere Analysis fod yr amser y dywedodd chwaraewyr eu bod yn treulio'n chwarae gemau, naill ai ar-lein neu all-lein, wedi gostwng o gyfartaledd o 8 awr 16 munud yr wythnos yn Ch2 2022 i 7 awr 11 munud yn Ch2 2023. Treuliodd pobl ifanc 16-24 oed 7 awr 48 munud yn chwarae gemau gyda phobl 25-34 oed yn treulio 6 awr 51 munud, sy'n is nag yn Ch2 2022 pan wnaethant dreulio 8 awr a 57 munud ac 8 awr 39 munud yn y drefn honno. Gall y ffactorau sy'n sbarduno'r dirywiad hwn gynnwys tywydd gwell yn Ch2 2023, neu addasiad parhaus o anterth chwarae gemau yn ystod cyfyngiadau symud Covid yn 2020 a 2021. Roedd plant 13-15 oed yn dal i dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn chwarae gemau, sef 11 awr a 40 munud yr wythnos. Treuliodd dynion 8 awr 32 munud, tra bod menywod yn treulio 5 awr 40 munud.[114]

Canfu ymchwil Ampere Analysis mai ychydig iawn o chwaraewyr gemau (13-64 oed) oedd yn chwarae ar un math o ddyfais yn unig. Roedd 16% o chwaraewyr ffonau clyfar yn chwarae ar ffôn clyfar yn unig, roedd 14% o chwaraewyr consolau yn chwarae ar gonsolau yn unig a 5% o chwaraewyr gemau cyfrifiadurol yn chwarae ar gyfrifiaduron personol yn unig, naill ai ar-lein neu all-lein.[115] Mae Ampere yn rhagweld y bydd y DU yn gwario £5,388m ar gynnwys a gwasanaethau gemau yn 2023, gostyngiad o 0.2% yn 2022 (£5,398m). Disgwylir i'r gwariant ar wasanaethau ffonau symudol yn benodol gynyddu o £1,669m yn 2022 i £1,735m yn 2023, cynnydd o 4%. Fodd bynnag, mae Ampere yn rhagweld y bydd gwariant ar gonsolau yn gostwng 3%; o £2,901m yn 2022 i £2,819m yn 2023.[116]

[111] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2022 Ofcom: Arolwg craidd; *Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau 2022 Ofcom:* Arolwg Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein.
[112] Mae dyfeisiau'n cynnwys ffôn clyfar, consolau, dyfeisiau tabled, cyfrifiadur/gliniadur, penset VR, ap ar y teledu neu dechnoleg mae modd ei gwisgo.
[113] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2022 Ofcom: Arolwg craidd; *Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau 2022 Ofcom:* Arolwg Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein.
[114] Ampere Games – Consumer, Ch2 2021, Ch2 2022 a Ch2 2023, chwaraewyr: 13-64 oed, y DU.
[115] Ampere Games, Defnyddwyr, Ch2 2023, y DU, oedran: 13-64 oed, y DU.
[116] Ampere Games - Marchnadoedd

**Ffigur 37: Unigolion yn y DU sy'n chwarae gemau ar-lein**




*Ffynhonnell: 3-15 oed: Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o'r Cyfryngau 2022 Ofcom: Arolwg Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein. Sail: Pob plentyn 3-17 oed (5,861). Pobl 16 oed a hŷn: Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2022 Ofcom: Arolwg craidd. G3A. Wyt ti'n chwarae gemau ar-lein? (un cod). Sail: Pob oedolyn (3651)*

## Mae gan 23% o gartrefi gonsol gemau digidol yn unig

Yn gyffredinol, mae gan 39% o gartrefi yn y DU o leiaf un consol gemau.[117] Mae 35% o gartrefi sydd ag o leiaf un consol gemau yn defnyddio'r gyfres o Xbox Series X neu S, ac yna PlayStation 5 (24%) a Nintendo Switch (22%). Nid oes gan fersiynau digidol yn unig o gonsolau, fel PlayStation 5 neu Xbox Series S, ddisg optegol na gyriant a sy'n cael ei weithredu gan getrisen ac felly mae angen cysylltiad â'r rhyngrwyd i lawrlwytho neu ffrydio gemau digidol neu chwarae gemau ar-lein drwy wasanaeth tanysgrifio i gemau. Mae 13% o gartrefi â chonsolau gemau Xbox Series S, tra bod 22% gyda Series X; mae gan 11% y fersiwn digidol o PlayStation 5 ac mae gan 14% y rhifyn disg PlayStation 5.[118] Gyda chartrefi'n dewis consolau digidol yn unig, mae cysylltiad â'r rhyngrwyd yn dod yn bwysicach fyth ar gyfer chwarae gemau.

Canfu ymchwil Ampere Analysis mai'r prif gêm a gafodd ei chwarae gan chwaraewyr consol PlayStation neu Xbox ym mis Awst 2023 oedd *Fortnite*, a chwaraewyd gan 2.88 miliwn o chwaraewyr gemau yn y DU, ac yna *FIFA 23* (2.86 miliwn), *Grand Theft Auto V* (2.22 miliwn) a *Minecraft* (1.68 miliwn).[119]

## Mae 47% o chwaraewyr gemau ar-lein yn tanysgrifio i wasanaeth tanysgrifio i gemau

Mae gwasanaethau tanysgrifio i gemau yn amrywio o ran y math o wasanaeth maen nhw'n ei gynnig i ddefnyddwyr; maen nhw'n gallu cynnig gwasanaethau unigol neu luosog annibynnol, swyddogaethau aml-chwaraewr ar-lein, mynediad i gatalogau a chynnwys gemau, a'r gallu i ffrydio gemau trwy'r cwmwl.[120] Mae rhai tanysgrifiadau, fel EA Play ac Ubisoft+, yn caniatáu i ddefnyddwyr gael mynediad at gatalog o gemau; mae Ge-Force Now yn galluogi defnyddwyr i chwarae gemau yn y

---

[117] Traciwr Technoleg Ofcom 2023


[118] Traciwr Technoleg Ofcom 2023, Sail: lle mae gan yr aelwyd gonsol gemau.

[119] Ampere Games – Analytics, Awst 2023, y DU

[120] Dull o chwarae gemau fideo gan ddefnyddio gweinyddion pell mewn canolfannau data; nid oes angen lawrlwytho na gosod y gemau ar gyfrifiadur neu gonsol. Mae'r gwasanaethau ffrydio'n defnyddio cysylltiad rhyngrwyd i anfon y wybodaeth am gemau i ap neu borwr sydd wedi'i osod ar ddyfais y derbynnydd. Mae'r gêm yn cael ei rendro a'i chwarae ar y gweinydd pell, ond mae'r chwaraewr gemau yn gweld ac yn rhyngweithio â phopeth yn lleol ar ei ddyfais ei hun. - Digital trends, What is cloud gaming?, 29 Mawrth 2021.

cwmwl; ac mae tanysgrifiadau fel PlayStation Plus ac Xbox Game Pass yn darparu cyfuniad o fanteision fel swyddogaethau aml-chwaraewr ar-lein, catalogau gemau a chynnwys, a ffrydio trwy'r cwmwl, yn dibynnu ar yr haen tanysgrifio a brynwyd. Mae un o bob deg oedolyn yn y DU yn tanysgrifio i wasanaeth tanysgrifio i gemau. Mae dynion yn fwy tebygol na menywod i danysgrifio (12% o'i gymharu â 8%). Mae pobl 16-34 oed (18%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael o leiaf un tanysgrifiad i gemau (10%). Mae gan draean o chwaraewyr ar-lein danysgrifiad i gemau aml-chwaraewr ar-lein[121] fel PlayStation Plus, ac mae gan 24% o chwaraewyr ar-lein danysgrifiad i gemau cynnwys fel Xbox Games Pass. PlayStation Plus yw'r tanysgrifiad mwyaf poblogaidd, sy'n cael ei ddefnyddio gan 20% o chwaraewyr ar-lein yn y DU sy'n 16 oed a hŷn; mae 24% o chwaraewyr gemau ar-lein sy'n ddynion yn tanysgrifio i PlayStation Plus, o'i gymharu ag 16% o chwaraewyr gemau ar-lein sy'n fenywod.[122]

**Ffigur 38: Gwasanaethau tanysgrifio i gemau sy'n cael eu defnyddio gan chwaraewyr gemau ar-lein yn y DU sy'n 16 oed a hŷn**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2023. QE10: Yn ystod y 3 mis diwethaf, ydych chi neu unrhyw un arall yn eich cartref wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau tanysgrifio hyn i chwarae gemau? Nodyn: Mae Xbox Games Pass yn cynnwys y fersiynau ultimate/consol/cyfrifiadurol. 'Gwasanaeth ffrydio gemau e.e. Google Stadia, GeForce Now' 1% ddim yn cael ei ddangos ar y siart. Sail: 16 oed a hŷn: 855*

## Mae 34% o chwaraewyr gemau yn chwarae gemau VR gan ddefnyddio penset. PlayStation VR yw'r set penset VR fwyaf poblogaidd yn y DU o hyd[123]

Mae 3% o oedolion y DU yn chwarae gemau ar benset VR, ac mae pobl ifanc 16-24 oed yn fwy tebygol na phobl 55-64 oed o wneud hyn (9% o'i gymharu ag 1%).[124] Mae 17% o chwaraewyr gemau yn y DU yn defnyddio penset VR[125] wedi'i gysylltu, fel PlayStation VR (PS VR), ac mae 18% yn defnyddio penset heb ei gysylltu[126], fel y Meta Quest 2. Y penset PS VR sydd â'r nifer uchaf o chwaraewyr, sy'n cael eu defnyddio gan 12% o chwaraewyr gemau yn y DU, ac mae 8% o

[121] Naill ai PlayStation Plus, Xbox Live Gold neu Nintendo Switch Online
[122] Traciwr Technoleg Ofcom 2023
[123] Ampere Games, Defnyddwyr, Ch2 2023, y DU, oedran: 13-64 oed, y DU.
[124] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 202 2 Ofcom: Arolwg craidd.
[125] Mae pensetiau VR wedi'u cysylltu'n gofyn am gysylltiad cyson â dyfais brosesu allanol fel cyfrifiadur neu gonsol gemau fideo.
[126] Gall pensetiau heb eu cysylltu naill ai fod â chaledwedd pwrpasol gyda'r holl gydrannau angenrheidiol fel y sgrin, y prosesydd a'r synwyryddion sy'n rhan o'r set pen ei hun, neu gall defnyddwyr realiti rhithwir symudol atodi eu ffonau clyfar i'r cas penset.

chwaraewyr gemau wedi defnyddio penset Meta Quest.[127] Ymysg chwaraewyr gemau VR, mae 30% yn defnyddio penset PS VR, sydd 4 pwynt canran yn llai ers Ch2 2022, ac mae 21% yn defnyddio penset Meta Cuest, sydd 2 bwynt canran yn fwy. Mae'r broses o fabwysiadu pensetiau PS VR wedi bod yn araf, yn fyd-eang; mae gan lai na 6% o berchnogion PlayStation 4 benset PS VR (fersiwn gyntaf), ac mae gan lai na 2% o berchnogion PlayStation 5 benset PS VR2. Gall hyn fod ychydig yn uwch yn y DU nag ar gyfartaledd byd-eang.[128]

## Mae Candy Crush Saga yn cadw ei safle fel yr ap gemau mwyaf poblogaidd, ond nid yw'r gêm newydd, Royal Match, ymhell ar ei hôl hi

Mae 39% o ddefnyddwyr ffonau clyfar yn y DU sy'n 16 oed a hŷn yn defnyddio o leiaf un ap gemau ar eu ffôn clyfar.[129] *Candy Crush Saga* yw'r ap gemau mwyaf poblogaidd, yr oedd 2.5 miliwn o oedolion yn ei ddefnyddio ym mis Mai 2023. *Royal Match* (fel *Candy Crush*, gêm fideo pos sydd am ddim i'w chwarae) yw'r ail ap gemau mwyaf poblogaidd, sy'n cyrraedd bron i 2 filiwn o oedolion ym mis Mai 2023, ddwy flynedd ar ôl ei lansio. Gêm realiti estynedig (AR) *Pokémon GO* oedd y trydydd ap gemau mwyaf poblogaidd ymysg oedolion yn y DU.[130] Yn 2023, dywedodd 4% o oedolion Prydain eu bod yn chwarae gemau AR bob mis o leiaf.[131] Cafodd *Monopoly GO!,* ap gemau sy'n cyfuno elfennau o'r gêm fwrdd â lleoliadau newydd a rhyngweithio cymdeithasol i annog ffrindiau i chwarae gyda'i gilydd, ei lansio ym mis Ebrill 2023, ac erbyn mis Mai 2023, dyma'r degfed ap gemau mwyaf poblogaidd, gan gyrraedd 900k o oedolion.[132]

[127] Ampere Games, Defnyddwyr, Ch2 2023, y DU, oedran: 13-64 oed, y DU.
[128] Ampere Games, Defnyddwyr, Ch2 2022 & Ch2 2023, chwaraewyr gemau VR, oedran: 13-64 oed, y DU.
[129] Traciwr Technoleg Ofcom 2023
[130] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[131] IPA TouchPoints 2023 Superhub. Sail: GB, oedolion 18 oed a hŷn.
[132] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Monopoly GO!, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.


**Ffigur 39: Y deg prif ap gemau ar gyfer ffonau clyfar a dyfeisiau tabled, yn ôl cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU: Mai 2023**

| Safle yn ôl cyrhaeddiad Mai 2023 | Ap chwarae gemau | Cynulleidfa oedolion mewn mis | | | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2023 | Amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio fesul diwrnod yn ôl defnyddiwr yn ystod y mis (munudau:eiliadau) | | | Cyrhaeddiad oedolion bob dydd ar gyfartaledd | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mai 2022 | Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | | Mai 2022 | Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | Mai 2022 | Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall |
| **1** | **Candy Crush Saga** | 2.13m | 2.54m | +410k | 5.3% | 15:44 | 23:46 | +08:02 | 0.96m | 1.13m | +0.16m |
| **2** | **Royal Match** | 0.70m | 1.98m | + 1.28m | 4.1% | 12:21 | 10:27 | -01:54 | 0.21m | 0.76k | +0.55m |
| **3** | **Pokémon GO** | 1.62m | 1.87m | +250k | 3.9% | 14:45 | 27:35 | +12:50 | 0.72m | 1.00m | +0.29m |
| **4** | **Roblox** | 1.26m | 1.63m | +370k | 3.4% | 14:32 | 14:53 | +00:21 | 0.28m | 0.37m | +0.08m |
| **5** | **Solitaire - Grand Harvest** | 1.47m | 1.52m | +50k | 3.2% | 12:44 | 17:08 | +04:24 | 0.61m | 0.71m | +0.09m |
| **6** | **Coin Master** | 1.03m | 1.45m | +420k | 3.0% | 07:40 | 11:33 | +03:53 | 0.39m | 0.71m | +0.32m |
| **7** | **Dominoes - Classic Edition** | - | 1.44m | - | 3.0% | - | 00:19 | - | - | 0.09m | - |
| **8** | **Candy Crush Soda Saga** | 0.75m | 1.13m | +382k | 2.4% | 17:15 | 14:46 | -02:29 | 0.30m | 0.46m | +0.16m |
| **9** | **Wordscapes** | 0.88m | 1.11m | +227k | 2.3% | 15:58 | 13:47 | -02:11 | 0.42m | 0.42m | +0.003m |
| **10** | **Monopoly GO!** | 0 | 0.90m | +0.90m | 1.9% | 0 | 11:51 | + 11:51 | 0 | 0.29m | +0.29m |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap ffôn symudol, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Mae Dash for Dominoes - Classic Edition yn cynrychioli na adroddwyd unrhyw ddata yn Ipsos iris ar gyfer yr ap ym mis Mai 2022. Mae cyrhaeddiad Monopoly GO! ar gyfer mis Mai 2022 yn 0 gan iddo lansio ym mis Ebrill 2023. Mae'r amser a dreulir ar gyfartaledd yn seiliedig ar yr amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio fesul defnyddiwr mewn mis wedi'i rannu â nifer y diwrnodau mewn mis.*

Mae naw o'r deg ap gemau gorau yn fwy poblogaidd ymysg menywod na dynion. Ym mis Mai 2023, defnyddiodd 804k o fenywod ap *Candy Crush Soda Saga*, sef 71% o gyfanswm ei ddefnyddwyr sy'n oedolion yn y DU y mis hwnnw. *Pokémon GO* oedd yr unig ap yn y deg ap mwyaf poblogaidd yr oedd ei gynulleidfa yn cynnwys ychydig mwy o ddynion na menywod.[133]

**Ffigur 40: Y deg ap gemau mwyaf poblogaidd yn ôl cyrhaeddiad oedolion yn y DU, cyfansoddiad y gynulleidfa, yn ôl rhywedd: Mai 2023**




*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap ffôn symudol, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.*
*Nodyn: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom.*

## Roblox yw'r ap gemau mwyaf poblogaidd ymysg plant 8-12 oed ar-lein


Yn unol ag ymchwil Ofcom ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn 2022, mae ein hastudiaeth beilot Mesur Goddefol Ar-lein i Blant yn dangos bod 93% o blant ar-lein rhwng 8 a 12 oed wedi chwarae gêm drwy ap yn ystod ein cyfnod gwaith maes ymchwil. Yr ap gemau mwyaf poblogaidd oedd *Roblox*, a oedd yn cael ei chwarae gan bron i ddwy ran o dair (62%) o blant ar-lein yn y DU sy'n 8-12 oed (64% wedi defnyddio gwefan neu ap *Roblox*). Roedd 62% o blant 8-12 oed sy'n defnyddio dyfeisiau tabled wedi defnyddio gwefan neu ap *Roblox* ac roedd 56% o ddefnyddwyr ffonau clyfar hefyd wedi defnyddio'r gwasanaeth.[134] Mae *Roblox* hefyd ar gael ar yr Xbox, nad oedd yn ddyfais a fesurwyd yn ein hastudiaeth, ac ym mis Hydref 2023 roedd ar gael ar PlayStation 4 a 5. Canfu ymchwil Ampere Analysis fod *Roblox* yn cael ei chwarae gan 0.57 miliwn o chwaraewyr consolau Xbox y DU ym mis Awst 2023.[135] Canfu data Ipsos iris fod 2 filiwn (4%) o oedolion ar-lein yn y DU wedi defnyddio *Roblox* drwy'r wefan neu'r ap.[136] Ar gyfartaledd, fe wnaeth defnyddwyr 8-12 oed gwefan neu ap *Roblox* dreulio 26 munud y dydd ar y gwasanaeth. Mae merched yn treulio mwy o amser na bechgyn – 30 munud a 21 munud. Roedd plant 8-10 oed yn treulio 32 munud y dydd, ac roedd plant 11-12 oed ar-lein yn treulio 17 munud y dydd ar gyfartaledd.

Mae Ffigur 41 yn gynrychioliad gweledol o ddefnydd cyfranogwr 9 oed benywaidd o apiau ar iPad yn unig. Mae hi'n chwarae *Roblox* a *Minecraft*. Gwelsom fod 9% o'r cyfranogwyr yn ein hastudiaeth

[133] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[134] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant wedi'i fesur dros gyfnod o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.
[135] Ampere Games – Analytics, Awst 2023, y DU
[136] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Roblox, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

wedi defnyddio apiau *Roblox* a *Minecraft* yn ystod ein gwaith maes,[137] ond dylid nodi y gellir chwarae'r gemau hyn ar gonsolau, na chawsant eu mesur yn yr astudiaeth hon, felly efallai y bydd mwy o gyfranogwyr yn defnyddio y ddwy gêm yma. Defnyddiodd y ferch Duolingo yn ystod ei sesiwn iPad, gan hefyd ddefnyddio YouTube a Roblox. Mae gan Duolingo *Duolingo Game Hub*[138], gofod sy'n cynnwys gemau sy'n gysylltiedig â Duolingo, ac sydd ar gael yn Roblox. Mae Duolingo yn defnyddio Roblox i atgoffa dysgwyr i ddefnyddio'r ap ar gyfer eu gwers bob dydd. Yn ein henghraifft yn Ffigur 41, mae'n debygol bod y plentyn yn gwylio fideos sy'n ymwneud â *Roblox* ar YouTube oherwydd ei fod yn agos at ddefnydd Roblox, ac mae'n bosibl bod hyn wedi cynnwys gêm Duolingo Roblox.

**Ffigur 41: 'Diwrnod ym mywyd' defnyddiwr: Mae ap Apple iPad un cyfranogwr yn cael ei ddefnyddio dros 24 awr, merch 9 oed ddydd Sul 25 Mehefin 2023**




*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, merch 9 oed, y DU. Nodyn: defnydd o'r ap yn unig; mae ymweliadau â'r wefan ar y ddyfais yn cael eu heithrio.*

## Roedd cyrhaeddiad yr holl apiau gemau eraill a fesurwyd yn ein hastudiaeth yn 15% neu lai ymysg plant 8-12 oed ar-lein

*Magic Tiles 3*, gêm gerddoriaeth lle mae chwaraewyr yn pwyso allweddi piano ar yr adeg iawn i berfformio gwahanol ganeuon, oedd yr ail ap gemau mwyaf poblogaidd ymysg plant 8-12 oed ar-lein (15%), ond ymhell y tu ôl i gyrhaeddiad *Roblox*. Cafodd ei chwarae ar ffonau clyfar yn bennaf, gyda 16% o blant 8-12 oed ar-lein yn defnyddio'r gêm ar ffonau clyfar, a 5% yn defnyddio dyfais tabled. *Toca Life World*, gêm gyda stori'n ymwneud â chreu'r byd, oedd yr ap sy'n cyrraedd y trydydd uchaf, ac roedd yn fwy poblogaidd gyda merched 8-12 oed ar-lein (23%) na bechgyn (4%); ar gyfartaledd, treuliodd plant 8-12 oed 6 munud y dydd ar yr ap. Bechgyn oedd yn defnyddio apiau gemau pêl-

[137] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cafodd 17 o blant eu mesur am dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.
[138] Roblox, Duolingo Game Hub, cyrchwyd 25 Hydref 2023.

droed yn bennaf; roedd 71% o ddefnyddwyr ap pêl-droed *FIFA* 8-12 oed yn fechgyn, ac roedd 77% o ddefnyddwyr ap *Madfut 23* yn fechgyn.[139]

**Ffigur 42: Y deg prif ap gemau ymysg plant ar-lein: 2023**

| Ap chwarae gemau | Plant 8-12 oed ar-lein | Safle | Ap chwarae gemau | Plant 15-17 oed Mai 2023 | Cyrhaeddiad pobl 15-17 oed ar-lein ym mis Mai 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Roblox** | 62% | 1 | **Roblox** | 184k | 8.4% |
| **Magic Tiles 3** | 15% | 2 | **Dominoes – Classic** | 141k | 6.5% |
| **Toca Life World** | 14% | 3 | **Chess – Play and Learn** | 136k | 6.3% |
| **Minecraft** | 10% | 4 | **Pokémon GO** | 132k | 6.1% |
| **FIFA Soccer** | 9% | 5 | **8 Ball Pool** | 116k | 5.3% |
| **Among Us** | 9% | 6 | **Clash of Clans** | 108k | 5.0% |
| **Subway Surfers** | 8% | 7 | **Coin Master** | 77k | 3.5% |
| **Madfut 23** | 8% | 8 | **Candy Crush Saga** | 68k | 3.1% |
| **Football Strike** | 6% | 9 | **Clash Royale** | 66k | 3.0% |
| **Pokémon GO** | 6% | 10 | **BitLife** | 54k | 2.5% |
| **Stumble Guys** | 6% | - | | | |

*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio ap o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, ap ffôn symudol/dyfais tabled, Mai 2023, y DU. Nodyn: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Oherwydd bod y sail yn fach ar gyfer plant 8-12 a 15-17 oed, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.*

## Addysg

Mae gwasanaethau addysg yn amrywiol ac yn dibynnu ar amrywiaeth o fodelau busnes i gynhyrchu refeniw. Mae'r broses o gylchredeg arian yn cynnwys hysbysebu'n bennaf ar fersiynau am ddim o'r gwasanaeth a thanysgrifiadau, gyda swyddogaethau ychwanegol a phrofiad heb hysbysebion.

[139] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, ap yn unig, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 162. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mims Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.

## Times Tables Rockstars a Duolingo oedd y gwasanaethau addysgol mwyaf poblogaidd a ddefnyddiwyd gan blant 8-12 oed ar-lein

Mae astudiaeth beilot mesur goddefol ar-lein ein plant yn dangos bod saith o bob deg plentyn 8-12 oed ar-lein wedi defnyddio gwasanaeth addysgol yn ystod ein cyfnod gwaith maes. Y gwasanaethau addysgol mwyaf poblogaidd oedd Times Tables Rockstars (14%) a Duolingo (10%). Canfu ein hymchwil wahaniaethau rhwng oedrannau ar gyfer rhai gwasanaethau, megis Times Tables Rockstars, a oedd yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan blant 8-10 oed ar-lein (21%) na plant 11 a 12 oed ar-lein (3%) a Blooket (a llwyfan dysgu ar ffurf gêm lle mae athrawon yn cynnal gemau trwy setiau o gwestiynau gyda myfyrwyr yn ateb ar eu dyfeisiau eu hunain), yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio gan blant 11-12 oed ar-lein (12%) na phlant 8-10 ar-lein (2%).[140]

Roedd 7% o blant 8-12 oed ar-lein wedi defnyddio gwefan BBC Bitesize yn ystod yr astudiaeth beilot.[141] Canfu Traciwr Perfformiad y BBC fod dros hanner (54%) o blant 8-11 oed a 60% o blant 12-16 oed yn dweud eu bod yn defnyddio BBC Bitesize ar gyfer gwaith ysgol neu waith cartref.[142]

**Ffigur 43: Y pum prif wasanaeth addysg ymysg plant ar-lein: 2023**

| Safle | Gwasanaeth | Cyrhaeddiad 8-12 oed ar-lein | Cyrhaeddiad plant 8-10 oed ar-lein | Cyrhaeddiad plant 11-12 oed ar-lein |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Times Tables Rockstars | 14% | 21% | 3% |
| 2 | Duolingo | 10% | 7% | 14% |
| 3 | BBC Bitesize | 7% | 9% | 5% |
| 4 | Blooket | 6% | 2% | 12% |
| 5 | Quora | 5% | 6% | 3% |
| - | Purple Mash | 5% | 6% | 3% |
| - | WikiHow | 5% | 3% | 8% |
| - | Ap Google classroom | 5% | - | 12% |

| Safle | Gwasanaeth | Plant 15-17 oed Mai 2023 | Cyrhaeddiad pobl 15-17 oed ar-lein ym mis Mai 2023 |
|---|---|---|---|
| 1 | Wikimedia | 1.0m | 46% |
| 2 | Quora | 909k | 40% |

[140] Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 8-10 oed: 97, 11-12 oed: 65. Cyrhaeddiad yn seiliedig ar 17 o blant yn defnyddio gwasanaeth o leiaf unwaith dros gyfnod mesur o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 ynghyd â chanlyniadau 145 o blant a gafodd eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Nid yw'r data wedi'i bwysoli. Oherwydd bod y sail yn fach, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.
[141] Ibid.
[142] Traciwr Ofcom o Berfformiad y BBC 2022/23.

| Safle | Gwasanaeth | Plant 15-17 oed Mai 2023 | Cyrhaeddiad pobl 15-17 oed ar-lein ym mis Mai 2023 |
|---|---|---|---|
| 3 | **The Student Room** | 409k | 18% |
| 4 | **WikiHow** | 350k | 15% |
| 5 | **DuoLingo** | 311k | 14% |

*Ffynhonnell: Mesur Goddefol Plant Ipsos Ofcom 2023, oedran: 8-12 oed, y DU. Sail: 8-10 oed: 97, 11-12 oed: 65. Mae cyrhaeddiad yn seiliedig ar: 17 o blant yn cael eu mesur am dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023 a chafodd 145 o blant eu mesur am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Ewch i'r adran Fethodoleg i gael rhagor o fanylion. / Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Adroddiad safleoedd, Categori: Addysg, Mai 2023, oedran: 15-17 oed, y DU. Nodyn: Rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom. Oherwydd bod y sail yn fach ar gyfer plant 8-12 a 15-17 oed, dylid trin data fel data dangosol yn unig ac nid fel data cynrychioliadol.*

## Newyddion

Mae rhai gwasanaethau newyddion ar-lein yn cael eu darparu gan ddarparwyr newyddion traddodiadol sy'n cael eu darlledu neu eu hargraffu, a gall eraill fod ar-lein yn wreiddiol. Mae rhai gwasanaethau, fel Apple News, yn cyd-gasglu newyddion, ac yn dod â straeon newyddion o amrywiaeth o ffynonellau at ei gilydd.

Mae gwasanaethau newyddion ar-lein yn cynhyrchu eu refeniw yn bennaf drwy hysbysebu, er bod tanysgrifiadau wedi tyfu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gyda lleiafrif sylweddol o refeniw hysbysebu newyddion ar-lein. Roedd hysbysebion digidol ar gyfer brandiau newyddion yn y DU yn £635m yn 2022, yn ôl AA/WARC. Y BBC yw'r unig sefydliad newyddion yn y DU nad yw'n defnyddio'r naill fodel busnes na'r llall, gan ei fod yn cael ei gefnogi'n llawn gan ffi'r drwydded.

### Y BBC yw'r gwasanaeth newyddion ar-lein sydd â'r cyrhaeddiad uchaf ar draws holl wledydd y DU

Ar ddiwrnod arferol, fe wnaeth bron i un o bob tri (31%) o oedolion ar-lein yn y DU ddefnyddio gwasanaeth newyddion ar-lein y BBC ym mis Mai 2023, i lawr 6 phwynt canran o'r un cyfnod yn 2022 (37%). Y tu ôl i'r BBC oedd gwasanaeth cyd-gasglu newyddion Apple, yr oedd 20% o oedolion ar-lein y DU yn ei ddefnyddio bob dydd, yn unol â mis Mai 2022, ac yna'r Daily Mail (Mail Online), a oedd yn cael ei ddefnyddio gan 10%; The Sun, a oedd yn cael ei ddefnyddio gan 8%; a The Guardian, gan 7%. Roedd wyth o'r deg prif wasanaeth newyddion ym mis Mai 2022 wedi gweld cyrhaeddiad cynulleidfa oedolion yn gostwng dros y flwyddyn. Roedd y gwasanaethau newyddion lleol Metro (Mai 2023: 11.1 miliwn, Mai 2022: 15.2m (-4.1 miliwn o un flwyddyn i'r llall) a Manchester Evening News (Mai 2023: 14.7 miliwn, Mai 2022: 9.6m (-5.1 miliwn o flwyddyn i flwyddyn) wedi gweld gostyngiad serth yn nifer yr oedolion sy'n defnyddio eu gwasanaethau, ac roedd y ddau wedi disgyn allan o'r deg mwyaf poblogaidd ym mis Mai 2023.[143]

Er bod y BBC, The Sun a Mail Online i gyd yn cael lle amlwg ym mhob un o bedair gwlad y DU (gweler Ffigur 44 isod), roedd gan deitlau cenedlaethol lefelau cyrhaeddiad uchel o hyd ar draws y gwledydd datganoledig. Ym mis Mai 2023, Wales Online oedd yr ail wasanaeth newyddion mwyaf

[143] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Adroddiad safleoedd, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw mynediad at frandiau newyddion drwy Apple News wedi'i gynnwys.

pellgyrhaeddol yng Nghymru, gan gyrraedd 52% o oedolion ar-lein yng Nghymru. Yn yr un modd, Belfast Live (58%) a Belfast Telegraph (52%) oedd y gwasanaethau newyddion ail a thrydydd uchaf ymysg oedolion ar-lein yng Ngogledd Iwerddon, a'r Daily Record (42%) a The Scotsman (28%) oedd y pedwerydd a'r degfed gwasanaeth newyddion mwyaf poblogaidd ymysg oedolion ar-lein yn yr Alban. [144]

Er gwaethaf y rhan fwyaf o'i gynnwys y tu ôl i wal dalu, roedd The Telegraph yn ymddangos yn y deg mwyaf poblogaidd ar draws y DU (nawfed), yn Lloegr (nawfed) a Chymru (degfed).[145]

[144] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2022 a Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw mynediad at frandiau newyddion drwy Apple News wedi'i gynnwys.
[145] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, The Telegraph, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw mynediad at frandiau newyddion drwy Apple News wedi'i gynnwys.

**Ffigur 44: Cyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU i'r deg prif wasanaeth newyddion ar-lein, yn ôl gwlad yn y DU: Mai 2023**

| | Y DU | | | | Lloegr | | Yr Alban | | Cymru | | Gogledd Iwerddon | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle Mai 2023** | **Brand** | **Cynulleidfa Mai 2022** | **Cynulleidfa Mai 2023** | **Newid o un flwyddyn i'r llall** | **Brand** | **Cynulleidfa Mai 2023 (Newid o un flwyddyn i'r llall ym mis Mai)** | **Brand** | **Cynulleidfa Mai 2023 (Newid o un flwyddyn i'r llall ym mis Mai)** | **Brand** | **Cynulleidfa Mai 2023 (Newid o un flwyddyn i'r llall)** | **Brand** | **Cynulleidfa Mai 2023 (Newid o un flwyddyn i'r llall ym mis Mai)** |
| 1 | BBC | 35.6m | 33.5m | -2.0m | BBC | 28.1m (-1.7m) | BBC | 2.8m (-0.2m) | BBC | 1.6m (-0.1m) | BBC | 1.0m (-0.1m) |
| 2 | Mail Online | 22.8m | 23.9m | +1.1m | Mail Online | 20.2m (+0.9m) | The Sun | 2.0m (-0.2m) | Wales Online | 1.2m (-0.2m) | Belfast Live | 0.7m (+0.02m) |
| 3 | The Sun | 24.4m | 21.9m | -2.4m | The Sun | 18.3m (-1.9m) | Mail Online | 2.0m (+0.1m) | Mail Online | 1.1m (+0.1m) | Belfast Telegraph | 0.6m (+0.02m) |
| 4 | Mirror | 22.4m | 20.0m | -2.4m | Mirror | 16.9m (-1.9m) | Daily Record | 1.7m (-0.1m) | The Sun | 1.0m (-0.2m) | Mail Online | 0.6m (-0.03m) |
| 5 | Apple News | 17.7m | 18.7m | +1.0m | Apple News | 16.0m (+0.8m) | Apple News | 1.6m (+0.2m) | Mirror | 0.9m (-0.2m) | The Sun | 0.6m (-0.1m) |
| 6 | The Independent | 17.8m | 17.5m | -0.3m | The Guardian | 14.7m (-1.8m) | The Independent | 1.6m (+0.05m) | The Independent | 0.9m (-0.003m) | Mirror | 0.6m (-0.1m) |
| 7 | The Guardian | 19.6m | 17.1m | -2.5m | The Independent | 14.7m (-0.3m) | Mirror | 1.6m (-0.2m) | The Guardian | 0.7m (-0.2m) | The Independent | 0.5m (-0.01m) |
| 8 | Sky News | 13.1m | 14.2m | +1.1m | Sky News | 12.0m (+0.9m) | The Guardian | 1.3m (-0.3m) | Sky News | 0.7m (+0.1m) | Apple News | 0.5m (+0.04m) |
| 9 | The Telegraph | 12.5m | 13.4m | +0.8m | The Telegraph | 11.4m (+1.0m) | Sky News | 1.1m (+0.1m) | Apple News | 0.7m (-0.01m) | Sky News | 0.4m (-0.01m) |
| 10 | Daily Express | 15.4m | 12.7m | -2.7m | Daily Express | 10.7m (-2.2m) | The Scotsman | 1.1m (-0.3m) | The Telegraph | 0.6m (+0.04m) | The Guardian | 0.4m (-0.2m) |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Adroddiad safleoedd, Categori: Newyddion, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw mynediad at frandiau newyddion drwy Apple News wedi'i gynnwys.*

# Manwerthu

Mae gwasanaethau manwerthu ar-lein yn caniatáu i ddefnyddwyr brynu nwyddau neu wasanaethau yn uniongyrchol o wefan neu ap. Mae defnyddwyr yn aml yn gallu pori, chwilio a thalu am gynnyrch drwy'r gwasanaeth. Mae rhai gwasanaethau manwerthu hefyd yn caniatáu i ddefnyddwyr adolygu cynnyrch a phostio negeseuon. Mae marchnadoedd ar-lein fel eBay ac Etsy yn caniatáu i ddefnyddwyr brynu a gwerthu nwyddau neu wasanaethau. Maent yn aml yn caniatáu i ddefnyddwyr neu ddarparwyr greu tudalennau sy'n hysbysebu eu cynnyrch. Gall defnyddwyr yn aml chwilio am gynnwys ac anfon negeseuon uniongyrchol at ddefnyddwyr eraill. Mae gwasanaethau manwerthu yn cynhyrchu refeniw drwy amrywiaeth o ffrydiau refeniw gan gynnwys gwerthu, croesawu gwerthwyr trydydd parti, tanysgrifiadau a hysbysebu. Canfu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod gwerthiannau ar y rhyngrwyd yn cyfrif am 25% o gyfanswm y gwerthiannau manwerthu yn y DU yn ystod ail chwarter 2023 – gostyngiad o 1 pwynt canran o un flwyddyn i'r llall (Ch2 2022: 26%).[146]

## Amazon yw prif fanwerthwr ar-lein y DU o hyd, ond cwmni newydd Temu oedd â'r trydydd cyrhaeddiad uchaf bum mis ar ôl ei lansio yn y DU

Fe wnaeth 87% o oedolion ar-lein y DU ddefnyddio Amazon ym mis Mai 2023, a 25 mlynedd ers ei lansio yn y DU,[147] mae'r gwasanaeth yn arweinydd sylweddol (23 pwynt canran) dros y gwasanaeth manwerthu mwyaf poblogaidd nesaf, eBay, gyda 64% o oedolion y DU yn defnyddio Amazon ym mis Mai 2023. Amazon hefyd oedd y gwasanaeth manwerthu lle treuliodd oedolion ar-lein y DU y rhan fwyaf o'u hamser ar gyfartaledd ym mis Mai 2023 (2 awr 27 munud fesul defnyddiwr).[148] Dywedodd Amazon fod cyfanswm y refeniw ar gyfer ei weithgareddau yn y DU, sy'n cynnwys manwerthu, tanysgrifiadau a gwasanaethau busnes i fusnes, yn £24bn yn 2022 (2021: £23bn).[149]

Wedi'i lansio yn y DU ym mis Ebrill 2023, fe wnaeth marchnad ar-lein Temu – sydd â'i bencadlys yn yr Unol Daleithiau ond yn cael ei weithredu gan y cwmni e-fasnach PDD Holdings o Tsiena – brofi twf cyflym yng nghyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU wrth iddo ddenu 13.8 miliwn o ddefnyddwyr (29% o gyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU) mewn ychydig llai na dau fis ar ôl ei lansio. Nid yw'n ymddangos bod yr un demograffig yn gyrru'r cyrhaeddiad: Temu oedd â'r cyrhaeddiad uchaf ar gyfer y grŵp oedran 35-44 (31% cyrhaeddiad ar-lein, 2.6 miliwn o ddefnyddwyr) a'r isaf ar gyfer y grŵp oedran 25-34 (26% cyrhaeddiad ar-lein, 2.3 miliwn o ddefnyddwyr) ym mis Mai 2023; roedd 33% o fenywod ar-lein y DU wedi defnyddio'r gwasanaeth (8.0 miliwn) ac roedd 24% (5.8 miliwn) o ddynion ar-lein yn y DU yn gwneud yr un fath. Roedd y cyrhaeddiad uchaf (32%, 701K o ddefnyddwyr) yng Nghymru, o blith gwledydd y DU, ac roedd yr isaf yng Ngogledd Iwerddon (27%, 344K o ddefnyddwyr) yn yr un mis.[150]

Mae Temu yn canolbwyntio ar gynnyrch gwerth ac yn darparu cludiant am ddim o Tsieina ar bron pob archeb, a gall ei boblogrwydd fod oherwydd y cynnydd mewn costau byw yn y DU.[151] Bum mis ers lansio Temu yn y DU, dyma oedd y trydydd gwasanaeth manwerthu ar-lein mwyaf poblogaidd, gyda 44% (21.2 miliwn) o oedolion ar-lein y DU yn defnyddio'r gwasanaeth ym mis Awst 2023, a

---

[146] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gwerthiannau ar y rhyngrwyd fel canran o gyfanswm y gwerthiannau manwerthu (%), Mai 2023.
[147] Amazon, Amazon celebrates most popular UK innovations to mark 25th anniversary, 18 Medi 2023
[148] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Amazon ac Ebay, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[149] Amazon News, 2022: Amazon's Economic Impact in the UK, 1 Mehefin 2023
[150] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Temu, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[151] Reuters, China's e-commerce discount race to the bottom puts incumbents under pressure, 26 Medi 2023

phob defnyddiwr yn gwario mwy nag awr ar gyfartaledd ar y gwasanaeth yn y mis hwnnw (1 awr 9 munud). Roedd yn ymddangos bod twf Temu wedi sefydlogi erbyn mis Awst 2023, gan fod cyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU yn 44%, ar ôl cyrraedd 45% y mis blaenorol.[152] Ym mis Mai 2023, roedd 32% o ddefnyddwyr Amazon hefyd wedi defnyddio Temu; erbyn mis Awst 2023, roedd y ffigur hwn wedi cynyddu i 48%.[153] Amazon oedd y gwasanaeth mwyaf poblogaidd o hyd ym mis Awst 2023 gydag 88% (41.9 miliwn) o gyrhaeddiad oedolion ar-lein yn y DU, ac yna eBay (64%, 30.7 miliwn).[154]

Er mai Amazon yw'r brand manwerthu sy'n cael y nifer fwyaf o ymweliadau ar draws pob grŵp oedran, mae poblogrwydd brandiau manwerthu eraill yn amrywio yn ôl oedran. Mae gwasanaethau danfon bwyd ar-lein a marchnadoedd ar-lein ail-law yn fwy poblogaidd gyda grwpiau oedran iau: Mae Uber Eats yn y pumed safle ar 32% (1.7 miliwn) o ran cyrhaeddiad ar-lein ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed, ac roedd Vinted – marchnad ar-lein yn bennaf ar gyfer dillad ail-law ac ategolion – yn wythfed (cyrhaeddiad ar-lein o 30%, 1.6 miliwn) ym mis Mai 2023. Ar y llaw arall, nid oedd unrhyw wasanaethau danfon bwyd ar-lein na marchnadoedd ar-lein ail-law yn y deg gwasanaeth mwyaf poblogaidd ar gyfer pobl dros 54 oed ym mis Mai 2023. Mae manwerthwyr bwyd traddodiadol yn fwy poblogaidd gyda grwpiau oedran hŷn, gyda Tesco (y pedwerydd safle, cyrhaeddiad ar-lein o 37%, 6.3 miliwn), Marks and Spencer (y pumed safle, cyrhaeddiad ar-lein o 33%, 5.7 miliwn), ASDA (wythfed safle, cyrhaeddiad ar-lein o 27%, 4.7 miliwn), Sainsbury's (nawfed safle, cyrhaeddiad ar-lein o 25%, 4.3 miliwn) a Lidl y DU (degfed safle, cyrhaeddiad ar-lein o 25%, 4.3 miliwn) yn ymddangos yn y deg brand manwerthu mwyaf poblogaidd i bobl dros 54 oed. Tesco oedd yr unig siop nwyddau i ymddangos yn y deg mwyaf poblogaidd ar gyfer pobl 18-24 oed (seithfed safle, cyrhaeddiad ar-lein o 31%, 1.6 miliwn).[155]

---

[152] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Temu, Mai, Gorffennaf ac Awst 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[153] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Adroddiad Traws-Safle, Mai ac Awst 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.
[154] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Awst 2023, oedolion: 18 oed a hŷn, y DU.
[155] Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU.

**Ffigur 45: Y deg brand manwerthu mwyaf poblogaidd ymysg oedolion ar-lein yn y DU: Mai 2023**

| Safle Mai 2023 | Brand manwerthu | Cyrhaeddiad oedolion ar-lein ym mis Mai 2023 | Cynulleidfa oedolion ar-lein ym mis Mai 2022 | Cynulleidfa oedolion ar-lein ym mis Mai 2023 | Newid o un flwyddyn i'r llall | Amser cyfartalog a dreuliwyd ym mis Mai 2022 fesul ymwelydd (oriau:munudau) | Amser cyfartalog a dreuliwyd ym mis Mai 2023 fesul ymwelydd (oriau:munudau) | Newid o un flwyddyn i'r llall (oriau:munudau) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Amazon | 87% | 41.9m | 41.4m | - 0.4m | 02:14 | 02:27 | + 00:13 |
| 2 | eBay | 64% | 31.3m | 30.5m | - 0.8m | 01:47 | 01:45 | - 00:03 |
| 3 | Apple | 44% | 21.3m | 20.9m | - 0.4m | 00:19 | 00:21 | + 00:02 |
| 4 | Tesco | 39% | 16.9m | 18.4m | + 1.6m | 00:26 | 00:25 | - 00:02 |
| 5 | Argos | 34% | 16.5m | 16.1m | - 0.4m | 00:11 | 00:11 | + 00:00 |
| 6 | ASDA | 30% | 10.9m | 14.5m | + 3.6m | 00:21 | 00:22 | + 00:02 |
| 7 | Temu | 29% | 0 | 13.8m | + 13.8m | 0 | 00:35 | + 00:35 |
| 8 | Etsy | 27% | 12.6m | 13.0m | + 0.4m | 00:21 | 00:16 | - 00:05 |
| 9 | Marks & Spencer | 26% | 11.5m | 12.4m | + 0.9m | 00:13 | 00:19 | + 00:06 |
| 10 | Boots | 25% | 12.6m | 12.0m | - 0.5m | 00:09 | 00:10 | + 00:01 |

*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Categori: Manwerthu a Masnach, Mai 2023, oedran: 18 oed a hŷn, y DU. Sylwer: rhestr wedi'i diffinio'n benodol gan Ofcom.*

# Y Profiad Ar-lein

Mae ein hymchwil ddiweddaraf i brofiadau pobl o fod ar-lein, a'u hagweddau at fod ar-lein, yn datgelu rhywfaint o ansicrwydd ymysg defnyddwyr. Maent yn rhoi gwerth mawr ar allu'r rhyngrwyd i gysylltu, i ddiddanu ac i addysgu.  Ac eto, mae niwed posibl yn bosib ar unrhyw adeg ac mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn dod ar ei draws mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae profiadau ar-lein yn amrywio, ac mae'r bennod hon yn dangos sut gall defnyddwyr o wahanol oedrannau, nodweddion a chefndiroedd gael profiadau ac agweddau ar-lein gwahanol iawn, er gwell neu er gwaeth.

## Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn edrych ar brofiadau oedolion a phlant o fod ar-lein ac mae'n canolbwyntio ar brofiadau cadarnhaol a buddiol pobl a'r cynnwys neu'r ymddygiad niweidiol maen nhw'n dod ar eu traws. Lle bo'n bosibl, mae'r bennod yn edrych ar brofiadau oedolion a phlant ar-lein ar wahân. [156]

[156] Oni nodir yn wahanol, bydd y ffigurau a nodir drwy gydol y bennod hon yn dod o ddata OET ton 4.

## Profiad ar-lein ymysg defnyddwyr y rhyngrwyd 13 oed a hŷn, yn ôl gwlad: 2023



### Lloegr

Mae 66% yn dweud bod ganddyn nhw gydbwysedd da â'u bywyd ar-lein ac all-lein.

Mae 68% yn dweud eu bod wedi dod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl.

Roedd 59% wedi cymryd unrhyw fath o gamau gweithredu o ganlyniad i ddod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar.

Mae 31% yn dweud eu bod yn fodlon â'r broses adrodd.

**Y prif enghreifftiau o niwed y mae pobl yn ei brofi**

Camwybodaeth (39%)

Iaith anweddus dramgwyddus cyffredinol (37%)

Sgamiau, twyll, gwe-rwydo (35%)



### Yr Alban

Mae 68% yn dweud bod ganddyn nhw gydbwysedd da â'u bywyd ar-lein ac all-lein.

Mae 68% yn dweud eu bod wedi dod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl.

Roedd 58% wedi cymryd unrhyw fath o gamau gweithredu o ganlyniad i ddod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar.

Mae 36% yn dweud eu bod yn fodlon â'r broses adrodd.

**Y prif enghreifftiau o niwed y mae pobl yn ei brofi**

Camwybodaeth (40%)

Sgamiau, twyll, gwe-rwydo (37%)

Iaith anweddus dramgwyddus cyffredinol (36%)



### Cymru

Mae 69% yn dweud bod ganddyn nhw gydbwysedd da â'u bywyd ar-lein ac all-lein.

Mae 63% yn dweud eu bod wedi dod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl.

Roedd 60% wedi cymryd unrhyw fath o gamau gweithredu o ganlyniad i ddod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar.

Mae 34% yn dweud eu bod yn fodlon â'r broses adrodd.

**Y prif enghreifftiau o niwed y mae pobl yn ei brofi**

Camwybodaeth (37%)

Iaith anweddus dramgwyddus cyffredinol (34%)

Sgiamiau, twyll, gwe-rwydo (32%)



### Gogledd Iwerddon

Mae 64% yn dweud bod ganddyn nhw gydbwysedd da â'u bywyd ar-lein ac all-lein.

Mae 71% yn dweud eu bod wedi dod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl.

Roedd 61% wedi cymryd unrhyw fath o gamau gweithredu o ganlyniad i ddod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar.

Mae 46% yn dweud eu bod yn fodlon â'r broses adrodd.

**Y prif enghreifftiau o niwed y mae pobl yn ei brofi**

Camwybodaeth (44%)

Sgiamiau, twyll, gwe-rwydo (39%)

Iaith anweddus dramgwyddus cyffredinol (38%)

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023.*

# Risgiau a manteision y rhyngrwyd

## Mae agweddau'n gymhleth ac yn aml yn amwys, gydag oedolion yn cydnabod manteision bod ar-lein ar lefel bersonol, ond yn llai felly i gymdeithas yn gyffredinol

Pan ofynnwyd iddynt ystyried effaith bod ar-lein, mae 71% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn cytuno bod manteision bod ar-lein yn drech na'r risgiau iddyn nhw'n bersonol. Dim ond 6% sy'n anghytuno, gyda bron i chwarter yn ansicr (23%).

I oedolion, mae bod ar-lein yn cael ei ystyried fel cyfle i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cysylltiad, addysg ac adloniant. Mae 70% yn cytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein wedi eu helpu i ddysgu sgil newydd, ac mae tri chwarter yn cytuno ei fod wedi'u helpu i ehangu eu dealltwriaeth neu eu barn am y byd. [157] Yn yr un modd, mae 77% o'r rheini sy'n defnyddio llwyfannau cyfathrebu ar-lein yn cytuno bod y rhain yn eu helpu i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu.[158] Roedd defnyddwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio amrywiaeth eang o safleoedd ac apiau yn tueddu i gytuno mwy â'r datganiadau na'r defnyddiwr cyffredin, gan awgrymu bod eu defnydd eang yn agor cyfleoedd i ymgysylltu mwy â'r manteision y mae bod ar-lein yn eu darparu.[159] Pan ofynnwyd iddynt am eu perthynas â bod ar-lein, roedd y rhan fwyaf o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo bod ganddynt gydbwysedd da rhwng eu bywyd ar-lein ac all-lein (67%).

Wrth ystyried effaith y rhyngrwyd ar gymdeithas, mae'r darlun yn newid rhywfaint. Er bod 40% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo ei fod yn dda i gymdeithas, a lleiafrif (15%) yn anghytuno, mae 45% yn dweud eu bod yn teimlo'n niwtral yn ei gylch. Mae'r ymateb niwtral hwn, gan bron i hanner oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn y DU, yn dangos bod cyfran sylweddol yn llai argyhoeddedig o'r manteision y mae'r rhyngrwyd yn eu cynnig i gymdeithas na'r manteision personol.

Mae rhai grwpiau o oedolion yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod y manteision yn drech na'r risgiau; mae hyn yn cynnwys dynion (74%), oedolion iau 25-34 oed (75%) a phobl ddeurywiol (81%). Mae rhai oedolion sy'n fwy tebygol o ddweud bod y manteision yn drech na'r risgiau yn llai tebygol o ddweud bod ganddynt gydbwysedd da rhwng eu bywyd ar-lein ac all-lein: dynion (64%), pobl 25-34 oed (61%) a phobl ddeurywiol (58%). Mae gwahaniaethau pellach ymysg grwpiau o oedolion yn amlwg wrth feddwl am yr effaith ar gymdeithas. Mae menywod (34%) ac oedolion sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ac yn effeithio arnynt (38%) yn llai tebygol o gytuno â'r datganiad '*mae'r rhyngrwyd yn dda i gymdeithas*'.

**Ffigur 46: Agweddau oedolion at fanteision a risgiau personol mynd ar-lein, fesul is-grŵp: 2023 'Mae manteision mynd ar-lein yn drech na'r risgiau' o'i gymharu â 'I mi'n bersonol, mae'r risgiau o fynd ar-lein yn drech na'r manteision.'**

[157] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2022, Ofcom: Arolwg craidd.

[158] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2022, Ofcom: Arolwg Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein. Mae 'llwyfannau cyfathrebu ar-lein' yn cynnwys pedwar categori: defnyddio apiau neu safleoedd i anfon negeseuon, sgwrsio neu wneud galwadau llais neu fideo; gwylio/llwytho cynnwys i fyny ar lwyfannau rhannu fideos; defnyddio apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol; a defnyddio apiau neu safleoedd ffrydio byw i wylio/rhannu cynnwys.

[159] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2022, Ofcom: Arolwg craidd; Arolwg Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein.

| **Grwpiau demograffig** | | **Mae'r manteision yn drech na'r risgiau** | **Niwtral** | **Mae'r risgiau'n drech na'r manteision** |
|---|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | Menywod | 67% | 27% | 6% |
| | Dynion | 74% | 19% | 6% |
| **Oedran** | 18-24 | 70% | 21% | 9% |
| | 25-34 | 75% | 20% | 5% |
| | 35-44 | 73% | 22% | 5% |
| | 45-54 | 73% | 22% | 5% |
| | 55+ | 66% | 27% | 7% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 72% | 22% | 6% |
| | Grŵp ethnig lleiafrifol | 59% | 29% | 13% |
| **Rhywioldeb** | Heterorywiol | 70% | 24% | 6% |
| | Hoyw neu lesbiad | 80% | 16% | 4% |
| | Deurywiol | 81% | 14% | 5% |
| **Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt** | Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt | 68% | 25% | 7% |
| | Dim cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt | 74% | 21% | 6% |

- Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 99%
- Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 99%

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C1.* 'I fi yn bersonol, mae manteision mynd ar-lein yn drech na'r risgiau' o'i gymharu â 'I mi'n bersonol, mae'r risgiau o fynd ar-lein yn drech na'r manteision.' Sail: *Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13,205).*

**Ffigur 47: Agweddau oedolion at elfennau cadarnhaol a negyddol y rhyngrwyd ar gyfer cymdeithas, fesul is-grŵp: 2023 'Mae'r rhyngrwyd yn dda i gymdeithas' o'i gymharu â 'Mae'r rhyngrwyd yn niweidiol i gymdeithas.'**

| Grwpiau demograffig | | Mae'r rhyngrwyd yn dda i gymdeithas | Niwtral | Mae'r rhyngrwyd yn niweidiol i gymdeithas |
|---|---|---|---|---|
| Rhywedd | Menywod | 34% | 50% | 16% |
| | Dynion | 47% | 40% | 14% |

| Grwpiau demograffig | | Mae’r rhyngrwyd yn dda i gymdeithas | Niwtral | Mae’r rhyngrwyd yn niweidiol i gymdeithas |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | 18-24 | 41% | 45% | 15% |
| | 25-34 | 42% | 45% | 13% |
| | 35-44 | 41% | 46% | 13% |
| | 45-54 | 41% | 44% | 15% |
| | 55+ | 39% | 45% | 16% |
| Ethnigrwydd | Gwyn | 40% | 45% | 15% |
| | Grŵp ethnig lleiafrifol | 42% | 44% | 14% |
| Rhywioldeb | Heterorywiol | 40% | 45% | 15% |
| | Hoyw neu lesbiad | 48% | 41% | 11% |
| | Deurywiol | 43% | 45% | 12% |
| Cyflwr sy’n cyfyngu neu’n effeithio arnynt | Cyflwr sy’n cyfyngu neu’n effeithio arnynt | 38% | 45% | 17% |
| | Dim cyflwr sy’n cyfyngu neu’n effeithio arnynt | 42% | 44% | 13% |

- Mae’n hysbysu’n uwch na’r cyfanswm gyda hyder o 99%
- Mae’n hysbysu’n is na’r cyfanswm gyda hyder o 99%


*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C1. ‘Mae’r rhyngrwyd yn dda i gymdeithas’ o’i gymharu â ‘Mae’r rhyngrwyd yn niweidiol i gymdeithas.’ Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13,205).*

## Mae plant yn dweud eu bod yn gyfathrebwyr hyderus ar-lein ac yn tueddu i gredu bod y rhyngrwyd yn dod â nifer o fanteision iddynt wrth iddynt dyfu i fyny.

Mae plant a’u rhieni yn tueddu i gytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn rhoi cyfleoedd a manteision i blant. Mae Plant a rhieni: adroddiad o’r defnydd o’r cyfryngau ac agweddau atynt gan Ofcom yn dangos bod plant 12-17 oed a rhieni plant yn y grŵp oedran hwn yn cydnabod manteision mynd ar-lein. Yn fwyaf nodedig, mae cyfrannau tebyg o blant 12-17 oed a rhieni pobl ifanc yr oedran hwn yn nodi bod mynd ar-lein yn gallu helpu gyda gwaith ysgol/gwaith cartref (81% o blant, i fyny o 77% yn 2021, 84% o rieni), adeiladu neu gadw cyfeillgarwch (68% o blant, i fyny o 65% yn 2021, 65% o rieni), a dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am faterion personol (60% o blant, 50% o rieni).[160]

**Ffigur 48: Barn plant a rhieni am fanteision y rhyngrwyd.**

[160] Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad o’r defnydd o’r cyfryngau ac agweddau atynt, 2023.




*Ffynhonnell: Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad o'r defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt, 2023. Arolwg Rhieni yn Unig ac arolwg Gwybodaeth a Dealltwriaeth Ar-lein. QC13. Gall bod ar-lein eich helpu i wneud llawer o bethau gwahanol. Gyda pha rai o'r rhain y mae'n eich helpu chi? Sail: Plant rhwng 12 a 17 oed sy'n mynd ar-lein (1,225) QP53. 'Gan feddwl am beth mae eich plentyn yn ei wneud ar-lein, pa rai o'r rhain – os o gwbl – sy'n berthnasol iddyn nhw? Mae bod ar-lein yn eu helpu i...' Sail: Rhieni plant rhwng 12 a 17 oed sy'n mynd ar-lein (1,004).*

I blant, teimlir bod y rhyngrwyd yn dod â manteision penodol sy'n eu helpu wrth iddynt dyfu i fyny a dysgu llywio'r byd. Canfu ymchwil Ofcom fod 81% o blant 8-15 oed yn cytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn caniatáu iddynt fod yn greadigol. Mae cyfran debyg (80%) yn cytuno eu bod '*yn gallu dod o hyd i help yn gyffredinol trwy fod ar-lein fel awgrymiadau bywyd da a thueddiadau ffasiwn*'; mae merched yn fwy tebygol na bechgyn (86% o'i gymharu â 75%), ac mae plant oed ysgol uwchradd yn fwy tebygol na phlant oed ysgol gynradd (87% o'i gymharu â 73%) o gytuno â'r datganiad hwn. Mae'r rhan fwyaf o blant 8-15 oed hefyd yn cytuno bod "*bod ar-lein yn fy helpu i wella yn y pethau rwy'n hoffi eu gwneud*" (86%).[161]

Gan feddwl yn fwy penodol am fanteision defnyddio apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol, mae 67% o blant 8-17 oed yn dweud bod y mathau hyn o lwyfannau yn gwneud iddyn nhw deimlo'n hapus *drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser*, ac roedd 66% yn meddwl bod eu defnyddio yn eu helpu i aros yn agos at eu ffrindiau *drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser*. [162]


Gall bod ar-lein hefyd roi cyfle i blant gyfathrebu, yn gyhoeddus ac yn breifat. Canfu astudiaeth Ofcom ar gyfathrebu ar-lein ymysg plant fod plant 11-18 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus wrth gyfathrebu ar-lein yn hytrach na wyneb yn wyneb (71% o'i gymharu â 53%).[163] Roedd astudiaeth ddiweddar gyda phlant 8-15 oed yn edrych ymhellach ar hyder plant i gyfathrebu ar-lein; canfu fod lefelau hyder yn amrywio ymysg plant 8-15 oed yn dibynnu ar bwy maent yn cyfathrebu ar-lein â nhw. Mae hanner y grŵp oedran hwn yn cytuno eu bod yn 'teimlo'n hyderus wrth gyfathrebu'n gyhoeddus ar-lein, fel siarad ac ysgrifennu ar negeseuon, diweddaru statws neu wneud sylwadau' (50%), ac mae dwy ran o dair yn cytuno eu bod yn "*teimlo'n hyderus yn cyfathrebu'n breifat ar-lein, fel siarad ac ysgrifennu mewn sgyrsiau grŵp neu Messenger*" (66%). Mae lefelau hyder yn cynyddu gydag oedran; mae plant oed ysgol uwchradd yn fwy tebygol na'r rheini o oedran ysgol gynradd o gytuno eu bod yn teimlo'n hyderus wrth gyfathrebu'n gyhoeddus (59% o'i gymharu â 41%) ac yn breifat, ar-lein (79% o'i gymharu â 53%).[164]

[161] Ofcom, Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein, Awst 2023.
[162] Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad o'r defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt, 2023.
[163] Ofcom, Deall cyfathrebu ar-lein ymysg plant, 2023
[164] Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein Ofcom, Awst 2023.

## Ar gyfer rhai grwpiau o oedolion a phlant sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, mae'r rhyngrwyd yn cael ei gwerthfawrogi fel galluogwr ar gyfer hunanfynegi

Pan ofynnwyd iddynt asesu a sgorio datganiadau am y rhyngrwyd a hunanfynegiant, mae 28% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n 13 oed a hŷn yn cytuno eu bod yn '*teimlo'n rhydd i fod ar-lein*', 27% yn anghytuno, a mwyafrif yn teimlo'n niwtral amdano (42%), sydd eto'n dangos rhywfaint o amwysedd ymysg defnyddwyr yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r data hefyd yn dangos yn glir bod rhai grwpiau defnyddwyr yn gwerthfawrogi'r rhyngrwyd yn fawr fel galluogwr ar gyfer hunanfynegi. Er enghraifft, mae defnyddwyr 13-17 oed bron ddwywaith yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu '*bod eu hunain ar-lein*', o'u cymharu ag oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd (53% o'i gymharu â 26%); mae dynion a bechgyn yn fwy tebygol na menywod a merched o deimlo fel hyn (32% o'i gymharu â 24%); ac mae oedolion sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu arnynt (31%), yn enwedig plant â chyflyrau sy'n effeithio arnynt (68%), yn fwy tebygol na'r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin o gytuno â'r datganiad (28%).

**Ffigur 49: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn y DU sy'n cytuno â'r datganiad '*Rwy'n teimlo'n fwy rhydd i fod yn fi fy hun ar-lein*', fesul is-grŵp: 2023**




↑ Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 99%
↓ Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 99%

*Ffynhonnell: Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C3. I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am fod ar-lein? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed â hyn y DU (14,181)*

## Mae plant hefyd yn fwy tebygol nag oedolion o gydnabod manteision bod ar-lein ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u llesiant cyffredinol

Mae gan blant 13-17 oed agwedd fwy cadarnhaol nag oedolion o ran y berthynas rhwng bod ar-lein a'u hiechyd meddwl. Mae 48% yn cytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl, o'i gymharu â 31% o oedolion, gyda dim ond 13% o blant 13-17 oed yn anghytuno. Nid yw dros draean o bobl 13-17 oed wedi penderfynu, efallai gan eu bod yn teimlo bod effeithiau cadarnhaol a negyddol ar eu hiechyd meddwl (35%).


Canfu ymchwil Ofcom gyda phlant 8-15 oed hefyd fod dros hanner y grŵp oedran hwn yn dweud bod 'bod ar-lein yn gwneud i mi deimlo'n well amdanaf fy hun' (51%), gyda phlant oed ysgol uwchradd yn fwy tebygol na phlant oed ysgol gynradd o deimlo fel hyn (54% o'i gymharu â 46%). Mae tua chwarter y plant yn anghytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn gwneud iddyn nhw deimlo'n well amdanyn nhw eu hunain, gan ddangos eto y safbwyntiau cymysg ymysg y grŵp oedran hwn (23%).[165]

Mae bod ar-lein yn gallu rhoi cymorth i rai plant gyda'u llesiant. Gofynnwyd i blant 8-15 oed gytuno neu anghytuno â chyfres o ddatganiadau, gan gynnwys '*mae bod ar-lein yn fy helpu i deimlo dan lai o straen/llai dig/llai pryderus*'. Roedd dros hanner y grŵp oedran hwn yn cytuno â'r datganiad (59%), ac roedd 46% yn cytuno bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn rhoi '*cymorth o ran iechyd a llesiant iddynt, fel myfyrio a bwyta'n iach*'.[166]

Yn gyffredinol, mae merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod yn mynd ar-lein i gael help gyda phethau sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u llesiant (81% o'i gymharu â 75%), ac mae plant oed ysgol uwchradd yn fwy tebygol na phlant oed ysgol gynradd o ddefnyddio'r rhyngrwyd fel hyn (83% o'i gymharu â 74%). Er mwyn deall sut mae plant yn defnyddio'r rhyngrwyd er budd eu llesiant a'u hiechyd, fe wnaethom ddarparu cyfres o awgrymiadau i blant rhwng 8 a 15 oed i archwilio beth maen nhw'n mynd ar-lein i gael cymorth ag ef. Roedd eu tri dewis gorau yn cynnwys: mynd ar-lein i'w helpu i '*ymlacio'* (39%), i'w helpu i '*deimlo'n hapus*' (35%), a helpu gyda '*ymarfer corff / dysgu ymarfer corff*' (29%).[167]

[165] Ofcom, Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein, Awst 2023. Mae 'plant oed ysgol gynradd' yn seiliedig ar blant 8-11 oed a 'plant oedran ysgol uwchradd' yn seiliedig ar y rhai rhwng 11 a 15 oed. Felly, mae cyfranogwyr 11 oed yn cael eu cyfrif fel oedran ysgol gynradd ac uwchradd.
[166] Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein. Ofcom, Awst 2023.
[167] Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein. Ofcom, Awst 2023.

**Ffigur 50: Plant 8-15 oed: eu defnydd o'r rhyngrwyd ar gyfer iechyd a llesiant.**




*Ffynhonnell: Pôl Panel Ymchwil Ar-lein Ofcom: Llesiant plant ar-lein, Awst 2023 Sail: pob plentyn 8-15 oed (799).*

Mae plant 8-15 oed sy'n mynd ar-lein i gael help gyda'u llesiant a'u hiechyd yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau. Defnyddio '*fideos ar-lein fel TikTok neu Instagram*' yw'r ffordd fwyaf poblogaidd o gael gafael ar y cymorth hwn. Mae hyn yn cynnwys defnyddio fideos ar-lein i helpu gyda '*teimlo'n hapus*' (70%)', '*i ymlacio*' (63%), '*ymarfer/dysgu ymarfer corff*' (65%) a '*dysgu am fwyta'n iach*' (57%).[168]

Ar gyfer rhai pethau, defnyddio peiriant chwilio i ddod o hyd i gymorth yw'r adnodd sy'n cael ei ddefnyddio amlaf ar gyfer plant 8-15 oed. Mae tua thri chwarter y rhai sy'n mynd ar-lein pan fyddant eisiau cymorth gyda '*chwilio am symptomau iechyd*' yn dweud eu bod yn defnyddio peiriant chwilio i wneud hyn (77%), tra bod 58% yn defnyddio peiriant chwilio am help gyda '*tyfu i fyny*'.[169]

Mae plant hefyd yn troi at ddylanwadwyr ar-lein i gael help gyda rhai o'u hanghenion iechyd a llesiant. Mae tua thraean o blant 8-15 oed sy'n dweud eu bod yn mynd ar-lein i gael help pan fyddant yn teimlo'n '*drist/pryderus/poenus*' yn gofyn am help gan '*ddylanwadwyr ar TikTok neu Instagram*' (32%). Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer y rheini sy'n mynd ar-lein '*i ddysgu am fwyta'n iach*' (36%), am gymorth i deimlo'n '*llawn egni/llawn cymhelliant*' (35%), '*teimlo'n hapus*' (32%), a '*chael help wrth dyfu i fyny*' (33%).[170]


## Mae oedolion yn cydnabod bod cymorth ar-lein yn gallu helpu eu llesiant a gofyn am gymorth ar gyfer gwahanol bethau mewn gwahanol leoedd.

Wrth edrych ar effaith mynd ar-lein ar gyfer llesiant oedolion, dim ond chwarter y rheini 16 oed a hŷn oedd yn cytuno bod '*bod ar-lein yn gwneud i mi deimlo'n well amdanaf fy hun*' (24%), ac roedd dros hanner yn anghytuno â'r datganiad (56%).[171] Roedd gan ddynion agwedd fwy cadarnhaol na

[168] Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein. Ofcom, Awst 2023.
[169] Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein. Ofcom, Awst 2023.
[170] Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein Ofcom, Awst 2023.
[171] Caiff cyfranogwyr 16 oed a hŷn eu cydnabod fel oedolion yn yr arolwg hwn.

menywod o ran effaith bod ar-lein (26% o'i gymharu â 22%). Roedd traean o'r rheini dros 16 oed yn meddwl bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn ffordd o '*helpu i deimlo llai o straen, yn llai dig neu llai pryderus*' (34%), ac roedd hanner yn anghytuno â'r datganiad (50%). Mae llawer o oedolion yn cydnabod y cymorth a'r cyngor maen nhw'n gallu dod o hyd iddynt ar-lein, gyda bron i hanner yn cytuno bod '*bod ar-lein yn rhoi cymorth o ran iechyd a llesiant i mi*' (49%).[172]

**Ffigur 51: Oedolion 16 oed a hŷn, eu defnydd o'r rhyngrwyd ar gyfer iechyd a llesiant.**




*Ffynhonnell: Pôl Panel Ymchwil Ar-lein Ofcom: Llesiant oedolion ar-lein, Medi 2023. Sail: 16 oed a hŷn (10,005). Dim ond i'r rhai a ddywedodd eu bod yn fenyw ar adeg eu geni y dangoswyd 'Tracio fy mislif/ofyliad'.*

Er mwyn archwilio defnydd oedolion o'r rhyngrwyd ar gyfer eu llesiant a'u hiechyd, fel gyda phlant 8-15 oed, fe wnaethom ddarparu cyfres o awgrymiadau i ymatebwyr sy'n oedolion (16 oed a hŷn) i archwilio beth maen nhw'n mynd ar-lein i gael cymorth ag ef. Dywedodd dwy ran o dair o oedolion eu bod yn mynd ar-lein '*i edrych am symptomau iechyd*' (67%), ac yna 45% yn mynd ar-lein '*i gael rhagor o wybodaeth am fwyta'n iach*' a 40% yn defnyddio'r rhyngrwyd '*i gael cyngor ariannol*' neu '*i ymlacio*'.[173]

Fel plant, mae oedolion sy'n mynd ar-lein i gael help gyda'u llesiant yn gofyn am gymorth mewn amrywiaeth o lefydd, ac mae'r llefydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y cymorth neu'r help sydd ei angen arnynt. Mae defnyddio peiriant chwilio yn ddull poblogaidd pan fydd oedolion eisiau help i chwilio am symptomau iechyd (81%), cyngor ariannol (75%), dysgu mwy am fwyta'n iach (73%) a '*chael cymorth wrth deimlo'n drist, yn bryderus neu'n boenus*' (55%).[174] Mae gofyn am gymorth drwy fideos ar-lein, fel YouTube, Instagram Reels neu TikTok, hefyd yn boblogaidd ymysg oedolion sy'n mynd ar-lein pan fyddant eisiau help gyda '*theimlo'n hapus*' (64%), ymarfer corff (63%), '*teimlo'n llawn egni a llawn cymhelliant*' (56%), cadw dyddiadur (50%), a chysgu (41%). Ac ar gyfer rhai meysydd iechyd a llesiant, mae oedolion yn troi at adnoddau penodol ar gyfer cymorth: wrth geisio cymorth i dracio eu hiechyd neu dracio mislif, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio apiau neu wefannau

[172] Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein Ofcom, Awst 2023.
[173] Ofcom, Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant oedolion ar-lein Medi 2023.
[174] Ofcom, Awst 2023.

pwrpasol (52% ac 80%) ac mae apiau llesiant yn boblogaidd ymysg y rheini sy'n chwilio am help gyda myfyrio (48%).[175]

## Profiadau niweidiol posibl

**Nodyn ar fethodoleg yr ymchwil a therminoleg ynghylch 'niwed posibl'**

Er bod defnyddio gwasanaethau ar-lein yn cynnig llawer o fanteision i oedolion a phlant, mae gan yr amgylchedd ar-lein y potensial hefyd i wneud defnyddwyr y rhyngrwyd yn agored i niwed. Nid yw pob digwyddiad o gynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein yn arwain at achosi niwed mewn gwirionedd, felly yn y sylwebaeth hon cyfeirir atynt fel 'niwed posibl'.

Mae'r ffigurau sy'n ymwneud â math a chyffredinrwydd niwed posibl yn cyfeirio at brofiadau defnyddwyr rhyngrwyd y DU o 'niwed posibl' yn y pedair wythnos cyn cwblhau'r arolwg OET. Mae rhagor o ffigurau OET sy'n ymwneud â lleoliad, effaith ac ymateb i niwed posibl yn ymwneud â'r 'niwed posibl mwyaf diweddar', sy'n dangos y cynnwys neu'r ymddygiad niweidiol posibl mwyaf diweddar a welwyd neu a brofwyd gan gyfranogwyr yn ystod y pedair wythnos cyn cwblhau'r arolwg OET. I gasglu'r ffigurau hyn, mae cyfranogwyr yr arolwg yn yr OET yn cael rhestr o niwed posibl, ac mae eu hymatebion yn seiliedig ar eu gallu i gofio a barnu'r cynnwys a'r ymddygiad maen nhw'n credu sy'n cyd-fynd â'r rheini sydd wedi'u rhestru yn yr holiadur.

Mae'r rhestr o niwed posibl yn yr holiadur OET yn cynnwys, yn rhannol, rhywfaint o'r cynnwys sy'n niweidiol i blant, fel y nodir yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Fodd bynnag, maent hefyd yn ymestyn i fathau eraill o gynnwys ac ymddygiad, er mwyn cofnodi amrywiaeth o brofiadau ar-lein.[176] Mae'r data hefyd yn seiliedig ar gategoreiddio defnyddwyr eu hunain o'r math o lwyfan, felly efallai na fydd cyfeiriad at y math o lwyfan yn y bennod hon yn cyd-fynd â'r categorïau o fath o lwyfan y cyfeirir atynt yn y bennod gyntaf neu yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Pan fyddwn yn trafod gwahaniaethau ymysg is-grwpiau o'i gymharu â'r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin neu'r holl ddefnyddwyr, mae hyn yn cyfeirio at ddefnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn. Oni nodir yn wahanol, mae'r data wedi cael ei brofi'n sylweddol yn ystod y bwlch hyder o 99%, oherwydd maint mawr y sampl. Yn olaf, mae ymwybyddiaeth o 'reolau' ar lwyfannau, a disgwyliadau ynghylch dod ar draws cynnwys ac ymddygiad ar-lein y cyfeirir atynt yn y bennod hon, yn defnyddio data o'n traciwr VSP.

### Niwed posibl a welwyd neu a brofwyd ar-lein

#### Mae nifer yr achosion o niwed posibl ar-lein yn gostwng gydag oedran ymysg oedolion ond maent yn fwy cyffredin ymysg rhai grwpiau lleiafrifol.


Dywedodd dwy ran o dair o oedolion (68%), pan roddwyd rhestr iddynt, eu bod wedi gweld neu brofi un neu fwy o niwed posibl ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y tebygolrwydd o ddod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein. Mae faint o amser sy'n cael ei dreulio ar-lein yn ffactor allweddol, gyda defnydd uchel o oedolion

[175] Ofcom, Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant oedolion ar-lein Medi 2023.
[176] Mae rhestr lawn o'r niwed posibl sy'n cael ei ddefnyddio i annog cyfranogwyr ar gael yn yr holiadur.

sy’n defnyddio’r rhyngrwyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi profi cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl o’i gymharu â defnyddwyr rhyngrwyd lefel isel (76% o’i gymharu â 52%).[177]

Oedolion iau, 18-24 oed, sydd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi dod ar draws o leiaf un niwed posibl ar-lein (81%). Mae’r gyfradd o ddod i gysylltiad â niwed posibl wedyn yn gostwng wrth i oedran defnyddwyr gynyddu, gyda’r gyfradd isaf o ddod i gysylltiad â niwed ymysg y grŵp oedran 75 oed a hŷn, sef 50%. Gall gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran gael eu hysgogi gan y gwahanol gyfnodau o amser sy’n cael ei dreulio ar-lein: mae oedolion iau 18-24 oed ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio llawer ar y rhyngrwyd o’i gymharu â phobl dros 74 oed (50% o’i gymharu â 25%).

**Ffigur 52: Profiad oedolion o niwed posibl ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf, yn ôl oedran**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C8 Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi’u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf?* Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddelweddau, fideos, sain neu destun, naill ai sylwadau, postiadau neu negeseuon rydych chi wedi’u gweld a/neu’r rheini sy’n cael eu rhannu’n uniongyrchol â chi. *Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13,205).*

Mae rhai grwpiau o oedolion yn fwy tebygol na’r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin o ddweud eu bod yn profi niwed ar-lein. Mae’r rhain yn cynnwys oedolion o grŵp lleiafrifoedd ethnig (73%), y rheini sydd â chyflwr sy’n cyfyngu neu’n effeithio arnynt (73%), pobl hoyw a lesbiaidd (77%) a phobl ddeurywiol (85%). Mae’r rheini mewn grŵp lleiafrifoedd ethnig (6%), oedolion sydd â chyflwr sy’n cyfyngu neu’n effeithio arnynt (6%), a phobl ddeurywiol (10%) hefyd yn fwy tebygol na’r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi dod ar draws mwy nag 16 o enghreifftiau o niwed posibl yn ystod y pedair wythnos diwethaf (4%).

**Ffigur 53: Profiad oedolion o niwed posibl, fesul is-grŵp.**

| Grŵp demograffig | | Profiad o niwed |
|---|---|---|
| **Rhywedd** | Menywod | 67% |
| | Dynion | 69% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 67% |
| | Grŵp ethnig lleiafrifol | 73% |

[177] Mae ‘defnydd uchel’ yn cyfeirio at ymatebwyr a ddywedodd wrthym eu bod yn treulio mwy na 22 awr ar-lein, ar wahân i waith ac addysg, mewn wythnos arferol. Mae ‘defnydd isel’ yn cyfeirio at y rheini a ddywedodd wrthym eu bod yn treulio llai na 6 awr ar-lein ar wahân i waith ac addysg mewn wythnos arferol.

| Grŵp demograffig | | Profiad o niwed |
|---|---|---|
| **Rhywioldeb** | Heterorywiol | 66% |
| | Hoyw neu lesbiad | 77% |
| | Deurywiol | 85% |
| **Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt** | Ie | 73% |
| | Na | 65% |

- Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 99%
- Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 99%

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddelweddau, fideos, sain neu destun, naill ai sylwadau, postiadau neu negeseuon rydych chi wedi'u gweld a/neu'r rheini sy'n cael eu rhannu'n uniongyrchol â chi. Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13,205).*

## Camwybodaeth oedd y niwed posibl mwyaf cyffredin y daeth oedolion ar ei draws, gyda chamwybodaeth wleidyddol yn cael ei phrofi amlaf.

Gan edrych ar y niwed posibl mwyaf cyffredin y mae pob oedolyn yn dod ar ei draws, mae camwybodaeth ar frig y rhestr gyda bron i ddau o bob pump (39%) yn ei gweld neu'n ei phrofi yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Mae'r hierarchaeth uchaf o achosion yn cyd-fynd yn fras â'r hierarchaeth a welwyd ym mis Ebrill/Mai 2022, er, yn ein data diweddaraf, mae '*camwybodaeth*' a '*iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol*' wedi diystyru '*sgamiau, twyll a gwe-rwydo*' fel y niwed mwyaf cyffredin.[178]

**Ffigur 54: Y deg prif niwed posibl sy'n cael ei brofi gan oedolion**

| Niwed posibl | Cyfanswm Oedolion |
|---|---|
| Camwybodaeth h.y. straeon neu honiadau ffug neu gamarweiniol ee 'newyddion ffug' | 39% |
| Iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol, ee rhegi, bod yn ddigywilydd | 36% |
| Sgamiau, twyll neu gwe-rwydo | 36% |
| Ceisiadau i fod yn ffrind neu ddilyn rhywun ar y cyfryngau cymdeithasol, neu negeseuon | 30% |
| Trolio, h.y. person sy'n dweud rhywbeth sy'n achosi gofid bwriadol neu'n ysgogi ymateb negyddol | 23% |
| Cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol sy'n targedu grŵp neu berson ar sail nodweddion penodol fel hil, crefydd, anabledd, rhywioldeb neu hunaniaeth o ran rhywedd, ee iaith casineb | 23% |


[178] Oherwydd newidiadau i ddarparwr a methodoleg y panel, nid ydym yn gallu cymharu'n uniongyrchol â phwyntiau data penodol, er ein bod wedi cyfeirio mewn rhai meysydd at debygrwydd neu wahaniaethau hierarchaidd â W2. Yn W4, cafodd ychwanegiad at 'e.e. newyddion ffug' ei gynnwys yn y cod camwybodaeth, a allai effeithio ar y newid yn yr hierarchaeth.

| Niwed posibl | Cyfanswm Oedolion |
|---|---|
| Cynnwys neu iaith sy’n gwrthwynebu, yn difrïo neu’n portreadu menywod yn negyddol fel arall | 22% |
| Lluniau/fideos ffug neu dwyllodrus, ee ffugio dwfn (*deep-fakes)* | 18% |
| Cynnwys y talwyd amdano neu a noddir nad oedd wedi'i nodi'n glir felly, e.e. “*astroturfing*” | 17% |
| Cynnwys sy’n hyrwyddo deiet/ymarfer corff gormodol neu afiach | 17% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C8 Pa rai, os o gwbl, o’r canlynol ydych chi wedi’u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13,205). Rhoddodd yr OET restr o 37 o niwed i’r oedolion a gymerodd ran. Mae’r tabl hwn yn dangos y 10 uchaf.*

Mae dynion (42%) ac oedolion iau sy’n defnyddio’r rhyngrwyd rhwng 18-24 oed (49%), 25-34 oed (46%) a 35-44 oed (43%) yn fwy tebygol na’r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin o ddweud eu bod wedi cael camwybodaeth ar-lein. Er mwyn deall profiadau o gamwybodaeth yn fanylach, fe wnaethom ofyn i’r rheini a ddywedodd eu bod wedi’i brofi i nodi’r math o gamwybodaeth roeddent wedi’i gweld. Dywedodd chwarter yr oedolion fod y cynnwys a welwyd yn ymwneud â ‘*gwybodaeth wleidyddol neu etholiadol anghywir*’, wedi’i ddilyn gan gamwybodaeth a oedd yn ‘*gwahaniaethu ar sail nodwedd warchodedig*’ (16%), a chamwybodaeth ariannol (11%).

**Ffigur 55: Mathau o gamwybodaeth y mae oedolion wedi dod ar eu traws**





*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C32a1. Pa un o’r opsiynau isod sy’n disgrifio orau’r wybodaeth anghywir a welsoch chi? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (5229).*

Wrth ystyried profiad oedolion o iaith casineb, dywedodd 23% o oedolion eu bod wedi dod ar draws ‘*cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol a oedd yn targedu grŵp neu berson ar sail nodweddion penodol fel hil, crefydd, anabledd, rhywioldeb neu hunaniaeth o ran rhywedd, ee iaith casineb*' yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Roedd oedolion iau 18-24 oed (38%), oedolion â chyflwr sy’n cyfyngu ac yn effeithio arnynt (28%), y rheini o grŵp lleiafrifoedd ethnig (30%), pobl hoyw neu lesbiaidd (41%) ac oedolion deurywiol (46%) yn fwy tebygol na’r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin o ddweud eu bod wedi dod ar draws y math hwn o gynnwys (22%).

O’r rhai a ddywedodd eu bod wedi dod ar draws ‘*cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol*’ yn fwyaf diweddar, roedd bron i hanner wedi’i weld fwy na chwe gwaith yn ystod y pedair wythnos diwethaf (47%). Yna gofynnwyd i’r cyfranogwyr pa grwpiau o bobl neu nodweddion yr oedd y cynnwys wedi’i anelu atynt. Dywedodd dros hanner ei fod yn targedu pobl drawsryweddol (58%), a dywedodd 44% ei fod yn targedu pobl ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol. Mewn rhai achosion, cyfeiriwyd y cynnwys hwn at y cyfranogwr ei hun; dywedodd 13% eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu targedu’n bersonol gan eu profiad mwyaf diweddar o ‘*gynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol*’.

**Ffigur 56: Y deg grŵp uchaf o bobl sy’n cael eu targedu gan ‘gynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol’**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C13. Pa grŵp neu nodwedd, os o gwbl, oedd yr ... iaith casineb roeddech chi wedi’i brofi yn eich cyfeirio ati? Gallai hyn gynnwys... iaith casineb wedi’i hanelu atoch chi’n bersonol. Sail: oedolion sy’n defnyddio’r rhyngrwyd sydd wedi dod ar draws cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol yn fwyaf diweddar (528).*

## Mae proffiliau oedran ffug yn rhoi plant mewn mwy o berygl o fod yn agored i niwed ar-lein

Canfu Plant a rhieni: adroddiad o’r defnydd o’r cyfryngau ac agweddau atynt gan Ofcom fod gan 71% o blant 8-11 oed a bron i bob plentyn 12-15 oed a 16-17 oed eu proffil eu hunain ar o leiaf un o’r safleoedd cyfryngau cymdeithasol a restrir yn ein hastudiaeth (95% a 96%, yn y drefn honno).

Mae ymchwil oedran defnyddwyr Ofcom yn awgrymu bod gan 22% o blant 8–17 oed (ac 20% o blant 8-15 oed) sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol ar o leiaf un o’r llwyfannau a restrir yn ein hastudiaeth, oedran defnyddiwr/proffil o 18 oed o leiaf, sy'n golygu eu bod mewn mwy o berygl o weld cynnwys oedolion. Mae’r ymchwil hefyd yn amcangyfrif bod gan draean (33%) o blant 8-15 oed, sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol ar o leiaf un o’r llwyfannau a restrir, oedran

defnyddiwr/proffil o 16 oed o leiaf.[179] Mae ein gwaith ar ffactorau risg yn tynnu sylw at y ffaith y gallai plant sydd ag oedran defnyddiwr/proffil rhwng 16 a 18 oed fod yn agored i nodweddion neu swyddogaethau newydd ar eu proffil ar y cyfryngau cymdeithasol, fel negeseuon uniongyrchol gan ddieithriaid neu'r gallu i weld cynnwys i oedolion, a allai olygu eu bod yn agored i niwed ar-lein.[180]

Ar hyn o bryd, TikTok yw'r unig wasanaeth sy'n cyhoeddi data (yn ei adroddiad tryloywder) am ddileu cyfrifon gan blant dan oed. Mae'r data hwn yn dangos, yn Ch1 2023, yr amheuir bod tua 24% (16,947,484) o gyfanswm y cyfrifon a gafodd eu dileu yn fyd-eang yn blant o dan 13 oed, a chafodd niferoedd tebyg hefyd eu dileu yn y ddau chwarter blaenorol.[181] Yn ôl canllawiau cymunedol TikTok, rhaid i ddefnyddwyr fod yn 13 oed neu'n hŷn i gael cyfrif, er bod profiad TikTok o dan 13 oed ar wahân i ddefnyddwyr yn yr Unol Daleithiau.[182]

## Mae plant yn cael niwed posibl ar-lein ar lefelau tebyg i oedolion

Pan ofynnwyd iddynt, dywedodd 71% o blant 13-17 oed eu bod wedi profi niwed posibl ar-lein yn ystod y pedair wythnos diwethaf, gyda merched yn fwy tebygol o ddweud hyn na bechgyn (74% o'i gymharu â 68%). *'Iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol*' yw'r prif niwed posibl y mae'r grŵp oedran hwn (47%) yn ei wynebu, ond fel y nodir isod, mae 13-17 oed yn llawer llai tebygol o gael eu poeni neu eu tramgwyddo gan y cynnwys hwn. Yr ail niwed mwyaf cyffredin y mae'r grŵp oedran hwn yn dod ar ei draws yw '*camwybodaeth*' (34%) ac yna '*cynnwys sy'n dangos styntiau neu heriau peryglus ar-lein'* (30%). Mae'r hierarchaeth uchaf o achosion wedi newid ers mis Ebrill/Mai 2022. Er mai '*iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol*' yw'r niwed mwyaf cyffredin o hyd, mae '*ceisiadau i fod yn ffrind neu ddilyn rhywun ar y cyfryngau cymdeithasol, neu negeseuon*' wedi gostwng o'r ail fwyaf cyffredin i'r pedwerydd, gyda '*camwybodaeth*' bellach yn yr ail safle. Mae '*Sgamiau, twyll neu gwe-rwydo*' wedi gostwng o'r trydydd safle ond mae'n dal ymysg y deg niwed posibl mwyaf y mae'r grŵp oedran hwn yn dod ar eu traws.[183]

Er nad oes llawer o wahaniaeth rhwng pobl ifanc yn eu harddegau (13-15 oed) a phobl ifanc hŷn (16-17 oed) o ran dod ar draws unrhyw niwed posibl amhenodol ar-lein (70% o'i gymharu â 74%), mae gwahaniaethau rhwng y ddau wrth edrych ar niwed posibl unigol a restrir. Mae plant hŷn yn fwy tebygol na phlant iau o ddweud eu bod wedi dod ar draws '*cynnwys sy'n annog gamblo*' (30% o'i gymharu â 21%), '*sgamiau, twyll neu gwe-rwydo*' (30% o'i gymharu â 22%), '*cynnwys sy'n hysbysebu alcohol neu sigaréts*' (25% o'i gymharu â 19%) a '*chynnwys y talwyd amdano neu a noddir nad oedd wedi'i farcio'n glir*' (20% o'i gymharu â 15%). Ar y llaw arall, mae plant iau yn fwy tebygol o wynebu '*aflonyddu bwriadol wrth chwarae gemau*' (13% o'i gymharu â 9%).[184]

[179] Ofcom, Oed Defnyddiwr, 2023
[180]Ofcom, Ymchwil i ffactorau risg a allai dywys plant i niwed ar-lein, 2022.

[181] TikTok, TikTok Community Guidelines Enforcement, Ch1 2023. Yn ddiweddar, fe wnaeth TikTok ryddhau data ar gyfer Ch2 2023 lle mae cyfran y cyfrifon sy'n cael eu dileu fel rhai dan oed yn cael ei nodi fel 29%. Oherwydd newidiadau mewn categorïau polisi ar gyfer data Ch2 a allai effeithio ar gymaroldeb â chyfnodau blaenorol, byddwn yn parhau i gyfeirio at ddata Ch1 2023 yn y bennod hon.
[182] TikTok, TikTok Community Guidelines, Cyfrifon a Nodweddion.
[183] Oherwydd newidiadau i ddarparwr a methodoleg y panel, nid ydym yn gallu cymharu'n uniongyrchol â phwyntiau data penodol, er ein bod wedi cyfeirio mewn rhai meysydd at debygrwydd neu wahaniaethau hierarchaidd â data W2. *Yn W4, cafodd ychwanegiad at 'ee newyddion ffug' ei gynnwys yn y cod camwybodaeth, a allai effeithio ar y newid yn yr hierarchaeth.
[184] Oherwydd maint llai y sampl ar gyfer plant 13-17 oed yn yr OET, mae'r data hwn wedi cael ei brofi'n sylweddol ar 95%.

**Ffigur 57: Y deg prif niwed sy'n cael eu profi gan bobl 13-17 oed, yn ôl is-grŵp**

| Niwed posibl | 13-17 oed | Bechgyn | Merched | 13-15 | 16-17 |
|---|---|---|---|---|---|
| Iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol, ee rhegi, bod yn ddigywilydd | 47% | 43% | 50% | 46% | 48% |
| Camwybodaeth h.y. Straeon neu honiadau ffug neu gamarweiniol ee 'newyddion ffug' | 34% | 33% | 35% | 32% | 37% |
| Cynnwys yn dangos styntiau neu heriau peryglus ar-lein | 30% | 31% | 30% | 30% | 31% |
| Ceisiadau i fod yn ffrind neu ddilyn rhywun ar y cyfryngau cymdeithasol, neu negeseuon | 30% | 25% | 35% | 30% | 29% |
| Cynnwys sy'n annog gamblo, ee betio ar chwaraeon, neu gemau tebyg i gasino | 25% | 28% | 23% | 21% | 30% |
| Sgamiau, twyll neu gwe-rwydo | 25% | 26% | 23% | 22% | 30% |
| Trolio, h.y. person sy'n dweud rhywbeth sy'n achosi gofid bwriadol neu'n ysgogi ymateb negyddol | 23% | 22% | 24% | 22% | 25% |
| Cynnwys neu iaith sy'n gwrthwynebu, yn difrïo neu'n portreadu menywod yn negyddol fel arall | 22% | 18% | 26% | 22% | 22% |
| Cynnwys sy'n hysbysebu alcohol neu sigaréts | 22% | 21% | 23% | 19% | 25% |
| Cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol sy'n targedu grŵp neu unigolyn ar sail nodweddion penodol | 21% | 18% | 23% | 20% | 23% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 -17 oed yn y DU (976). Rhoddodd yr OET restr o 38 o niwed i'r plant a gymerodd ran. Mae'r tabl hwn yn dangos y 10 uchaf.*

## Mae'r disgwyliad o ddod ar draws cynnwys treisgar, difrïol neu amhriodol ar VSP ymysg oedolion yn gostwng gydag oedran

Canfu Traciwr Llwyfannau Rhannu Fideos (VSP) Ofcom fod y disgwyliad o ddod ar draws cynnwys niweidiol ar VSPs yn eang. Mae hanner y rheini sy'n defnyddio VSPs yn dweud eu bod yn disgwyl dod ar draws cynnwys niweidiol ar unrhyw VSP yn ystod y tri mis nesaf (51%), gyda rhai grwpiau –

oedolion iau (18-44), y rheini o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rheini sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ac yn effeithio arnynt – yn fwy tebygol o ddisgwyl dod ar draws niwed.[185]

**Ffigur 58: Disgwyliad o ddod ar draws niwed ar VSP ymysg defnyddwyr VSP, fesul is-grŵp**

| Grŵp demograffig | | Yn debygol o ddod ar draws niwed ar unrhyw VSP yn ystod y 3 mis nesaf |
|---|---|---|
| **Rhywedd** | Menywod | 50% |
| | Dynion | 52% |
| **Oedran** | 13-17 | 62% |
| | 18-24 | 75% |
| | 25-34 | 68% |
| | 35-44 | 58% |
| | 45-54 | 35% |
| | 55+ | 29% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 48% |
| | Grŵp ethnig lleiafrifol | 70% |
| **Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt** | Ie | 59% |
| | Na | 46% |

- Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 99%
- Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 99%%

*Ffynhonnell: Traciwr VSP Ofcom 2023. C3b. Pa mor debygol neu annhebygol ydych chi o ddod ar draws fideos treisgar, difrïol neu amhriodol wrth ddefnyddio'r gwefannau neu'r apiau hyn yn ystod y 3 mis nesaf? Sail: Defnyddwyr VSP (1188).*

## Yn gyffredinol, mae'r niwed sy'n achosi'r lefelau uchaf o bryder ymysg defnyddwyr y rhyngrwyd yn cael eu canfod yn llai aml

Hyd yn oed os nad yw defnyddwyr rhyngrwyd wedi dod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl eu hunain, efallai eu bod yn dal i boeni am ei fodolaeth ar-lein. Pan ofynnwyd iddynt pa mor bryderus ydynt am niwed posibl unigol ar-lein,[186] mae defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 18 oed a hŷn yn poeni fwyaf am *'gynnwys sy'n portreadu cam-drin rhywiol neu gamfanteisio'n rhywiol ar blant'* (89% â lefel uchel o bryder) a '*cynnwys sy'n annog eithafiaeth, radicaleiddio neu derfysgaeth*' (82% â lefel uchel o bryder). Ymysg pobl 13-17 oed, a gafodd restr ychydig yn wahanol, '*creulondeb anifeiliaid*' (67% â lefel uchel o bryder) a '*chynnwys sy'n hyrwyddo hunanladdiad*' (66% â lefel uchel o bryder) yw'r niwed lle mae pryder ar ei uchaf.[187]

---

[185] Ofcom, Traciwr VSP , 2023
[186] Gofynnir i gyfranogwyr raddio ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu 'ychydig yn bryderus' a 5 yn golygu 'pryderus iawn': 'pa mor bryderus ydych chi am (yr isod) sy'n bodoli ar-lein'. Yna cafodd 'net' ei greu, gan gyfuno 4 a 5 ar y raddfa, a dangos pryder mawr ymysg defnyddwyr.
[187] Oherwydd natur y niwed a restrir yn yr OET, dim ond i blant 13-17 oed y dangoswyd rhai mathau o niwed, a dim ond i'r rhai 18 oed a hŷn y dangosir rhai eraill oherwydd eu perthnasedd / difrifoldeb.

**Ffigur 59: Y pum niwed posibl uchaf gyda lefelau uchel o bryder ymysg oedolion a 13-17 oed.**


| Y pum prif niwed posibl y mae oedolion yn poeni fwyaf amdano ar-lein (net pryder uchel) | | Y pum prif niwed posibl y mae plant 13-17 oed yn poeni fwyaf amdano am-lein (net pryder uchel) | |
|---|---|---|---|
| Cynnwys sy'n dangos cam-drin rhywiol neu gamfanteisio'n rhywiol ar blant. | 89% | Cynnwys sy'n dangos creulondeb i anifeiliaid | 67% |
| Cynnwys sy'n annog eithafiaeth, radicaleiddio neu derfysgaeth | 82% | Cynnwys sy'n hyrwyddo hunanladdiad | 66% |
| Cynnwys sy'n hwyluso masnachu mewn pobl (gan gynnwys camfanteisio rhywiol a chamfanteisio o ran llafur, neu recriwtio ar gyfer gweithgarwch yn ymwneud â delio â chyffuriau) a mewnfudo anghyfreithlon | 81% | Cynnwys sy'n hyrwyddo hunan-niwed | 61% |
| Cynnwys sy'n dangos creulondeb i anifeiliaid | 80% | Cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol sy'n targedu grŵp neu berson ar sail nodweddion penodol fel hil, crefydd, anabledd, rhywioldeb neu hunaniaeth o ran rhywedd, e.e. iaith casineb | 60% |
| Cynnwys sy'n hyrwyddo hunanladdiad | 80% | Bwlio cyson ar-lein | 60% |

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023 C7. Isod ceir rhestr o bethau y gallai rhywun ddod ar eu traws ar y rhyngrwyd. Graddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu 'ychydig yn bryderus' a 5 yn golygu 'pryderus iawn'. Crëwyd NET cyfunol 4 a 5 i ddangos pryder mawr. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU 18 oed a hŷn (13205) a 13-17 oed (976).*

Nid yw rhai defnyddwyr rhyngrwyd yn poeni o gwbl am rai o'r niwed posibl sy'n cael eu rhestru. Dywed bron i draean o blant 13-17 oed nad ydynt yn poeni o gwbl am '*iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol*' (31%). Mae hyn hefyd yn wir am oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, gyda 26% yn dweud nad ydynt yn poeni o gwbl am y niwed posibl hwn.

Wrth edrych ar y prif niwed posibl y mae oedolion yn poeni fwyaf amdano, o'i gymharu â'r amlygiad a gofnodwyd i'r cynnwys neu'r ymddygiad hwnnw, yn gyffredinol, mae'r niwed sydd â'r lefelau uchaf o bryder yn cael eu canfod ar lefel isel ymysg oedolion. Mae '*Sgamiau, twyll neu we-rwydo*' yn eithriad; mae ymysg y deg prif niwed y mae oedolion yn poeni fwyaf amdanynt a'r deg niwed sy'n cael ei brofi fwyaf ymysg y grŵp hwn.

**Ffigur 60: Pryder oedolion am niwed posibl o'i gymharu ag amlder y profiad hwnnw.**





Niwed mewn gwyrdd: mwyaf cyffredin. Niwed mewn coch: y pryder mwyaf.

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13205). O'i gymharu â C7. Isod ceir rhestr o bethau y gallai rhywun ddod ar eu traws ar y rhyngrwyd. Dywedwch wrthyf ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu 'ychydig yn bryderus' a 5 yn golygu 'pryderus iawn', pa mor bryderus ydych chi bod yr isod yn bodoli ar-lein. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13205).*

Mae'r stori'n debyg i blant 13-17 oed; mae'r niwed sy'n peri pryder mawr ymysg y grŵp oedran hwn yn cael ei weld ar lefel gymharol isel. Yn yr achos hwn, mae *'cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol'* yn eithriad gan ei fod yn perthyn i'r 10 prif niwed y mae plant yn poeni amdanynt a'r 10 niwed sy'n cael eu profi amlaf ar gyfer y grŵp oedran hwn.

**Ffigur 61: Pryder plant 13-17 oed am niwed posibl o'i gymharu ag amlder y profiad hwnnw.**




Niwed mewn gwyrdd: Mwyaf cyffredin. Niwed mewn coch: y pryder mwyaf

Ffynhonnell: *Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C8 Pa rai, os o gwbl, o'r canlynol ydych chi wedi'u gweld neu eu profi ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 -17 oed yn y DU (976). O'i gymharu â C7. Isod ceir rhestr o bethau y gallai rhywun ddod ar eu traws ar y rhyngrwyd. Dywedwch wrthyf ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu 'ychydig yn bryderus' a 5 yn golygu 'pryderus iawn', pa mor bryderus ydych chi bod yr isod yn bodoli ar-lein. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 -17 oed yn y DU (976).*


## Mae effaith dod ar draws niwed posibl ar-lein yn amrywio yn ôl y math o gynnwys a welir.

Ar ôl gofyn pa niwed/niweidiau posibl y gallent fod wedi dod ar eu traws, gofynnodd Ofcom i ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU ddweud pa mor wael yr effeithiwyd arnynt gan y niwed posibl yr oeddent wedi'i brofi fwyaf diweddar, ar raddfa o 1: '*Doedd o ddim yn fy mhoeni o gwbl / Wnaeth o ddim fy nhramgwyddo*' i 3: *'Fe wnaeth fy mhoeni'n fawr iawn / roedd yn sarhaus iawn'.* Er y gall dod i gysylltiad ag unrhyw fath o gynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl effeithio'n negyddol ar brofiad ar-lein defnyddwyr 13 oed a hŷn, mae ein hymchwil yn dangos nad yw pob cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein yn cael yr un effaith negyddol.

Roedd '*cynnwys sy'n portreadu creulondeb i anifeiliaid*' yn ysgogi lefel uchel o effaith negyddol ymysg defnyddwyr 13 oed a hŷn sydd wedi dod ar ei draws yn fwyaf diweddar (83%). Mae menywod a merched yn fwy tebygol na dynion a bechgyn o ddweud bod eu profiad diweddaraf â'r cynnwys hwn '*wedi'u poeni neu eu tramgwyddo'n fawr'* (90% o'i gymharu â 70%). Fodd bynnag, mae defnyddwyr rhyngrwyd y DU yn dod ar draws y cynnwys hwn yn gymharol anaml (roedd 3% wedi dod ar ei draws yn fwyaf diweddar). Mae '*cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol*' (61%) a '*chynnwys neu iaith sy'n gwrthwynebu, yn difrïo neu'n portreadu menywod mewn ffordd negyddol fel arall*' (54%) hefyd yn ysgogi lefelau uchel o effaith negyddol ymysg y rhai a ddaeth ar ei draws yn fwyaf diweddar. I oedolion a phlant, mae'r mathau hyn o gynnwys yn ysgogi effaith negyddol gref ac maen nhw'n dod ar eu traws yn amlach, gan eistedd o fewn y deg niwed posibl mwyaf y mae'r ddau grŵp yn dod ar eu traws.  Unwaith eto, mae menywod a merched yn fwy tebygol na dynion a bechgyn o ddweud bod eu profiad diweddaraf o '*gynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol'* (68% o'i gymharu â 50%) a '*chynnwys neu iaith sy'n gwrthwynebu, yn difrïo neu'n portreadu menywod mewn ffordd negyddol fel arall*' (60% o'i gymharu â 38%) yn eu poeni neu eu tramgwyddo.

I rai defnyddwyr rhyngrwyd, nid yw profiadau penodol ar-lein yn ysgogi effaith negyddol. Dywedodd 66% o'r rheini a oedd wedi dod ar draws '*iaith dramgwyddus neu anweddus yn gyffredinol*" a 45% o'r rheini a ddaeth ar draws '*ceisiadau i fod yn ffrind neu ddilyn rhywun ar y cyfryngau cymdeithasol*'' yn fwyaf diweddar, nad oedd y profiad yn eu poeni nac yn eu tramgwyddo o gwbl. Mae'r ddau niwed posibl hefyd yn rhan o'r pum prif niwed posibl a restrir ar gyfer oedolion a phlant, sy'n awgrymu y gallai amlygiad uchel i'r profiadau hyn gyfrannu at lefelau is o effaith.

**Ffigur 62: Effaith niwed posibl o'i gymharu ag achosion ymysg defnyddwyr 13 oed a hŷn**




Niwed mewn gwyrdd: Mwyaf cyffredin. Niwed mewn coch: yr effaith negyddol uchaf. Niwed mewn porffor: yr effaith negyddol uchaf/sy'n cael ei brofi amlaf.

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C9. Fe wnaethch chi sôn eich bod wedi gweld neu brofi'r pethau canlynol ar-lein yn ystod y 4 wythnos diwethaf.  Pa un oeddech chi'n ei weld neu'n ei brofi <u>fwyaf diweddar</u>?* Sail:

Defnyddwyr rhyngrwyd y DU (9705) o'i gymharu â C14b. *Hoffem i chi feddwl eto am y tro diwethaf y gwnaethoch chi weld neu brofi [NODWCH Y NIWED A DDEWISWYD YN C9]. Ar raddfa o 1 i 3, lle mae 1 yn golygu 'Doedd o ddim yn fy mhoeni o gwbl/Wnaeth o ddim fy nhramgwyddo' a 3 yn golygu 'Fe wnaeth o fy mhoeni'n fawr iawn/Roedd yn sarhaus iawn', pan wnaethoch chi weld/profi [NODWCH Y NIWED A DDEWISWYDYN C9] ddiwethaf, a fyddech chi'n dweud bod y cynnwys neu'r profiad yn… Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU sydd wedi dod ar draws 'iaith anweddus neu dramgwyddus yn gyffredinol' yn fwyaf diweddar (1251); 'ceisiadau i fod yn ffrind neu ddilyn rhywun ar y cyfryngau cymdeithaso' (1148); 'Camwybodaeth' fwyaf diweddar (1056); sgamiau twyll neu we-rwydo' yn fwyaf diweddar (1447); 'cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol' yn fwyaf diweddar (552); 'cynnwys sy'n ymwneud ag anhwylderau bwyta' yn fwyaf diweddar (112); 'casglu neu ddefnyddio fy nata heb i mi wybod' (129); 'cynnwys neu iaith sy'n gwrthwynebu, yn difrïo neu'n portreadu menywod mewn ffordd negyddol ' (314); 'cynnwys sy'n dangos creulondeb i anifeiliaid' (304) Nid yw data ar sail bach o lai na 50 wedi'u cynnwys.*

## Mae niwed yn cael ei brofi amlaf ar y cyfryngau cymdeithasol.


Yn gyffredinol, y cyfryngau cymdeithasol yw'r math o lwyfan lle profir y rhan fwyaf o niwed (56%).[188] Mae oedolion yn fwy tebygol na phlant o ddweud eu bod wedi profi niwed posibl yn fwyaf diweddar ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol (57% o'i gymharu â 35%); mae menywod 18 oed a hŷn yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi dod ar draws niwed posibl ar y math hwn o wasanaeth (62% o'i gymharu â 56%). '*Ceisiadau i fod yn ffrind neu ddilyn rhywun ar y cyfryngau cymdeithasol*' (77%), ac yna '*cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol*' (74%) a '*trolio*' (73%) yw'r tri niwed posibl y mae defnyddwyr 13 oed a hŷn yn dod ar eu traws ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

E-bost yw'r ail wasanaeth mwyaf aml lle caiff niwed posibl ei brofi, ac mae'n cyfrif am gyfran fawr o brofiad defnyddwyr y rhyngrwyd o *'sgamiau, twyll neu we-rwydo'* (57%).

Y trydydd math mwyaf cyffredin o lwyfannau lle mae defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 13 oed a hŷn yn dweud eu bod wedi dod ar draws niwed yn fwyaf diweddar yw llwyfan rhannu fideos (8%). Mae plant 13-17 oed yn fwy tebygol nag oedolion o ddweud eu bod wedi dod ar draws niwed ar y math hwn o wasanaeth (23% o'i gymharu â 7%), heb unrhyw wahaniaethau rhwng rhywedd, na phlant hŷn neu iau.

[188] Mae hyn yn seiliedig ar gategoreiddio defnyddwyr eu hunain o'r math o lwyfan, felly efallai na fydd cyfeiriad at y math o lwyfan yn y bennod hon yn cyd-fynd â'r categorïau o fath o lwyfan y cyfeirir atynt yn y bennod gyntaf neu yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

**Ffigur 63: Y pum prif fath o lwyfan lle mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn dweud eu bod wedi dod ar draws niwed yn fwyaf diweddar, oedolion o'i gymharu â phlant 13-17 oed.**





- Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 99%
- Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 99%

*Ffynhonnell Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C21. Pa fath o wefan neu wasanaeth oeddech chi'n ei ddefnyddio pan gawsoch chi brofiad yn fwyaf diweddar [NODWCH Y NIWED A DDEWISWYD YN C9]. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd y DU 18 oed a hŷn (6,414) 13-17 oed (634).*

Mae 28% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn dweud mai Facebook yw'r llwyfan lle maen nhw wedi dod ar draws eu niwed posibl mwyaf diweddar. Mae'r ganran yn cynyddu gydag oedran; roedd bron i hanner y rheini sy'n 75 oed a hŷn wedi dod ar draws hyn, o'i gymharu ag 11% o bobl ifanc 18-24 oed. Fel y nodir ym mhennod y Dirwedd Ar-lein, mae'r defnydd o Facebook yn cynyddu gydag oedran, felly mae'n bosibl bod y cynnydd yn y risg o niwed ar Facebook ymysg oedolion hŷn sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn gallu bod oherwydd bod y defnydd yn uwch. Mae rhai grwpiau o oedolion hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael niwed ar Facebook, gan gynnwys menywod a'r rheini sydd â chyflwr sy'n effeithio neu'n cyfyngu arnynt (32% a 30%).

**Ffigur 64: Y pum prif ap/llwyfan lle mae oedolion yn profi niwed**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C22 28 Pa wefan gwylio fideo/peiriant chwilio/gwefan cyfryngau cymdeithasol / gwefan ffrydio byw / llwyfan negeseuon gwib / llwyfan gemau / gwefan holi ac ateb neu ap oeddech chi'n ei ddefnyddio pan wnaethoch chi brofi... Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (6082).*

**Ffigur 65: Cyrhaeddiad oedolion ar-lein y DU o wasanaethau cyfryngau cymdeithasol dethol: Mai 2023.**

| | Facebook a Messenger | X (Twitter yn flaenorol) | Instagram | TikTok | YouTube |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyrhaeddiad ar-lein ym mis Mai 2023** | 91% | 50% | 73% | 44% | 91% |
| **Cyrhaeddiad dyddiol oedolion ym mis Mai 2023** | 62% | 20% | 35% | 14% | 43% |


*Ffynhonnell: Ipsos, Gwasanaeth Mesur Cynulleidfaoedd Ar-lein Ipsos iris, Mai 2023, oedran, 18 oed a hŷn, y DU. Nodyn: Nid yw setiau teledu na dangosyddion clyfar wedi'u cynnwys.*

## Mae plant yn dod ar draws profiadau cadarnhaol a negyddol ar TikTok

Dywedir mai TikTok sydd â'r nifer uchaf o achosion o niwed posibl ar-lein ar gyfer plant 13-17 oed (27%), o'i gymharu â dim ond 7% ar gyfer oedolion. Gallai'r cynnydd hwn mewn cysylltiad â niwed posibl ymysg plant sy'n defnyddio'r rhyngrwyd fod oherwydd lefel y defnydd o TikTok ymysg plant. Ymysg pobl 13-17 oed, mae merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod wedi cael niwed ar TikTok (33% o'i gymharu ag 20%).

Er mai TikTok yw'r llwyfan y mae plant yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi dod ar draws eu profiad mwyaf diweddar o niwed, canfu arolwg diweddar gan ddefnyddio ein Panel Ymchwil Ar-lein fod 14% o blant 8-15 oed wedi dweud mai TikTok oedd y llwyfan a oedd yn gwneud nhw hapusaf yn ystod y pedair wythnos diwethaf (dim ond y tu ôl i YouTube, sydd ar 30%), sy'n dangos bod llwyfan penodol yn gallu bod yn ffynhonnell profiadau cadarnhaol a negyddol.[189]

**Ffigur 66: Y pum prif ap/llwyfan lle mae pobl 13-17 oed yn profi niwed**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C22 Pa wefan gwylio fideo / peiriant chwilio / gwefan cyfryngau cymdeithasol / gwefan ffrydio byw / llwyfan negeseuon gwib / llwyfan gemau / gwefan holi ac ateb neu ap oeddech chi'n ei ddefnyddio pan wnaethoch chi brofi defnyddwyr rhyngrwyd Sail: y DU 13-17 (473)*

[189] Pôl Panel Ymchwil Ar-lein: Llesiant plant ar-lein Ofcom, Awst 2023.

## Mae data darparwyr gwasanaethau eu hunain yn datgelu lefelau cynnwys niweidiol posibl ar-lein.

Mae rhai darparwyr gwasanaeth yn cyhoeddi manylion yn eu hadroddiadau tryloywder am faint o gynnwys a'r mathau o gynnwys sy'n cael eu dileu ar gyfer torri telerau neu ganllawiau cymunedol y gwasanaeth. Er enghraifft, yn Ch1 2023, dywedodd TikTok fod tua 31% o'r achosion o dorri rheolau a gofnodwyd ar gyfer y 91 miliwn o fideos a gafodd eu dileu'n fyd-eang yn torri polisi'r llwyfan ynghylch diogelwch plant dan oed, ac roedd 1% yn torri rheolau uniondeb a dilysrwydd. Yn y DU, cafodd cyfanswm o 3.9 miliwn o fideos eu dileu gan TikTok yn Ch1 2023 (4% o'r cyfanswm byd-eang – sy'n weddol debyg i chwarteri blaenorol); nid yw'r rhaniadau o achosion o dorri amodau yn ôl categori polisi yn cael eu cyhoeddi ar gyfer y DU ar hyn o bryd.[190]

Nid yw data dileu o reidrwydd yn rhoi cipolwg ar faint o ddefnyddwyr sydd wedi profi'r cynnwys mewn gwirionedd, ond mae rhai llwyfannau'n rhoi gwybod am fesurau meintiol o faint o gynnwys sy'n cael ei weld gan ddefnyddwyr cyn cael eu dileu. Er enghraifft, mae TikTok yn adrodd, yn Ch1 2023, nad oedd gan 73% o'r 3.9 miliwn o fideos yn y Deyrnas Unedig a gafodd eu dileu unrhyw wylwyr - dim ond ers Ch3 2022 yr adroddwyd ar y pwynt data hwn, pan adroddwyd bod y gyfradd yn 86%. Mae TikTok hefyd yn adrodd ar gyfraddau dileu yn ôl categori polisi ar lefel *fyd-eang*, sy'n dangos rhai gwahaniaethau sylweddol rhwng cyfraddau dileu yn ôl polisi llwyfan. Er enghraifft, yn Ch1 2023, cafodd 94% o gynnwys a gafodd ei ddileu a oedd yn ymwneud â hunanladdiad, hunan-niweidio ac anhwylderau bwyta eu dileu gyda dim gwylwyr. Mae hyn yn cymharu â 75% o'r rhai a gafodd eu dileu gyda dim gwylwyr am ymddygiad cas, 73% o'r rhai a gafodd eu dileu gyda dim gwylwyr am uniondeb a dilysrwydd[191], 71% o'r rhai a gafodd eu dileu gyda dim gwylwyr am gynnwys sy'n dangos gweithredoedd peryglus a heriol, a 59% o'r rhai a gafodd eu dileu gyda dim gwylwyr am aflonyddu a thorri rheolau bwlio.[192]

Mae gwasanaethau eraill, gan gynnwys Pinterest a YouTube, hefyd yn cyhoeddi data sy'n ymwneud â'r gwylwyr sy'n deillio o fideos sy'n cael eu dileu. Mae rhai darparwyr gwasanaeth yn cynhyrchu data sy'n ymwneud â defnyddwyr yn *dod i gysylltiad* â chynnwys sy'n torri polisïau gwasanaethau (ni waeth beth fo'r camau gorfodi dilynol yn erbyn y cynnwys hwnnw). Er enghraifft, mae YouTube yn adrodd ar 'gyfradd gwylio treisiol' sy'n cael ei chyfuno ar gyfer pob niwed gan gynnwys sbam. Yn Ch1 2023 amcangyfrifodd YouTube fod 0.10%, ar y mwyaf, o wylwyr (un ym mhob mil) yn gwylio cynnwys a oedd yn torri eu canllawiau cymunedol.[193] Mae'r gyfradd hon wedi bod fwy neu lai yr un fath ers Ch3 2021. Yn yr un modd, mae Snapchat yn adrodd ar 'gyfradd gwylio treisiol', sef 0.03% (tri o bob 10 mil o weithiau) yn ystod H2 2022.[194]

Mae Meta yn adrodd ar fetrigau tebyg ar gyfer Facebook ac Instagram, o'r enw 'cyffredinrwydd', sy'n cael eu dadansoddi yn ôl y math o bolisi. Yn Ch1 2023, amcangyfrifwyd bod y gyfradd gyffredinolrwydd ar gyfer cynnwys a oedd yn torri'r polisi ynghylch noethni mewn oedolion a

---

[190] TikTok, TikTok Community Guidelines Enforcement, Ch1 2023. Mae TikTok yn nodi bod amodau fideos yn gallu cael eu torri sawl gwaith, sy'n golygu bod cyfanswm nifer yr achosion o dorri amodau y mae cyfrannau pob polisi yn cael eu cyfrifo ohonynt yn gallu bod yn uwch na'r ffigur ar gyfer dileu fideos.

[191] O'i ddadansoddi yn ôl is-bolisi, mae uniondeb a dilysrwydd yn cyfeirio at achosion o dorri polisi sy'n ymwneud â sbam, ymgysylltiad ffug a chamwybodaeth niweidiol.

[192] TikTok, TikTok Community Guidelines Enforcement, Ch1 2023.

[193] YouTube, YouTube Community Views, Ch1 2023. Mae YouTube wedi rhyddhau data'n ddiweddar ar gyfer Ch2 2023, lle mae'r gyfradd gwylio treisiol yn debyg iawn. Er mwyn sicrhau cysondeb â data tryloywder chwarterol eraill sydd wedi'i gynnwys yn y bennod hon o TikTok a Meta, rydym yn cyfeirio at y datganiad data blaenorol yn y prif destun.

[194] Snapchat, Overview of Content and Account Violations, H2 2022.

gweithgarwch rhywiol ar Facebook tua 0.09%, sy'n nodi o bob 10 mil o ymweliadau â chynnwys, mae tua naw o'r rheini yn cynnwys y math hwn o drosedd.[195]


## Daeth dros draean o ddefnyddwyr y rhyngrwyd ar draws eu niwed mwyaf diweddar wrth sgrolio drwy eu ffrwd neu eu tudalen adref (for you page).

Gellir dod ar draws niwed posibl ar-lein mewn gwahanol ffyrdd. Mae dod i gysylltiad â niwed posibl ar-lein yn fwy tebygol o ddigwydd pan fydd defnyddwyr rhyngrwyd yn sgrolio drwy eu tudalen adref neu 'for you page', gyda 34% o ddefnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn wynebu eu niwed mwyaf diweddar fel hyn. Mae oedolion yn fwy tebygol na phlant 13-17 oed o ddweud eu bod wedi cael niwed diweddar wrth ddefnyddio'r nodwedd hon (35% o'i gymharu â 26%). Mae'r ddwy brif ffordd o ddod ar draws niwed posibl, fel y dangosir yn y graff isod, yn cyd-fynd yn fras â'r hierarchaeth a welwyd ym mis Ebrill/Mai 2022.[196]

Yn gyffredinol, mae'r niwed posibl y mae'r nodwedd hon yn fwyaf tebygol o ddod ar ei draws yn cynnwys '*cynnwys sy'n ymwneud ag anhwylderau bwyta*' (58%), '*cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol'* (55%) a '*chynnwys sy'n glamoreiddio ffyrdd o fyw afiach neu gamdriniol o fyw, ee goryfed mewn pyliau, cymryd cyffuriau*' (54%).

Yn y pegwn arall, defnyddwyr y rhyngrwyd sydd leiaf tebygol o ddweud eu bod yn agored i niwed posibl wrth wylio cynnwys wedi'i ffrydio'n fyw (2%), defnyddio'r swyddogaeth chwilio (3%), neu ddarllen proffil (3%).

**Ffigur 67: Y deg prif ffordd o ddod ar draws niwed posibl.**




*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C21a. Fe ddywedoch chi eich bod wedi profi [NODWCH Y NIWED A DDEWISWYD YN C9], sut daethoch chi ar draws hyn? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed â hyn y DU (8730).*

[195] Meta, Gorfodi Safonau Cymunedol, Ch1 2023. Yn ddiweddar, mae Meta wedi rhyddhau data ar gyfer Ch2 2023, lle mae'r gyfradd gyffredinrwydd ar Facebook ar gyfer y categori polisi hwn yn debyg iawn. Er mwyn sicrhau cysondeb â data tryloywder chwarterol eraill sydd wedi'i gynnwys yn y bennod hon o TikTok ac YouTube, rydym yn cyfeirio at y datganiad data blaenorol yn y prif destun.

[196] Oherwydd newidiadau i ddarparwr a methodoleg y panel, nid ydym yn gallu cymharu'n uniongyrchol â phwyntiau data penodol, er ein bod wedi cyfeirio mewn rhai meysydd at debygrwydd neu wahaniaethau hierarchaidd â data W2.

# Ymwybyddiaeth o reolau a'r broses adrodd ac agweddau tuag atynt

## Mae data Traciwr VSP yn dangos bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn credu eu bod yn ymwybodol o’r hyn y gallant ac na allant ei bostio ar lwyfannau rhannu fideos

Cyn edrych ar weithredoedd defnyddwyr rhyngrwyd y DU ar ôl dod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl, mae’n bwysig deall eu hymwybyddiaeth o’r ‘rheolau’ a’r adnoddau adrodd ar lwyfannau.

Mae’r traciwr VSP yn gofyn i ddefnyddwyr am eu profiadau a’u barn am nodweddion diogelwch ar lwyfannau rhannu fideos (VSP).[197] Yn y don ddiweddaraf, canfu fod 71% o ddefnyddwyr VSP yn ymwybodol o’r hyn maent yn ei wneud ac nad ydynt yn cael postio ar unrhyw VSP. Defnyddwyr Instagram a Facebook sy’n adrodd y lefelau uchaf o ymwybyddiaeth (63%). Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl, fel y dangosir yn y tablau isod. Mae plant ac oedolion iau, y rheini o grŵp lleiafrifoedd ethnig a’r rheini sydd â chyflwr sy’n cyfyngu neu’n effeithio arnynt, hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol.[198]

**Ffigur 68: Ymwybyddiaeth o'r hyn a ganiateir ac na chaniateir ei bostio ar VSPs, fesul is-grŵp**

| Grŵp demograffig | | Ymwybyddiaeth o'r hyn a ganiateir ac na chaniateir iddynt ei bostio ar unrhyw VSP |
|---|---|---|
| **Rhywedd** | Menywod a merched | 72% |
| | Dynion a bechgyn | 69% |
| **Oedran** | 13-17 | 81% |
| | 18-24 | 89% |
| | 25-34 | 80% |
| | 35-44 | 80% |
| | 45-54 | 66% |
| | 55+ | 45% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 68% |
| | Grŵp ethnig lleiafrifol | 85% |
| | Ie | 76% |

[197] Mae llwyfannau rhannu fideos (VSPs) yn fath o wasanaeth fideos ar-lein sy’n caniatáu i ddefnyddwyr lwytho fideos i fyny a’u rhannu â’r cyhoedd. Mae rhestr lawn o’r VSPs sydd wedi’u cynnwys yn yr astudiaeth ar gael yn yr holiadur. Roedd y rhestr hon yn seiliedig ar y VSPs a gafodd eu hysbysu o dan y drefn VSP adeg y gwaith maes.
[198] Ofcom, Traciwr VSP , 2023

| Grŵp demograffig | | Ymwybyddiaeth o'r hyn a ganiateir ac na chaniateir iddynt ei bostio ar unrhyw VSP |
|---|---|---|
| **Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt** | Na | 69% |

- Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 95%
- Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 95%

*Ffynhonnell: Traciwr VSP 2023, C20. I ba raddau ydych chi'n ymwybodol o'r hyn rydych chi'n cael ei bostio a'r hyn nad ydych chi'n cael ei bostio ar y gwefannau/apiau hyn? Sail: Defnyddwyr VSP 13 oed â hyn y DU (1189).*

### Mae ymwybyddiaeth o offerynnau adrodd yn anghyson ar draws defnyddwyr y rhyngrwyd.

Mae ein traciwr VSP yn edrych ar brofiadau ac agweddau defnyddwyr VSP tuag at nodweddion diogelwch ar VSPs. Mae llai na hanner y rheini sy'n defnyddio VSPs (45%) yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r rheolau a'r mesurau diogelwch a roddwyd ar waith gan VSPs i ddiogelu defnyddwyr rhag fideos treisgar, camdriniol neu amhriodol, ac mae hyn yn codi i 88% pan gyflwynwyd amrywiaeth o fesurau diogelwch iddynt yn yr holiadur. Mae'r mesurau diogelwch y mae ymatebwyr yn eu hystyried yn eu lle yn cynnwys botymau adrodd (62%), hysbysiad sy'n nodi bod cynnwys yn amhriodol neu'n niweidiol cyn i chi ei wylio (61%), rheolaethau rhieni (60%) ac offeryn i guddio cynnwys nad ydynt yn dymuno ei weld eto (60%). Mae ymwybyddiaeth o reolaethau rhieni wedi cynyddu o'i gymharu â data blaenorol mis Ionawr 2023 (55% o'i gymharu â 60%). Mae oedolion iau 18-24 (96%) a 25-34 (92%) yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o unrhyw fesur ar unrhyw VSP, ar ôl i fesurau diogelwch gael eu cyflwyno iddynt, ac mae ymatebwyr 55 oed a hŷn yn llai tebygol (78%).[199]

Mae 45% o ddefnyddwyr VSP yn dweud eu bod wedi defnyddio botwm adrodd, ac o'r rhain dywedodd 86% y byddent yn ei ddefnyddio eto, yn bennaf oherwydd ei bod yn hawdd defnyddio'r botwm (63%) a/neu'n hawdd dod o hyd iddo (50%). I'r rheini nad ydynt yn ymwybodol o fesurau diogelwch a rheolau ar VSPs y maent wedi'u defnyddio yn ystod y tri mis diwethaf (58%), y prif resymau a roddwyd yw nad ydynt yn hygyrch (35%) neu nad ydynt yn ofynnol nac yn berthnasol (76%). Dywed 54% o rieni eu bod am i ddulliau fflagio ac adrodd gael eu gwneud yn haws i blant eu defnyddio neu eu gael mynediad atynt.[200]

## Camau a gymerwyd ar ôl dod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein


### Mae plant 13-17 oed yn llai tebygol nag oedolion o weithredu o ganlyniad i ddod ar draws niwed posibl

Ar y cyfan, dywedodd 60% o oedolion eu bod wedi cymryd rhyw fath o gamau gweithredu ar ôl dod ar draws eu profiad niweidiol posibl mwyaf diweddar ar-lein, o'i gymharu ag ychydig dros hanner y

[199] Ofcom, Traciwr VSP , 2023
[200] Ofcom, Traciwr VSP , 2023

plant 13-17 oed (51%). Roedd y camau a gymerwyd yn amrywio o ymddieithrio neu newid eu hymddygiad o ran ymgysylltu â llwyfan i ymddygiad adrodd mwy rhagweithiol fel clicio ar y botwm fflag, adrodd neu sothach.

**Ffigur 69: Y deg prif gam gweithredu a gymerwyd gan oedolion o'u cymharu â phlant 13-17 oed**




*Ffynhonnell: Traciwr Profiadau Ar-lein 2023 C15. Pan welsoch [NODWCH Y NIWED A DDEWISWYD YN C9] ar yr achlysur hwnnw, pa rai o'r camau canlynol wnaethoch chi eu cymryd, os o gwbl. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed â hyn y DU (9,048)*

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae rhai grwpiau'n fwy tebygol o weithredu o'u cymharu â'r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin. Mae ein hymchwil hefyd yn dangos bod amlder y niwed sy'n cael ei brofi'n cyd-fynd â'r tebygolrwydd o gymryd unrhyw gamau. Mae defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy'n 13 oed a hŷn ac sydd wedi profi eu niwed mwyaf diweddar fwy na chwe gwaith yn llai tebygol na'r cyfartaledd o gymryd unrhyw gamau gweithredu (56% o'i gymharu â 59%). Ac mae'r rhai sy'n dweud bod eu profiad diweddaraf yn 'eu poeni neu wedi'u tramgwyddo'n ofnadwy' yn fwy tebygol o weithredu na'r rhai sy'n dweud eu bod 'wedi'u poeni neu wedi'u tramgwyddo rhywfaint' (77% o'i gymharu â 63%) Mae hyn yn arbennig o wir o gymharu â'r rhai nad ydynt 'wedi'u poeni na'u tramgwyddo o gwbl' (40%).

**Ffigur 70: Unrhyw gamau a gymerwyd, fesul is-grŵp**

| Grŵp demograffig | | Unrhyw weithred |
|---|---|---|
| **Rhywedd** | Menywod a merched | 62% |
| | Dynion a bechgyn | 56% |
| **Oedran** | 13-17 | 51% |
| | 18-24 | 49% |
| | 25-34 | 56% |
| | 35-44 | 58% |

| Grŵp demograffig | | Unrhyw weithred |
|---|---|---|
| | 45-54 | 63% |
| | 55+ | 66% |
| Ethnigrwydd | Gwyn | 59% |
| | Grŵp ethnig lleiafrifol | 60% |
| Rhywioldeb (18 oed a hŷn) | Heterorywiol | 59% |
| | Hoyw neu lesbiaid | 64% |
| | Deurywiol | 58% |
| Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio ar oedolyn | Ie | 65% |
| | Na | 56% |
| Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio ar blentyn 13-17 oed | Ie | 56% |
| | Na | 48% |

• Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 99%%

• Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 99%

*Ffynhonnell: Traciwr Profiadau Ar-lein 2023 C15. Ar yr achlysur hwnnw, pa rai o'r camau canlynol wnaethoch chi eu cymryd, os o gwbl. Sail: oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn y DU (9048)*

O fewn yr ystod o gamau a gymerwyd, roedd cyfran fach o ddefnyddwyr rhyngrwyd y DU wedi gweithredu drwy ymddieithrio neu newid eu hymddygiad o ran ymgysylltu (16%). Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu fel '*rhoi'r gorau i'r hyn roeddwn i'n ei wneud/cau'r wefan*' (7%) a '*Defnyddio llai ar y llwyfan'* (5%). Mae defnyddwyr rhyngrwyd iau 13-17 oed yn fwy tebygol nag oedolion o ddweud wrth '*ffrind neu aelod o'r teulu*' am eu profiad ar-lein (18% o'i gymharu â 6%). Canfu Plant a rhieni: adroddiad o'r defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt gan Ofcom fod plant iau rhwng 8 ac 11 oed yn fwy tebygol na phlant hŷn rhwng 12-15 neu 16-17 oed o ddweud wrth rywun os oeddent yn gweld rhywbeth cas neu annifyr ar-lein.

Roedd gostyngiad yn nifer y plant 8-17 oed a fyddai bob amser yn dweud wrth rywun os oeddent yn gweld rhywbeth cas neu annifyr ar-lein (53% yn 2022 o'i gymharu â 59% yn 2021). Fodd bynnag, roedd plant 8-11 oed yn fwy tebygol *weithiau* o ddweud wrth rywun yn y sefyllfa hon yn 2022 nag yr oeddent yn 2021 (30% o'i gymharu â 25%). Roedd rhieni a oedd wedi cael gwybod gan eu plentyn am brofiad ar-lein sy'n peri gofid neu'n frawychus yn fwyaf tebygol o ymateb drwy siarad â'u plentyn am yr hyn a ddigwyddodd (87%), ac yna drwy gynghori/dweud wrth eu plentyn i rwystro pobl/mathau penodol o gynnwys (56%), neu gynghori/dweud wrth eu plentyn am roi'r gorau i ddefnyddio apiau/gwefannau penodol (53%). Roedd rhieni'n llai tebygol o roi gwybod am y cynnwys yr oedd eu plentyn wedi'i weld ar y wefan/ap yr oedd yn ymddangos arno (29%) neu osod hidlyddion/rheolyddion rhieni (23%) mewn ymateb i hynny.[201]

Mae oedolion ddwywaith yn fwy tebygol na phlant 13-17 oed o ymateb drwy glicio'r botwm adrodd neu fflagio neu farcio profiadau niweidiol posibl fel sothach (20% o'i gymharu â 10%). Ac mae oedolion sydd ag unrhyw gyflwr sy'n effeithio neu'n cyfyngu arnynt yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ymateb yn y ffordd hon (22% o'i gymharu ag 20%). 'Sgamiau, twyll neu we-rwydo' (y cafodd 35% o'r

[201] Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad o'r defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt, 2023.

profiadau mwyaf diweddar eu hadrodd/tynnu sylw atynt/nodi eu bod yn sothach), ac yna '*cynnwys annymunol, sarhaus neu wahaniaethol'* (9% o'r profiadau mwyaf diweddar y rhoddwyd gwybod amdanynt/sydd wedi'u fflagio fel sothach) yw'r niwed posibl mwyaf ar-lein y mae defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed a hŷn yn ei brofi, ac mae'r ddau yn gymharol uchel ymysg defnyddwyr rhyngrwyd yn y DU.

Mae tystiolaeth gynyddol ym maes mewnwelediadau ymddygiadol y gall newidiadau cymharol fach i ddyluniad amgylcheddau ar-lein, gan gynnwys mesurau diogelwch fel adrodd, helpu i lywio ymddygiad defnyddwyr.[202] Mae ymchwil Ofcom i ddyluniad ac effeithiolrwydd mecanweithiau adrodd sy'n cael eu defnyddio ar VSPs yn awgrymu y gallai swyddogaethau adrodd mwy amlwg annog defnyddwyr i roi gwybod am gynnwys maen nhw'n poeni amdano. Defnyddiodd yr astudiaeth hapdreial rheoli ar-lein, lle cafodd tair triniaeth eu profi ar ffug-lwyfan VSP. Roedd yn cyflwyno tri ymyriad: cododd y cyntaf amlygrwydd y swyddogaeth adrodd drwy 'eicon baner'; roedd yr ail hefyd yn annog defnyddwyr i adrodd os nad oeddent yn hoffi cynnwys neu os oeddent wedi gwneud sylwadau ar y cynnwys; a defnyddiodd y trydydd y dull a ddefnyddiwyd yn yr ail driniaeth, ond gyda phroses adrodd symlach.

Canfu ein hastudiaeth, yn y grŵp rheoli, pan nad oeddent wedi'u hyrwyddo, nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn adrodd am y cynnwys niweidiol posibl yr oeddent wedi'i weld (98%) er bod tua un o bob pedwar wedi dewis peidio â hoffi'r cynnwys. Roedd cynyddu amlygrwydd yr opsiwn adrodd ar ei ben ei hun yn cynyddu'n sylweddol y tebygolrwydd yr adroddwyd am gynnwys niweidiol posibl (1% yn y grŵp rheoli, 4% gyda'r driniaeth gyntaf). Cafodd yr ail ymyriad effaith fwy sylweddol ar debygolrwydd cyfranogwyr o adrodd, gydag 11% yn adrodd am gynnwys niweidiol posibl.[203]

## Mae pobl ifanc yn eu harddegau yn fwy tebygol nag oedolion o sgrolio heibio eu profiad diweddaraf o niwed posibl

Mae bron i chwarter defnyddwyr rhyngrwyd y DU yn dweud eu bod wedi sgrolio y tu hwnt i'w profiad mwyaf diweddar o niwed posibl ar-lein, sy'n golygu mai dyma'r ymateb mwyaf cyffredin wrth ddod ar draws cynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl (24%). Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau o Ebrill/Mai 2023, a oedd hefyd wedi canfod mai sgrolio cynnwys niweidiol posibl yn y gorffennol oedd yr ymateb mwyaf cyffredin ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU.[204] Mae'r gweithredu hwn yn fwy cyffredin ymysg defnyddwyr rhyngrwyd iau, gyda 30% o blant 13-17 oed a 31% o bobl ifanc 18-24 oed yn dweud eu bod wedi sgrolio y tu hwnt i'w profiad diweddaraf. Mae cynnwys niweidiol posibl yn y gorffennol sydd fwyaf tebygol o gael ei sgrolio yn cynnwys '*iaith anweddus neu dramgwyddus yn gyffredinol*' (42%), '*cynnwys sy'n hyrwyddo deiet/ymarfer corff gormodol neu afiach*' (40%), '*cynnwys sy'n glamoreiddio ffyrdd afiach neu gamdriniol o fyw*' (39%), a '*chynnwys sy'n ymwneud ag anhwylderau bwyta*' (35%).

O'r rheini a ddywedodd nad oeddent wedi cymryd unrhyw gamau gweithredu (17%), ni wnaeth hanner ohonynt weithredu ar ôl eu profiad mwyaf diweddar o niwed posibl gan eu bod yn teimlo 'nad oedd yn ddigon difrifol' (50%). Mae oedolion ifanc 18-24 oed yn fwy tebygol o deimlo fel hyn o'i gymharu â'r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin (62% o'i gymharu â 50%).


Yn gyffredinol, ni wnaeth un o bob pump gymryd unrhyw gamau oherwydd nid oeddent yn credu y byddai'n '*helpu/gwneud gwahaniaeth/yn cael ei weithredu*' (20%). Roedd yr un gyfran wedi peidio

---

[202] CMA, Online Choice Architecture – How digital design can harm competition and consumers, 2022.
[203] Ofcom, Behavioural insights for online safety: understanding the impact of video sharing platform (VSP) design on user behaviour, 2022
[204] Oherwydd newidiadau i ddarparwr a methodoleg y panel, nid ydym yn gallu cymharu'n uniongyrchol â phwyntiau data penodol, er ein bod wedi cyfeirio mewn rhai meysydd at debygrwydd neu wahaniaethau hierarchaidd â data W2.

ag adrodd gan nad oeddent ‘*wedi cael eu heffeithio’n uniongyrchol*’ neu ‘*ddim yn credu ei fod yn sarhaus*’.  Mae oedolion ifanc 18-24 (22%) a’r rheini o grŵp lleiafrifoedd ethnig (22%) yn fwy tebygol na’r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin o ddweud ‘*nad oedd ganddynt amynedd i adrodd*’ (13%).

**Ffigur 71: Rhesymau dros beidio â gweithredu**





*Ffynhonnell: Traciwr Profiadau Ar-lein 2023 C16. Pam dim gweithredu (ac eithrio "Nes i sgrolio heibio iddo yn C15"): Rydych chi wedi sôn na wnaethoch chi gymryd unrhyw gamau gweithredu. Pam hynny? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed â hyn y DU (1536).*

## Mae defnyddwyr y rhyngrwyd wedi cael canlyniadau cymysg o’u hadroddiadau, ac mae eu lefelau bodlonrwydd â’r broses yn adlewyrchu hyn

Dywedodd dros hanner y rheini a oedd wedi adrodd neu gwyno am gynnwys neu ymddygiad niweidiol posibl ar-lein nad oedd unrhyw beth wedi digwydd ar hyn o bryd o ganlyniad i’r cam gweithredu hwn (53%). Dywedodd bron i un o bob pump fod y cynnwys wedi cael ei ddileu (18%), dywedodd 7% eu bod wedi cael ymateb ysgrifenedig, a gofynnwyd i 3% ddarparu rhagor o wybodaeth. Roedd lefelau bodlonrwydd â’r broses adrodd neu broses gwyno yn amrywio ymysg defnyddwyr rhyngrwyd y DU, gyda 32% yn teimlo’n fodlon ar eu profiad a 36% yn teimlo’n anfodlon.

**Ffigur 72: Canlyniad yr adrodd a bodlonrwydd gyda'r broses adrodd**




*Ffynhonnell: Traciwr Profiadau Ar-lein 2023 C17 unrhyw niwed a enwir. Canlyniadau yr adrodd:* Fe wnaethoch chi grybwyll eich bod wedi adrodd/cwyno am y [NODWCH Y NIWED A DDEWISWYD YN C9]. *Beth ddigwyddodd o ganlyniad i hynny? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed â hyn y DU (2061). A C18 unrhyw niwed a enwir. Bodlonrwydd â'r broses adrodd: Ar y cyfan, pa mor fodlon oeddech chi gyda'r broses adrodd/cwynion? Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 13 oed â hyn y DU (1716).*

## Agweddau defnyddwyr at safoni cynnwys a dull gweithredu llwyfannau

### Byddai ychydig dros hanner y rheini sy'n defnyddio VSPs yn hoffi i wefannau/apiau weithredu ar unwaith wrth ddatrys achos o dorri rheolau neu fesurau diogelwch ar VSPs

Mae gan lawer o lwyfannau ar-lein delerau ac amodau a pholisïau defnydd derbyniol sy'n nodi'r mathau o gynnwys sy'n cael eu caniatáu neu nad ydynt yn cael eu caniatáu ar eu gwasanaeth. Canfu data o don ddiweddaraf Ofcom o'r Traciwr VSP fod y mwyafrif o ddefnyddwyr VSP o'r farn y dylai gwefannau/apiau ddatrys y problemau ar unwaith (54%), neu o fewn 24 awr (27%), pan fo rheolau'n cael eu torri ar VSPs. Fodd bynnag, fel y dangosir yn y tabl isod, mae hyn yn amrywio yn ôl oedran a rhywedd.[205]

**Ffigur 73: Defnyddwyr gwefannau/apiau sy'n achos o dorri mesurau diogelwch ar VSPs, fesul is-grŵp.**

| Grwpiau demograffig | | Datrys y mater ar unwaith | Datrys y mater o fewn 24 awr |
|---|---|---|---|
| **Oedran** | 13-17 oed | 64% | 21% |

[205] Ofcom, Traciwr VSP , 2023

| Grwpiau demograffig | | Datrys y mater ar unwaith | Datrys y mater o fewn 24 awr |
|---|---|---|---|
| | 18+ | 53% | 27% |
| | 18-24 | 35% | 34% |
| | 25-34 | 41% | 33% |
| | 35-44 | 46% | 25% |
| | 45-54 | 57% | 29% |
| | 55+ | 71% | 20% |
| **Rhywedd** | Menywod a merched | 61% | 21% |
| | Dynion a bechgyn | 47% | 31% |

• Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 95%
• Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 95%

*Ffynhonnell: Traciwr VSP 2023, C16. Os bydd safle neu ap yn canfod neu'n cael gwybod am fideos treisgar, camdriniol neu amhriodol sy'n torri ei reolau neu ei fesurau diogelwch, pa mor hir ydych chi'n meddwl y dylai'r safle neu'r ap ei gymryd i ddatrys y broblem? Sail: Defnyddwyr VSP 13 oed â hyn y DU (1242).*

Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod, mae rhai llwyfannau'n cyhoeddi adroddiadau tryloywder, sy'n aml yn rhoi gwybod am ddata sy'n ymwneud â chanfod, sydd wedyn yn arwain at ddileu. Yn Ch1 2023, dywedodd YouTube fod 94% (6.1 miliwn) o gyfanswm y fideos a gafodd eu dileu wedi cael eu canfod drwy fflagio awtomatig a bod llai na 6% (360k) wedi cael eu nodi o adroddiadau defnyddwyr.[206] Ychydig iawn o lwyfannau sy'n dangos yn gyhoeddus pa mor gyflym roeddent yn gweithredu ar gynnwys treisiol. Roedd data Snapchat yn dangos bod yr amser cyfartalog (canolrifol) yn H2 2022 ar gyfer dileu cynnwys a chyfrifon ar gyfer cynnwys rhywiol, ar ôl adroddiad defnyddwyr, yn chwe munud, ond roedd yr amser a gymerwyd i ddileu cynnwys a chyfrifon ar gyfer iaith casineb yn 30 munud ar gyfartaledd.[207] Mae'r amseroedd hyn yn uwch nag mewn cyfnodau blaenorol (yn H2 2021 roedd yr amseroedd cyrraedd cyfatebol yn llai na munud a 12 munud yn y drefn honno), y mae Snapchat yn nodi mai'r rheswm dros hynny yw oherwydd nifer fwy o bobl yn adrodd am gynnwys a chyfrifon. Yn fyd-eang, roedd TikTok wedi tynnu 96% o fideos a oedd yn cynnwys hunanladdiad a hunan-niweidio o fewn 24 awr iddynt gael eu llwytho i fyny, o'i gymharu ag 80% ar gyfer aflonyddu a bwlio; ffigur y DU wedi'i gyfuno ar draws pob polisi oedd 87%.[208]

# Agweddau a dulliau defnyddwyr tuag at gadw'n ddiogel ar-lein

Canfu ymchwil Ofcom fod 78% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo bod rhaid diogelu pobl ar-lein rhag cynnwys amhriodol neu dramgwyddus.[209]

Pan ofynnwyd iddynt ddewis rhwng dau ddatganiad, roedd 40% o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo y dylid rhoi mwy o fesurau diogelwch ar-lein ar waith, ac roedd 23% yn teimlo

[206] YouTube, YouTube Community Standards Enforcement, Ch1 2023.
[207] Snapchat, Overview of Content and Account Violations, H2 2022.
[208] TikTok, Community Guidelines Enforcement Report | TikTok, Ch1 2023.
[209] Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o'r Cyfryngau 2022, Ofcom: Arolwg craidd.

bod digon ar gael yn barod. Unwaith eto, mae gwahaniaethau rhwng grwpiau demograffig. Mae menywod (49%), oedolion 55 oed a hŷn (46%) ac oedolion a ddywedodd wrthym fod ganddynt gyflwr sy'n effeithio neu'n cyfyngu arnynt (42%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddewis mwy o fesurau diogelwch.

**Ffigur 74: Barn ar fesurau diogelwch, fesul is-grŵp. 'Mae digon o fesurau diogelwch ar-lein ar waith o'i gymharu â dylai fod mwy o fesurau diogelwch ar-lein yn lle datganiadau.**

| Grwpiau demograffig | | 'Digon o fesurau diogelwch ar waith' | Niwtral | 'Angen mwy o fesurau diogelwch' |
|---|---|---|---|---|
| Rhywedd | Menywod | 15% | 36% | 49% |
| | Dynion | 33% | 37% | 31% |
| Oedran | 18-24 | 24% | 40% | 36% |
| | 25-34 | 22% | 39% | 39% |
| | 35-44 | 24% | 39% | 37% |
| | 45-54 | 27% | 35% | 37% |
| | 55+ | 21% | 33% | 46% |
| Ethnigrwydd | Gwyn | 24% | 36% | 40% |
| | Grŵp ethnig lleiafrifol | 20% | 36% | 44% |
| Rhywioldeb | Heterorywiol | 23% | 36% | 41% |
| | Hoyw neu lesbiad | 28% | 36% | 36% |
| | Deurywiol | 25% | 40% | 35% |
| Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt | Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt | 23% | 36% | 42% |
| | Dim cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt | 24% | 36% | 40% |

- Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 99%
- Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 99%

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C1. 'Mae digon o fesurau diogelwch ar-lein ar waith' o'i gymharu â 'dylid cael mwy o fesurau diogelwch ar-lein yn lle datganiadau'. Llusgwch y llithrydd i ddangos lle mae eich barn chi a chlicio i gadarnhau eich dewis cyn symud i'r pâr nesaf o ddatganiadau. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13,205).*

Mae barn gymysg ymysg oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am reoli'r hyn sy'n cael ei bostio ar-lein. Pan ofynnwyd iddynt ddewis rhwng 'y wefan neu'r ap' neu 'yr unigolyn', mae 37% yn teimlo y dylai'r cyfrifoldeb fod ar y wefan neu'r ap i reoli'r hyn sy'n cael ei bostio ar wefan, tra bod ychydig o dan un o bob pump yn teimlo y dylai'r cyfrifoldeb fod ar yr

unigolyn (19%). Mae cyfran fawr heb benderfynu, yn ansicr neu o bosibl yn teimlo y dylai'r baich ddisgyn ar yr unigolyn ac ar y llwyfan (44%).

**Ffigur 75: Safbwyntiau ar gyfrifoldeb dros reoli cynnwys wedi'i bostio, fesul is-grŵp. 'Cyfrifoldeb y wefan neu'r ap yw rheoli'r hyn sy'n cael ei bostio ar ei wefan' o'i gymharu â 'chyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau bod yr hyn y mae'n ei bostio yn briodol i ddefnyddwyr eraill.'**

| Grwpiau demograffig | | Cyfrifoldeb y llwyfan | Niwtral | Cyfrifoldeb yr unigolyn |
|---|---|---|---|---|
| **Rhywedd** | Menywod | 36% | 47% | 17% |
| | Dynion | 37% | 40% | 22% |
| **Oedran** | 18-24 | 38% | 43% | 19% |
| | 25-34 | 38% | 45% | 16% |
| | 35-44 | 39% | 46% | 16% |
| | 45-54 | 36% | 45% | 19% |
| | 55+ | 36% | 41% | 23% |
| **Ethnigrwydd** | Gwyn | 37% | 44% | 19% |
| | Grŵp ethnig lleiafrifol | 33% | 43% | 24% |
| **Rhywioldeb** | Heterorywiol | 36% | 44% | 20% |
| | Hoyw neu lesbiad | 40% | 42% | 18% |
| | Deurywiol | 42% | 45% | 13% |
| **Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt** | Cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt | 37% | 43% | 20% |
| | Dim cyflwr sy'n cyfyngu neu'n effeithio arnynt | 37% | 44% | 19% |

- Mae'n hysbysu'n uwch na'r cyfanswm gyda hyder o 99%
- Mae'n hysbysu'n is na'r cyfanswm gyda hyder o 99%

*Ffynhonnell: Ofcom, Traciwr Profiadau Ar-lein 2023. C1. 'Cyfrifoldeb y wefan neu'r ap yw rheoli'r hyn sy'n cael ei bostio ar ei wefan' o'i gymharu â 'chyfrifoldeb yr unigolyn yw sicrhau bod yr hyn y mae'n ei bostio yn briodol i ddefnyddwyr eraill.' Llusgwch y llithrydd i ddangos lle mae eich barn chi a chlicio i gadarnhau eich dewis cyn symud i'r pâr nesaf o ddatganiadau. Sail: Defnyddwyr rhyngrwyd 18 oed â hyn y DU (13,205).*

## Mae plant a rhieni wedi mabwysiadu amrywiaeth o strategaethau i helpu plant i gadw'n ddiogel ar-lein, gyda llawer o rieni'n mabwysiadu math o reolaeth dechnegol

Mae dros naw o bob deg plentyn 8-17 oed wedi siarad â rhywun am sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel (91%); mae 88% wedi gwneud hynny gydag aelod o'r teulu ac mae 76% wedi gwneud hynny

gydag athro. Fodd bynnag, eleni bu gostyngiad yng nghyfran y plant 8-11 oed a oedd wedi siarad â rhywun am sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel, o 94% yn 2021 i 91% yn 2022.[210] Roedd ymchwil ansoddol Ofcom i ddeall cyfathrebu ar-lein ymysg plant yn tynnu sylw at ba mor ddefnyddiol yw sesiynau e-ddiogelwch yr ysgol o ran darparu strategaethau defnyddiol am gadw'n ddiogel ar-lein.[211]

Mae plant a'u rhieni yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i helpu i sicrhau profiad diogel ar-lein. Canfu ymchwil Ofcom fod gan saith o bob deg o rieni plant 3-17 oed ryw fath o reolaeth dechnegol ar waith i reoli mynediad eu plentyn i gynnwys ar-lein; y rheolaethau technegol a ddefnyddiwyd fwyaf oedd y rhai sydd wedi'u gosod ymlaen llaw i ddyfeisiau megis Windows, Apple neu Xbox (34%). Roedd cynnydd hefyd yn nifer y rhieni â phlant 8-11 oed a oedd yn ymwybodol o'r math hwn o reolaeth dechnegol, gan godi o 37% yn 2021 i 48% yn 2022. Roedd rhieni plant 5-7 oed yn fwy tebygol yn 2022 nag yn 2021 o ddefnyddio meddalwedd, gosodiadau neu apiau rheolaeth gan rieni y gellir eu gosod ar ffôn neu ddyfais tabled eu plentyn (33% o'i gymharu â 22%). Mae chwarter rhieni plant 12-15 oed yn defnyddio meddalwedd rheolaeth gan rieni fel Net Nanny neu McAfee Family Protection, i fyny o 21% yn 2021.[212]

Mae rhai plant yn cymryd camau eu hunain i'w helpu i gadw'n ddiogel ar-lein. Mae ymchwil ansoddol Ofcom wedi canfod bod nifer o strategaethau'n cael eu defnyddio, gan gynnwys gosod cyfrifon gemau a chysylltiadau i gyfrif preifat, fel na all plant gael eu hychwanegu at grwpiau neu dderbyn ceisiadau ffrind gan bobl nad ydyn nhw'n eu hadnabod; peidio â derbyn ceisiadau i fod yn ffrind neu ychwanegu pobl nad ydynt yn eu hadnabod; gwirio hunaniaeth pobl ar draws llwyfannau trwy ddod o hyd iddynt ar lwyfannau eraill; a chadw anhysbysrwydd ar-lein trwy ddefnyddio lluniau proffil ac enwau defnyddwyr dienw, a pheidio â rhannu gwybodaeth bersonol amdanynt eu hunain.[213]

Mae llawer o blant hefyd yn ceisio gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth wrth benderfynu a ddylent dderbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan rywun nad ydynt wedi anfon neges ato neu wedi siarad ag ef o'r blaen. Adnabod y person mewn bywyd go iawn (46%) neu gael ffrindiau agos ar y cyd (41%) yw'r ystyriaethau mwyaf cyffredin a ddefnyddir i benderfynu.[214]

---

[210] Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad o'r defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt, 2023.
[211] Ofcom, Deall cyfathrebu ar-lein ymysg plant, 2023.
[212] Ofcom, Plant a rhieni: adroddiad o'r defnydd o'r cyfryngau ac agweddau atynt, 2023.
[213] Ofcom, Deall cyfathrebu ar-lein ymysg plant, 2023. Sylwch fod ymchwil arall yn awgrymu bod rhai plant yn llai tebygol o osgoi risg ar-lein na'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth hon, felly mae'r astudiaeth hon yn werthfawr o ran tynnu sylw at yr ymddygiadau a'r strategaethau y mae rhai plant yn eu defnyddio, sy'n ymddangos yn gymharol effeithiol.
[214] Ofcom, Deall cyfathrebu ar-lein ymysg plant, 2023.

# Methodoleg

## Ffynonellau ymchwil Ofcom

### Traciwr Profiadau Ar-lein Ofcom 2023

Mae'r Traciwr Profiadau Ar-lein yn arolwg tracio meintiol sy'n edrych ar agweddau pobl at ddefnyddio gwasanaethau a llwyfannau ar-lein yn y DU, a'u profiadau o hynny. Mae Ofcom yn cynnal yr ymchwil hwn ddwywaith y flwyddyn gan ddefnyddio panel ar-lein YouGov o dros 2.7 miliwn o bobl sy'n byw yn y DU.

Cynhaliwyd Ton 4 o'r Traciwr Profiadau Ar-lein ymysg sampl cynrychioliadol cenedlaethol o 14,181 o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn y DU rhwng 13 ac 84 oed. Cynhaliwyd y gwaith maes dros gyfnod o ddeg diwrnod rhwng 7 a 17 Gorffennaf 2023. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth defnyddwyr rhyngrwyd y DU o ran oedran o fewn rhywedd, ac yn gyffredinol, i broffiliau rhanbarthol a Grŵp Economaidd-Gymdeithasol.

Daeth yr holl ymatebwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil o banel YouGov. Cafodd plant 13-17 oed eu recriwtio drwy eu rhieni neu eu gwarcheidwaid. Cafodd yr arolwg ei drosglwyddo i'r plant ar ôl cael caniatâd rhieni neu warcheidwaid. Yna rhoddodd y plant eu caniatâd eu hunain a chawsant gyfle i wrthod cymryd rhan yn yr ymchwil os oeddent yn dymuno.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr Adroddiad Technegol: https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/online-research/internet-users-experience-of-harm-online

### Traciwr VSP 2023

Mae arolwg y Traciwr VSP yn cael ei gynnal ddwywaith y flwyddyn ac mae'n ceisio deall a thracio ymwybyddiaeth, canfyddiadau a phrofiadau honedig defnyddwyr VSPs o'r mesurau diogelwch a'r adnoddau sydd ar gael ar VSPs, yng nghyd-destun ehangach eu defnydd o VSPs. Cynhaliwyd cyfanswm o 1,242 o gyfweliadau ar-lein ymysg plant ac oedolion 13 oed a hŷn gan YouGov yn Nhon 4. Cynhaliwyd gwaith maes Ton 4 ym mis Mehefin 2023.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr Adroddiad Technegol:

https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0027/267075/VSP-Tracker-Wave-4-Technical-Report.pdf

### Traciwr Technoleg Ofcom 2023

Mae'r Traciwr Technoleg yn arolwg blynyddol a gynhelir ymysg oedolion 16 oed a hŷn, sy'n casglu gwybodaeth am berchnogaeth a defnydd pobl o dechnolegau, gan gynnwys teledu, radio, ffonau symudol, y rhyngrwyd a thechnoleg glyfar. Yn 2023, cynhaliwyd y gwaith maes gan BMG Research gyda 3,997 o oedolion rhwng mis Ionawr ac Ebrill, ac roedd yn gymysgedd o 80% o arolygon wyneb yn wyneb ac 20% o arolygon ar-lein. Mae'n werth nodi nad yw'n bosibl cymharu â data 2021 ar gyfer y Traciwr Technoleg, gan fod rhaid i'r fethodoleg yn 2021 newid i wthio i'r we a gwthio i'r post oherwydd y pandemig Covid-19.

## Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o’r Cyfryngau 2022 Ofcom

Mae’r Traciwr Ymwybyddiaeth Oedolion o’r Cyfryngau yn arolwg blynyddol sy’n darparu tystiolaeth am ddefnydd, agweddau a dealltwriaeth o’r cyfryngau ymysg oedolion 16 oed a hŷn yn y DU.

Eleni, roedd y Traciwr yn cynnwys tri arolwg:

- Arolwg craidd: Cynhaliwyd un don y flwyddyn wyneb yn wyneb yn y cartref/ar garreg y drws gyda chyfweliadau ar-lein ychwanegol yn cael eu cynnal drwy banel ymchwil, gyda sampl o 3,651 o oedolion 16 oed a hŷn (2,130 wyneb yn wyneb ac 1,521 ar-lein). Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2022. Roedd yr arolwg hwn yn edrych ar ehangder y defnydd o’r rhyngrwyd, defnydd dyfeisiau ac agweddau, a chwarae gemau.
- Ymddygiad ac Agweddau Ar-lein: Dwy don y flwyddyn, a gyflwynir drwy banel ar-lein, gyda sampl o 6,100 o oedolion 16 oed a hŷn (3,059 yn nhon 1 a 3,041 yn nhon 2). Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer ton 1 rhwng mis Ebrill a mis Mai 2022, ac ar gyfer ton 2 rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Roedd yr arolwg hwn yn edrych ar bynciau cyfryngau cymdeithasol, agweddau ar-lein a llesiant.
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Rhyngrwyd: Un don y flwyddyn, a gyflwynir drwy banel ar-lein, gyda sampl o 3,041 o oedolion 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2022. Roedd yr arolwg hwn yn edrych ar bynciau dealltwriaeth feirniadol, data personol, ymddiriedaeth a hysbysebu ar-lein.

## Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o’r Cyfryngau 2022 Ofcom

Mae’r Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni yn y Cyfryngau yn darparu tystiolaeth ar fynediad, defnydd, agweddau a dealltwriaeth o’r cyfryngau ymysg plant a phobl ifanc 3-17 oed. Mae’r arolwg hefyd yn gofyn barn rhieni am ddefnydd eu plant o’r cyfryngau, a sut mae rhieni plant a phobl ifanc 3-17 oed yn monitro ac yn rheoli defnydd eu plant.

Eleni, roedd y Traciwr yn cynnwys tri arolwg:

- Ymddygiad ac agweddau ar-lein: Dwy don y flwyddyn, a gyflwynwyd drwy banel ar-lein, gyda sampl o 6,795 o rieni plant 8-17 oed a phlant 3-17 oed (3,378 yn nhon un a 3,417 yn nhon dau). Cynhaliwyd yr arolwg hwn dros ddwy don i gofnodi defnydd plant o gyfryngau sy’n newid yn gyflym, fel cyfryngau cymdeithasol, ffrydio byw a llwyfannau rhannu fideos. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer y don gyntaf ym mis Mai 2022 a’r ail don ym mis Tachwedd 2022.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhyngrwyd: Un don y flwyddyn, a gyflwynir drwy banel ar-lein, gyda sampl o 2,087 o blant 8-17 oed. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2022.
- Rhieni yn unig: Un don y flwyddyn, a gyflwynir trwy gymysgedd o baneli ar-lein ac arolygon o'r post i’r we, gyda sampl o 2,526 o rieni plant 3-17 oed. Roedd y fethodoleg gymysg yn ein galluogi i gyrraedd sampl ehangach o ymatebwyr. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2022.

Mae rhagor o fanylion am fethodoleg Traciwr Ymwybyddiaeth Plant a Rhieni o’r Cyfryngau 2022 ar gael yn Adroddiad Technegol 2022.

## Etholiadau YouGov Ofcom - Panel Ymchwil Ar-lein

Mae Ofcom yn gweithio gyda YouGov Plc UK ar brosiect y Panel Ymchwil Ar-lein, sy’n caniatáu i Ofcom gynnal cyfweliadau ar-lein sy’n cael eu gweinyddu i aelodau panel YouGov UK o 2.5 miliwn o unigolion sydd wedi cytuno i gymryd rhan mewn arolygon. Caiff negeseuon e-bost eu hanfon at banelwyr a ddewiswyd ar hap o’r sampl sylfaenol. Mae’r e-bost yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg ac yn darparu dolen arolwg generig. Pan fydd aelod o’r panel yn clicio ar y ddolen, bydd yn cael ei anfon i’r arolwg sy’n gofyn amdano fwyaf, yn ôl y diffiniad o’r sampl a’r cwotâu. Nid yw gwahoddiadau i arolygon yn dod i ben, a gellir cyfeirio ymatebwyr at unrhyw arolwg sydd ar gael. Mae’r sampl sy’n ymateb yn cael ei bwysoli yn ôl proffil y diffiniad o'r sampl er mwyn darparu sampl adrodd cynrychioliadol.

Dyma’r diffiniadau sampl ar gyfer pob pôl:

**AI cynhyrchiol** – Cyfanswm y sampl oedd 2,116 o gyfranogwyr 16 oed a hŷn, wedi’u pwysoli ac yn cynrychioli defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy’n 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 9 a 12 Mehefin 2023.

**Microflogio** – Cyfanswm y sampl oedd 10,005 o gyfranogwyr 16 oed a hŷn, wedi’u pwysoli ac yn cynrychioli defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy’n 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 6 a 11 Medi 2023.

**Llesiant plant ar-lein** – Cyfanswm y sampl oedd 799 o gyfranogwyr 8-15 oed, wedi’u pwysoli ac yn cynrychioli plant sy’n defnyddio’r rhyngrwyd rhwng 8 a 15 oed ym Mhrydain Fawr. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 25 a 31 Awst 2023.

**Llesiant oedolion ar-lein** – Cyfanswm y sampl oedd 10,005 o gyfranogwyr 16 oed a hŷn, wedi’u pwysoli ac yn cynrychioli defnyddwyr rhyngrwyd y DU sy’n 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 6 a 11 Medi 2023.

## Deall cyfathrebu ar-lein ymysg plant

Yn 2022, cynhaliodd Ofcom rywfaint o ymchwil meintiol ar-lein ar ddeall cyfathrebu ar-lein ymysg plant, a oedd yn helpu i archwilio gyda phwy mae plant yn cyfathrebu ar-lein, sut maen nhw’n ehangu eu rhwydweithiau ar-lein, ac a ydyn nhw wedi cael unrhyw ryngweithio a allai fod yn anghyfforddus ar-lein. Cynhaliwyd hyn gan BMG, a chynhaliwyd gwaith maes ym mis Rhagfyr 2022 gyda 2,031 o blant rhwng 11 a 18 oed. Yn dilyn yr ymchwil feintiol hon, comisiynodd Ofcom ymchwil ansoddol ychwanegol gyda BMG a oedd yn edrych ar gyfathrebu plant ar wefannau gemau, apiau cwrdd â chariad a gwefannau/apiau sy’n hwyluso gwneud cysylltiadau newydd. Cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein hyn rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2023 gyda sampl o 22 o blant rhwng 11 a 18 oed.

## Oedran Defnyddwyr Plant Ar-lein Ofcom 2023

Er mwyn deall i ba raddau mae plant yn osgoi mesurau sicrhau oedran, comisiynodd Ofcom ymchwil feintiol gan YouGov i amcangyfrif cyfran y plant sydd â phroffiliau ar-lein gydag ‘oedran defnyddwyr’ sy’n gwneud iddynt ymddangos yn hŷn nag y maent mewn gwirionedd. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Awst a mis Medi 2023 a chafodd yr holiadur ei lenwi gan 1,806 o blant 8-17 oed.

I fod yn gymwys ar gyfer yr arolwg, roedd rhaid i blant ddefnyddio a chael eu proffil eu hunain ar o leiaf un o’r deg llwyfan canlynol: YouTube (heb gynnwys YouTube Kids), Snapchat, TikTok, Instagram, Facebook, Discord, Pinterest, Twitch, X/Twitter, Vimeo (neu unrhyw lwyfannau eraill a nodwyd ganddynt yn yr arolwg). Rhoddwyd hwb i sicrhau bod gan y sail isafswm o 50 fesul llwyfan, fesul

grŵp oedran, sy'n ddigonol ar gyfer dadansoddiad cadarn. Cafodd y data ei bwysoli i gynrychioli'r DU ar sail oedran, rhywedd a rhanbarth, a defnyddiwyd profion sylweddol ar sail hyder o 95%.

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr Adroddiad Technegol yma: [LINK TO ADD]

## Traciwr Fforddiadwyedd Cyfathrebu Ofcom

Nod y Traciwr Fforddiadwyedd Cyfathrebu yw rhoi dealltwriaeth barhaus i Ofcom o faterion fforddiadwyedd defnyddwyr yn marchnadoedd cyfathrebiadau'r DU (gan gynnwys gwasanaethau symudol, llinell dir, band eang sefydlog, teledu drwy dalu a theledu ar-alw). Mae'r traciwr wedi bod yn rhedeg ers mis Mehefin 2020 gyda'r gwaith maes yn cael ei wneud bob chwarter drwy omnibws dros y ffôn. Mae'r data sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd ym mis Hydref 2023 ymysg 1,115 o oedolion yn y DU sy'n 18 oed a hŷn, sydd naill ai yn gwneud penderfyniadau am wasanaethau cyfathrebu ar eu pen eu hunain neu ar y cyd yn eu haelwyd a /neu'r rhai sy'n defyddio ffôn symudol yn bersonol.

## Dealltwriaeth o ymddygiad – mecanweithiau adrodd ar VSPs

Yn 2022, bu Ofcom yn gweithio gyda Kantar Public i gynnal cyfres o dreialon rheoli ar hap ar-lein gydag oddeutu 2,400 o oedolion ym mhob treial. Cynhaliwyd y ddau dreial ar lwyfan rhannu fideos ffug a oedd yn adlewyrchu llwyfannau go iawn o ran edrychiad a swyddogaeth. Dangoswyd chwe fideo i'r holl gyfranogwyr, cymysgedd o rai niwtral a rhai niweidiol posibl, mewn trefn ar hap wrth i ni fesur eu hymddygiad ar y llwyfan. Er mwyn profi ymyriadau gwahanol, cafodd cyfranogwyr eu dyrannu ar hap i wahanol grwpiau triniaeth, lle gwnaed newidiadau penodol. Drwy roi'r cyfranogwyr ar hap a rheoli'r gwahaniaethau rhwng grwpiau'n agos, roeddem yn gallu dod i gasgliadau achosol o'r ymyriadau. Yn dilyn prif ran y treial lle roedd cyfranogwyr yn gallu pori heb darfiadau, gofynnwyd cyfres o gwestiynau dilynol iddynt hefyd er mwyn cael cipolwg ar eu hagweddau a'u canfyddiadau.

## Ffactorau Risg a allai Arwain Plant i Niwed Ar-lein

Yn 2022, fe wnaeth Ofcom gomisynu Revealing Reality i archwilio sut mae gwahanol ffactorau risg yn cyfuno i gynyddu'r tebygolrwydd o niwed i blant ar-lein. Amcanion penodol y prosiect oedd mynd y tu hwnt i adroddiad disgrifiadol o'r hyn mae plant yn ei brofi ar-lein ac archwilio'r ffactorau a allai eu harwain at niwed a pham, gan ganolbwyntio ar gyfryngau cymdeithasol, llwyfannau rhannu fideos (VSPs), gemau a llwyfannau chwilio.

Sampl: Cafodd 42 o blant rhwng 7 ac 17 oed eu recriwtio i gymryd rhan yn y prosiect hwn, ar draws pedair gwlad y DU, gyda dosbarthiad eang yn ôl rhywedd, grŵp economaidd-gymdeithasol, strwythur teuluol, ethnigrwydd, anghenion addysgol arbennig, dyfais a defnydd ar-lein. Roedd y sampl hefyd yn cynnwys saith o blant sy'n derbyn gofal, y rheini sy'n byw mewn gofal maeth yn ogystal â'r rheini sy'n byw mewn gofal preswyl. Roedd gan naw o blant yn y sampl anghenion addysgol arbennig neu anableddau (SEND).

Methodoleg: Mae profiadau o niwed ar-lein yn gymhleth iawn a dim ond drwy ystyried amrywiaeth o ffactorau y gellir eu deall, y tu hwnt i'r hyn y mae plant yn ei weld ac yn ei ddweud ar-lein. I gofnodi hyn yn briodol, defnyddiwyd dull ethnograffig ar gyfer yr ymchwil hon - sy'n golygu bod ymddygiad cyfranogwyr yn cael ei arsylwi yn eu cartrefi a thrwy dracio cyfryngau cymdeithasol. Darparwyd sgrinluniau a dyddiaduron cyfryngau hefyd gan gyfranogwyr i ddeall eu bywydau ar-lein ymhellach, yn ogystal â chyfweliadau wyneb yn wyneb ac ar-lein a oedd yn cael eu cynnal i'w clywed gan y plant eu hunain. Mae rhagor o fanylion am y prosiect ar gael ar y wefan:
https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/online-research/keeping-children-safe-online

## Astudiaeth Mesur Goddefol Plant Ofcom Ipsos 2023

Fe wnaeth Ofcom gomisiynu Ipsos i gynnal astudiaeth a oedd yn mesur yn oddefol y defnydd o'r rhyngrwyd gan 162 o blant 8-12 oed ar ffonau clyfar, dyfeisiau tabled a chyfrifiaduron. Diben yr astudiaeth oedd profi a all methodoleg oddefol, yn y dyfodol, ddarparu metrigau cadarn o ddefnydd plant ar-lein. Felly, cynhaliwyd yr astudiaeth ymysg sampl fach o 162 o blant rhwng 8 a 12 oed; mae'n adlewyrchu'r defnydd ar-lein o'r plant yn yr astudiaeth yn unig ac efallai nad yw'n cynrychioli holl blant y DU sy'n 8-12 oed.

Cafodd dyfeisiau eu mesur lle rhoddodd rhiant/gwarcheidwad y plentyn wybod i ni yn ystod y broses recriwtio bod y plentyn yn defnyddio'r ddyfais o leiaf unwaith yr wythnos. Gosodwyd ap monitro goddefol / traciwr VPN ar y dyfeisiau a ddefnyddir gan y plentyn, a oedd yn casglu'r data. Dim ond i ddyfeisiau iOS neu Android y gellid llwytho'r ap monitro i lawr; nid oedd dyfeisiau tabled Amazon Fire ar gyfer plant yn cydweddu â'r ap. Mesurwyd 227 o ddyfeisiau: 127 o ffonau clyfar, 79 o ddyfeisiau tabled a 21 gliniadur/cyfrifiadur.

Rydym yn ymwybodol bod plant yn rhannu dyfeisiau ag aelodau eraill o'r cartref, felly fel rhan o'r broses recriwtio, fe'n hysbyswyd gan rieni/gwarcheidwaid y plant a gymerodd ran pa ddyfeisiau oedd i'w tracio a oedd hefyd yn cael eu rhannu ag eraill. Roedd y modd defnyddiwr teulu ar gael ar yr ap tracio ar gyfer cyfrifiaduron Android yn unig, a oedd yn golygu y gallai defnyddiwr y ddyfais nodi pwy oedden nhw cyn i'w gweithgarwch ar-lein gael ei wneud ar y ddyfais gan gyfyngu ar gasglu data amherthnasol ar y dyfeisiau hyn.

Cafodd proses glanhau data ei rhoi ar waith i sicrhau bod y data'n adlewyrchu ymddygiad ar-lein y plentyn yn rhesymol ac yn cael gwared ar ymddygiad a oedd yn fwy tebygol o ddod gan oedolyn. Dechreuon ni gyda 169 o blant yn cymryd rhan i ddechrau ond yn dilyn y broses glanhau data, cafodd 7 o gyfranogwyr eu tynnu gan fod y rhan fwyaf o'u data'n adlewyrchu defnydd oedolion gan ein gadael ni gyda 162 o gyfranogwyr. Mewn rhai achosion lle'r oedd mwy nag un ddyfais wedi'i mesur, cafodd dyfeisiau a oedd yn adlewyrchu defnydd oedolion yn bennaf eu dileu, yn gyffredinol (gan gynnwys y cyfranogwyr a gafodd eu dileu'n llwyr) cafodd 14 dyfais eu dileu.

Un o'r cyfyngiadau ar ddyfeisiau sy'n cael eu rhannu yw bod plant weithiau'n rhannu dyfeisiau â brodyr a chwiorydd, a allai fod ag ymddygiad tebyg neu fuddiannau tebyg iddyn nhw. Ar gyfer achosion fel hyn, nid oeddem yn gallu nodi lle daeth y data gan y plentyn a oedd yn cymryd rhan yn yr astudiaeth neu eu brodyr a'u chwiorydd. Mae hyn yn debygol o barhau i fod yn her barhaus i unrhyw ymchwil goddefol i blant yn y dyfodol.

Roedd yr astudiaeth beilot yn defnyddio dull gweithredu 2 gam gyda gwaith maes yn cael ei wneud yn ystod y ddau gam. Roedd y cam cyntaf yn lansiad meddal ymysg 17 o blant y mesurwyd eu defnydd ar-lein dros gyfnod o dair wythnos rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2023. Defnyddiwyd y sampl fach hon o blant i sicrhau bod methodoleg yr ymchwil yn briodol. Ar ôl cadarnhau bod y gwaith o gasglu data o'r cam cyntaf wedi bod yn llwyddiannus, gwnaethom barhau â'r ymchwil gyda sampl mwy. Roedd yr ail gam yn mesur 145 o blant am bedair wythnos rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2023. Roedd yr union ddyddiadau'n amrywio yn ôl cyfranogwr, ond roedd yr holl waith maes yn disgyn o fewn y dyddiadau 12 Ionawr – 26 Chwefror (cam 1) ac 11 Ebrill – 18 Gorffennaf (cam 2). Cyfunwyd canlyniadau o'r ddau gam i ddarparu'r data heb ei bwysoli a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, felly ni ddylid ystyried y data'n gadarn.

## Mesur Ar-lein i Blant - Goddefol - y dyfodol

O'r astudiaeth beilot hon, daethom i'r casgliad y gellir mesur defnydd plant ar-lein yn oddefol. Ein bwriad wrth symud ymlaen yw datblygu Mesur Goddefol Ar-lein Plant yn y dyfodol, gan gynnwys

cynyddu maint y sampl, ystyried tonnau ar gyfer tracio ac addasu'r sampl a'r pwysoliad i fod yn gynrychioliadol yn genedlaethol.

# Ffynonellau ymchwil trydydd parti

## Ipsos - Ipsos iris

Wedi'i lansio ddechrau 2021, Ipsos iris yw'r arian wedi'i gymeradwyo gan UKOM ar gyfer mesur cynulleidfaoedd cynnwys ar-lein ymysg oedolion 15 oed a hŷn yn y DU sy'n defnyddio'r rhyngrwyd o leiaf unwaith y mis.

Mae Ipsos iris yn defnyddio methodoleg hybrid gyda nifer o ffynonellau data, gan gynnwys:

- Panel goddefol un ffynhonnell o dros 10,000 o oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd. Mae panelwyr yn gosod meddalwedd tracio goddefol ar ddyfeisiau digidol a ddefnyddir yn bersonol (ffonau clyfar, cyfrifiaduron a dyfeisiau tabled) sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, gyda data'n cael ei gasglu'n barhaus. Mae'r panel yn cael ei recriwtio i gynrychioli poblogaeth y rhyngrwyd yn ddemograffig, yn ddaearyddol ac yn ôl math o ddyfais.
- Mesuriad y cyfrifiad o wefannau ac apiau cyhoeddwyr i gasglu mesurau o ran defnydd ar gyfer yr amser a dreulir a'r ymweliadau â thudalennau ar lefel gyflawn.
- Arolwg Sefydliad o ansawdd uchel, i gynhyrchu targedau cyffredinol. Mae panel Ipsos iris wedyn yn cael ei bwysoli ar gyfer poblogaeth rhyngrwyd oedolion 15 oed a hŷn yn y DU ac is-grwpiau demograffig.
- Data trydydd parti allanol o ffynonellau achredig a chymeradwy gyda thargedau ychwanegol ar lefel gwefan neu ap.

Gan adrodd ar ddata dyddiol a misol, mae'r holl ffynonellau'n cael eu cyfuno i greu set ddata synthetig gyda dros filiwn o gofnodion i gynrychioli seilwaith gwefannau ac apiau ar-lein y DU. Gellir dadansoddi'r rhain a rhoi gwybod amdanynt ar sawl lefel ddemograffig a daearyddol. Gan mai set ddata synthetig yw hon, nid yw'n bosibl darparu cyfnodau/ystodau hyder ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth allosodedig.  Fodd bynnag, mae'r holl ffigurau poblogaeth allosodedig a ddarperir yn amcangyfrifon a fydd â rhywfaint o ansicrwydd.

Ceir rhagor o fanylion am fethodoleg Ipsos iris yma.

Ar gyfer yr adroddiadau a ddefnyddir yma, rydym wedi defnyddio data misol Ipsos iris o fis Mai 2023 ymlaen yn bennaf. Roedd y panel goddefol ar gyfer y mis hwn yn cynnwys sampl a fesurwyd yn barhaus o 10,542 o oedolion a 90 o blant 15–17 oed. Mae maint y panel yn ôl oedran a chenedl i'w weld isod. Gan fod hwn yn banel parhaus, bydd y proffil adrodd mewn misoedd eraill yn debyg.

| Demograffeg | Mis Mai 2022<br>Maint panel Ipsos iris | Mai 2023<br>Maint panel Ipsos iris | Mai 2023<br>Cyfrannau'r DU |
|---|---|---|---|
| **Plant 15-17 oed yn y DU** | 93 | 90 | 0.8% |
| **Pobl 18 oed a hŷn yn y DU** | 10,871 | 10,542 | 99.2% |
| **Pobl 18 oed a hŷn yn Lloegr** | 8,946 | 8,717 | 82.0% |
| **Pobl 18 oed a hŷn yn yr Alban** | 1,040 | 983 | 9.2% |

| Demograffeg | Mis Mai 2022<br>Maint panel Ipsos iris | Mai 2023<br>Maint panel Ipsos iris | Mai 2023<br>Cyfrannau'r DU |
|---|---|---|---|
| **Pobl 18 oed a hŷn yng Nghymru** | 623 | 561 | 5.3% |
| **Pobl 18 oed a hŷn yng Ngogledd Iwerddon** | 262 | 281 | 2.6% |

## Ampere Analysis - gemau

Mae Ampere Analysis yn gwmni ymchwil a dadansoddi data sy'n canolbwyntio ar y cyfryngau a chyfathrebu. Eleni, rydym wedi cynnwys data o dri o gynnyrch Ampere's Games:

- Ampere Games – Consumer, Ch2, data y DU. Mae dau arolwg yn cael eu cynnal yn Ch2:

  Mae un yn arolwg sy'n cynnwys 2,000 o ymatebwyr 16-64 oed sy'n cynrychioli poblogaeth ar-lein y DU yn genedlaethol. Mae'r ail yn arolwg llawer llai o blant 13-15 oed yn y DU (120) nad yw'n cynrychioli'r wlad. Lle nad yw grwpiau oedran wedi'u diffinio, mae'r ddwy set hyn o ymatebion yn cael eu cyfuno.

- Data Ampere Games – Analytics, Awst 2023, y DU:
  Mae dadansoddiadau'n tracio gweithgarwch teitl ar draws llwyfannau consolau PlayStation a'r blwch ticio, cynnwys teitl mewn catalogau tanysgrifio aml-gêm, ac mae'n darparu metrig Poblogrwydd perchnogol Ampere ar gyfer gemau blaenllaw.

- Ampere Games - Marchnadoedd:
  Mae marchnadoedd yn tracio cyfanswm perfformiad y farchnad gemau a rhagolygon ar draws categorïau dyfeisiau, modelau ar gyfer cylchredeg arian, a mathau o ddosbarthu.

## Data tryloywder llwyfannau

Mae nifer o lwyfannau ar-lein yn cyhoeddi data'n wirfoddol am orfodi eu Telerau Gwasanaeth a/neu ganllawiau cymunedol, a'r ceisiadau maen nhw'n eu cael gan lywodraethau neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Mae'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ac fe'i cyhoeddir ar wefannau'r llwyfannau eu hunain (fel arfer yn flynyddol, ddwywaith y flwyddyn neu bob tri mis). Dyma enghreifftiau o wybodaeth a gynhwysir mewn adroddiadau tryloywder:

- nifer y bobl sy'n manteisio ar gynnwys;
- defnyddio offer canfod a chymedroli awtomatig;
- y cyfrannau o'r farn am gynnwys a oedd o ddiddordeb i'r gynulleidfa;
- faint o gynnwys sy'n cael ei adrodd gan ddefnyddwyr, llywodraethau neu fflagwyr eraill;
- nifer yr apeliadau a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr;
- nifer y ceisiadau cyfreithiol am ddata defnyddwyr; a
- sylwadau am newidiadau i bolisïau neu dueddiadau yn y data.

Mewn rhai achosion, rhennir data yn ôl y categori o niwed, fel y'i diffinnir gan y llwyfan. Mae Ofcom yn monitro ac yn dadansoddi'r data hwn ei hun.

## Omnibws Haf CHILDWISE 2023.

Mae Omnibws Haf CHILDWISE yn seiliedig ar waith maes a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023, rhwng 1,504 o gyfweliadau ar-lein gyda bechgyn a merched rhwng 7 a 17 oed, ynghyd â 19 o blant a phobl ifanc yn eu harddegau sy'n uniaethu y tu allan i'r rhywedd deuaidd. Cafodd y data terfynol ei bwysoli i adfer y cydbwysedd cyfan yn ôl oedran a rhywedd.

# Cyfeiriadau at ffynonellau trydydd parti eraill

Mae Ofcom yn cyfeirio at wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a ffynonellau data trydydd parti drwy gydol yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys datganiadau i'r wasg, blogiau, adroddiadau ar enillion, adroddiadau tryloywder a gwybodaeth gorfforaethol arall sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae darparwyr trydydd parti eraill a nodwyd yn Ein Gwlad Ar-lein yn cynnwys:

- Amazon
- Ekoru.org
- Forbes
- IPA Touchpoints
- Meta
- Microsoft
- Midjourney
- OceanHero
- OpenAI
- PornHub
- QuiverQuantitative
- Reuters
- SimilarWeb
- Snapchat
- Techcrunch
- TikTok
- Twexit
- UK Parliament
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- YouTube
- Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd